Y
Comisiwn
Etholiadol

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

## 2022-23



HC 1566
ELC/2023/01
GEN-LD16003

Y
Comisiwn
Etholiadol

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

## 2022-23

Cyflwynwyd i Senedd y DU yn unol ag Atodlen 1, Paragraffau 20(1) ac 18(2)(b) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu 13 Medi 2023

Cyflwynwyd i Senedd yr Alban yn unol ag Atodlen 1, Paragraff 20A(1) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000

Cyflwynwyd i Senedd Cymru yn unol ag Atodlen 1, Paragraff 20A(1) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000

HC 1566

ELC/2023/01

GEN-LD16003

© Y Comisiwn Etholiadol 2023

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.electoralcommission.org.uk.

Dylai unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn gael eu hanfon i:
The Electoral Commission, 3 Bunhill Row, London, EC1Y 8YZ

Ffôn: 0333 1031928
E-bost: gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

ISBN: 978-1-5286-4307-8
E02939468 09/23

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi ei ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Tudalen gynnwys


**Rhagair gan ein Cadeirydd ........ 6**

**Neges gan ein Prif Weithredwr ........ 9**

**Adroddiad ar berfformiad ........ 10**

Ein rôl ........ 12

Ein rôl ledled y DU ........ 14

Cipolwg ar ein blwyddyn ........ 15

Ein blwyddyn mewn ffigurau ........ 17

**Dadansoddi perfformiad ........ 18**

Amcan Cofrestru a phleidleisio hygyrch ........ 19

Amcan: Ymgyrchu gwleidyddol tryloyw a chyllid gwleidyddol ........ 23

Amcan: Gwasanaethau etholiadol lleol cadarn ........ 27

Amcan: Cyfraith etholiadol deg ac effeithiol ........ 30

Amcan:  System etholiadol fodern a chynaliadwy ........ 32

**Defnyddio ein hadnoddau i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein nodau ........ 42**

**Adroddiad ar bwerau a sancsiynau ........ 53**

**Adroddiad blynyddol Gogledd Iwerddon ........ 56**

**Adroddiad blynyddol Cymru ........ 59**

**Adroddiad Blynyddol yr Alban ........ 63**

**Yr adroddiad ar atebolrwydd ........ 68**

**Yr adroddiad ar lywodraethu corfforaethol ........ 69**

Adroddiad y Cyfarwyddwyr ........ 69

Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ........ 71

Datganiad llywodraethu ........ 73

Bwrdd y Comisiwn a'r tîm arwain ........ 77

Rheoli risg, rheolaeth fewnol a sicrwydd ........ 86

**Yr adroddiad ar gydnabyddiaeth a staff ........ 100**

Cydnabyddiaeth y Cadeirydd a'r Comisiynwyr ........ 100

Cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol ........ 103

Yr adroddiad ar staff ........ 112

**Adroddiad ar atebolrwydd seneddol ac archwilio ........ 117**

Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol (SOPS) ........ 117

Tabl cryno 2022/23 ........ 119

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd, Senedd Cymru a Senedd yr Alban ........ 129

**Y datganiadau ariannol ........ 136**

Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ........ 137

Datganiad o'r sefyllfa ariannol ........ 138

Datganiad o Lifau Arian Parod ........ 140

Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ........ 142

Nodiadau ar y Cyfrifon Adnoddau ........ 143

Cyfarwyddyd Cyfrifon ........ 167

**Ein swyddfeydd ........ 168**

# Rhagair gan ein Cadeirydd




Bu'n flwyddyn brysur iawn i'r Comisiwn Etholiadol yn ei waith i gefnogi rhanddeiliaid ym mhob rhan o'r DU. Hoffwn ddiolch i bob aelod o staff y Comisiwn am ei ymroddiad, ei broffesiynoldeb a'i arbenigedd wrth roi cyngor ac arweiniad annibynnol ac arbenigol i bleidleiswyr, gweinyddwyr a'r gymuned a reoleiddir.

Un ffocws penodol y flwyddyn hon fu paratoi ar gyfer roi Deddf Etholiadau'r DU ar waith, ochr yn ochr â'r agendâu etholiadol penodol yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Mae'r Comisiwn yn gweithio'n hyblyg fel uned gydlynol ar draws y ddaearyddiaeth, yr heriau a'r cyfleoedd hyn.

Rydym yn ymrwymedig i roi'r pleidleisiwr yn gyntaf. Gwyddom fod ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r system etholiadol yn hollbwysig er mwyn annog pleidleiswyr i gymryd rhan ac ennyn eu hyder. Rydym wedi buddsoddi er mwyn sicrhau y gall pobl ddeall yr hyn y mae'r newidiadau yn ei olygu iddyn nhw, a sut i gymryd rhan mewn etholiadau. Yn fwy cyffredinol, rydym wedi ceisio cefnogi pleidleiswyr sydd newydd gael yr etholfraint a phleidleiswyr ifanc i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, rydym wedi cefnogi gweinyddwyr etholiadol, sy'n gyfrifol am roi'r newidiadau ar waith ar lawr gwlad. Bwriedir i'r canllawiau eu helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau, yn erbyn y cefndir heriol o adnoddau cyfyngedig a chymhlethdod cyfreithiol. Mae eu gwaith a'u hymrwymiad wedi bod yn hollbwysig i sicrhau bod y newidiadau wedi'u rhoi ar waith yn dda. Mae'r rheini yn Lloegr a Gogledd Iwerddon sydd ag etholiadau ym mis Mai 2023 wedi bod yn arbennig o brysur, ond mae gweinyddwyr yng Nghymru a'r Alban hefyd wedi bod yn paratoi ar gyfer mesurau newydd mewn etholiadau yn y dyfodol.

Bu newidiadau hefyd i ymgyrchwyr ymgyfarwyddo â nhw. Rydym yn parhau i fuddsoddi yn y cymorth a'r cyngor rheoleiddio sydd ar gael i helpu pleidiau ac ymgyrchwyr i ddeall eu rhwymedigaethau cyfreithiol a'u bodloni, ac i sicrhau cydymffurfiaeth. Rwy'n falch iawn o weld lefel yr ymgysylltu gan bleidiau, ac ansawdd yr ymgysylltu hwnnw.

Rwyf wedi mwynhau'r cyfle i gyfarfod ag amrywiaeth eang o randdeiliaid a'r rheini sy'n ymwneud â systemau democrataidd a gwleidyddol ledled y DU. Yn ystod y flwyddyn, teithiodd Bwrdd y Comisiwn i Belfast a Chorley i gyfarfod â sefydliadau lleol, grwpiau ieuenctid, ymgeiswyr, cynghorwyr a gweinyddwyr. Mae ymweliadau tebyg eraill wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod, er mwyn ein helpu i glywed yn uniongyrchol gan randdeiliaid. Roeddem yn falch bod Mr Llefarydd wedi ymuno â ni yn ei etholaeth gartref i drafod ein hymgysylltiad adeiladol â Phwyllgor Mr Llefarydd, yr ydym yn atebol i Senedd y DU drwyddo.

Mae clywed amrywiaeth o leisiau a safbwyntiau yn hollbwysig i ddeall sut y gall y Comisiwn barhau i wella a bodloni gofynion yn y dyfodol. Mae'n mynd law yn llaw ag ymchwil barhaus ar foderneiddio etholiadau, a gyda'i gilydd, byddant yn ategu

argymhellion i lywodraethau'r DU ynglŷn â sut y gall y system etholiadol barhau i gefnogi pobl i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

Ym mis Hydref, cyhoeddodd Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Senedd y DU ei adroddiad ar ein gwaith. Gwnaethom groesawu ei ganfyddiadau ar yr angen brys i gydgrynhoi, diweddaru a gwella cyfraith etholiadol. Nododd yr adroddiad hefyd argymhellion i sicrhau bod y Comisiwn yn parhau i allu ymateb i'r heriau a wynebir gan y system etholiadol, a chydnabu fod annibyniaeth weithredol yn agwedd sylfaenol arni.

Wrth ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar ei Strategaeth a'i Ddatganiad Polisi arfaethedig ar gyfer y Comisiwn Etholiadol, gwnaethom rannu ein barn bod datganiad o'r fath – y gall y llywodraeth lywio ein gwaith drwyddo – yn anghyson â'n rôl. Nododd Pwyllgor y Llefarydd a'r Pwyllgor Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau bwysigrwydd cynnal annibyniaeth y Comisiwn a'r risgiau y mae datganiad o'r fath yn eu peri. Rydym yn aros am gam nesaf y broses hon, ond erys y Bwrdd yn gwbl ymrwymedig i wneud penderfyniadau annibynnol, gan weithredu yn unol ag anghenion a buddiannau'r gymuned etholiadol gyfan, gan gynnwys pleidleiswyr.

Yn olaf, hoffwn gydnabod ein bod eleni wedi bod yn ymateb i ymosodiad seiber gan weithredwr gelyniaethus. Mae hyn wedi bod yn her sylweddol ac mae gwersi pwysig sydd wedi'u dysgu wedi'u cymryd ymlaen. Rwy'n ymddiheuro i bawb y mae eu data personol wedi cael ei beryglu, gan gynnwys staff y Comisiwn.

Mae'r Comisiwn yn rhoi annibyniaeth a didueddrwydd wrth galon ei holl waith, a bydd y ffocws hwnnw'n parhau yn ein holl waith yn y flwyddyn i ddod.

**John Pullinger CB**
**Cadeirydd**

# Neges gan ein Prif Weithredwr



Mae'r Comisiwn, yn gywir ddigon, wedi gosod amcanion uchelgeisiol i'w hun yn ei Gynllun Corfforaethol, ac mae wedi bod yn gweithio'n gyflym i gyflawni'r nodau hynny.

Mae ein timau yng Nghymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi gweithio’n ddygn i ddarparu gwasanaethau effeithlon ac o ansawdd uchel i bawb rydym yn eu cefnogi.

Neilltuwyd cryn ymdrech ac arbenigedd i sicrhau y gellid cynnal etholiadau Mai 2023 mewn ffordd a oedd yn cynnal hyder pleidleiswyr. Roedd hyn yn her benodol y flwyddyn hon, wrth i newidiadau newydd a gyflwynwyd gan y Ddeddf Etholiadau ychwanegu at system a oedd eisoes yn gymhleth.

Ymgyrch y Comisiwn i godi ymwybyddiaeth o'r gofyniad newydd i ddangos ID pleidleisiwr oedd yr enghraifft fwyaf amlwg i'r cyhoedd o'r gwaith a wnaeth i sicrhau y gallai pawb gymryd rhan; roedd hon yn ymgyrch gwbl integredig a oedd yn cyfuno hysbysebion y talwyd amdanynt a gwaith partneriaeth â gwybodaeth i bleidleiswyr, y wasg a chyfryngau cymdeithasol.

Ond nid ID pleidleisiwr yw'r unig newid sy'n deillio o'r Ddeddf Etholiadau. Drwy'r flwyddyn, cynhaliodd y Comisiwn hefyd ymgynghoriadau ar Gof Ymarfer ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, cyflwyno argraffnodau digidol, a mesurau hygyrchedd newydd mewn gorsafoedd pleidleisio. Drwy ymgysylltu â phleidiau, ymgyrchwyr, gweinyddwyr etholiadol a phartneriaid, bu modd i ni wella defnyddioldeb ein canllawiau a gwella ein sylfaen dystiolaeth am y ffordd y caiff y gyfraith ei chymhwyso yn ymarferol.

Rydym yn parhau i fuddsoddi a chanolbwyntio ar y ffordd orau y gallwn gefnogi ein cymuned a reoleiddir er mwyn deall y gyfraith a chydymffurfio â hi. Mae'r cyfreithiau sy'n ymwneud â chyllid gwleidyddol yn chwarae rhan fawr wrth ddarparu tryloywder a chynnal hyder pleidleiswyr yn nhegwch y system. Mae ein cronfa ddata yn rhoi gwybodaeth am werth mwy na £1bn o roddion a gofnodwyd gan bleidiau ac ymgyrchwyr ers i'r Comisiwn gael ei sefydlu yn 2000. Mae hon yn garreg filltir nodedig, ac mae'n dangos lefel y wybodaeth rydym yn ei darparu i bawb ei gweld. Byddwn yn parhau i nodi meysydd lle y gellid diwygio system cyllid gwleidyddol y DU er mwyn ennyn mwy o hyder yn y system

Rydym hefyd yn ymrwymedig i gefnogi a hyrwyddo llais pleidleiswyr ifanc a darpar bleidleiswyr. Ym mis Ionawr, ymrwymodd mwy na 220 o ysgolion ledled y DU i gymryd rhan yn Wythnos Croeso i Dy Bleidlais. Mae'r wythnos hon yn ganolbwynt i'n gwaith dysgu, sydd â'r nod o hyrwyddo mwy o gysondeb mewn addysg llythrennedd gwleidyddol, a chynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth wleidyddol ymhlith pobl ifanc. Mae hwn yn faes gwaith pwysig ac sy'n tyfu, ac mae wedi bod yn wych ei weld yn mynd o nerth i nerth.

O fewn y Comisiwn rydym yn parhau i wneud newidiadau cadarnhaol. Mewn ymateb i ymosodiad seiber ar y sefydliad, gwnaed gwelliannau sylweddol i seilwaith digidol y sefydliad, sy'n cydnabod y risgiau posibl gan ymosodiadau seiber, ac yn helpu i amddiffyn ein systemau rhag digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol. Mae gwaith yn parhau i gyflwyno system newydd yn lle'r system ar-lein gyfredol ar gyfer cofrestru pleidiau gwleidyddol a

chofnodi gwybodaeth ariannol, a gresynwn na chafodd y prosiect ei gwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol hon fel y byddem wedi gobeithio.

Rydym wedi datblygu Strategaeth Pobl newydd ar gyfer 2022-25, sy'n nodi ein gwelliannau arfaethedig i wella systemau adnoddau dynol, dysgu a datblygiad, recriwtio, a rheoli perfformiad. Lansiwyd prosiect datblygu newydd y flwyddyn hon hefyd, sydd â'r nod o gryfhau sgiliau arwain personol ein pobl a gwella a chryfhau diwylliant cyffredinol y Comisiwn.

Braf oedd gweld y newidiadau cadarnhaol hyn dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r tîm gweithredol a minnau yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod y Comisiwn yn y sefyllfa orau posibl i wella ein perfformiad i'r eithaf a chefnogi ein pobl a'n rhanddeiliaid.

**Shaun McNally CBE**
**Y Prif Weithredwr**

# Adroddiad ar berfformiad



# Trosolwg

Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o'r Comisiwn Etholiadol, ein diben, ein perfformiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'r risgiau allweddol a allai beryglu ein gallu i gyflawni ein nodau.

Rydym wedi cynnwys gwybodaeth ariannol gryno yn yr adroddiad ar berfformiad. Mae'r wybodaeth hon yn gyson â'r datganiadau ariannol, lle mae rhagor o fanylion ar gael.

Cafodd y Comisiwn Etholiadol ei sefydlu gan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA). Rydym yn annibynnol ar y llywodraeth a phleidiau gwleidyddol ac yn uniongyrchol atebol i Senedd y DU, Senedd Cymru a Senedd yr Alban.

Rydym wedi paratoi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022/23 yn unol â chyfarwyddyd cyfrifon, a nodir ar dudalen 167, a gyhoeddir gan Drysorlys EF o dan baragraff 17 (2) o Atodlen 1 PPERA. Rydym wedi paratoi'r adroddiad ar bwerau a sancsiynau ar dudalen 53 yn unol â pharagraff 15 Atodlen 19(b) a pharagraff 27 Atodlen 19(c) PPERA.

## Ein rôl

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwylio etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y system etholiadol a sicrhau ei huniondeb.

# Ein hamcanion strategol




Ein gweledigaeth yw sicrhau bod pobl yn gwerthfawrogi ac yn ymddiried mewn etholiadau a refferenda, ac yn cymryd rhan ynddynt. Rydym yn anelu at gyflawni'r weledigaeth hon drwy gyflawni'r amcanion strategol a nodir yn ein Cynllun Corfforaethol 2022/23 – 2026/27, a gyflwynwyd gerbron Senedd y DU a Senedd yr Alban ym mis Ebrill 2022, ar yr un pryd ag y cyflwynwyd y Cynllun Corfforaethol cysylltiedig i Gymru gerbron y Senedd.

Yr amcanion strategol hyn yw'r sylfaen ar gyfer gwerthuso perfformiad y Comisiwn ar gyfer y flwyddyn.

# Ffactorau galluogi

Er mwyn sicrhau bod gennym ni fel sefydliad yr holl adnoddau i gyflawni'r amcanion hyn, rydym wedi nodi tri gweithgaredd galluogi allweddol.

### Rydym yn ymddwyn ag uniondeb ac yn annibynnol

Rydym yn parhau i ddangos ein hannibyniaeth a'n huniondeb drwy wneud penderfyniadau ar sail y dystiolaeth a bod yn dryloyw ynghylch y rhesymau dros wneud y penderfyniadau hynny, gan seilio ein safbwyntiau polisi a'n hargymhellion ar ddadansoddiad o'r dystiolaeth; cyfleu ein gwaith a'n barn yn effeithiol; darparu gwasanaethau ymatebol i'r rhai rydym yn eu cefnogi; a chynnal trefniadau llywodraethu effeithiol.

### Rydym yn sefydliad medrus sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth

Rydym yn rhoi arferion gwaith diwygiedig ar waith er mwyn adlewyrchu newidiadau ehangach yn ein hamgylchedd gwaith a'n diwylliant; denu, cadw a datblygu'r bobl sydd eu hangen arnom; cynnal a gwella safonau rheoli uchel, gyda phwyslais ar ddatblygu ein pobl; ac ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ymhellach ym mhob agwedd ar ein gwaith.

### Rydym yn sefydliad sy'n dysgu, sy'n gwella'n barhaus ac yn defnyddio adnoddau'n effeithiol

Rydym yn caffael technoleg sy'n cynnig gwerth am arian ac yn gwella'r gwasanaethau a ddarperir, ac yn ei rhoi ar waith, fel y bo'n briodol; yn cynnal strategaeth ariannol ddarbodus gadarn; yn parhau i ddatblygu technegau i ddysgu o brofiad, ceisio gwelliant parhaus a dod yn fwy effeithlon ac effeithiol; ac yn datblygu strategaeth amgylcheddol gorfforaethol sy'n bodloni gofynion deddfwriaethol a gofynion polisi.

## Ein rôl ledled y DU

Rydym yn cyflawni ar ran pleidleiswyr ym mhob rhan o'r DU ac mae gennym swyddfeydd yng **Nghaerdydd, Belfast, Caeredin a Llundain**. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban. Rydym yn atebol i Senedd y DU, Senedd Cymru a Senedd yr Alban, a chawn ein hariannu gan bob un o'r rhain am y gwaith a wneir ar etholiadau o dan eu pwerau datganoledig neu bwerau a gadwyd yn ôl. Nid yw cyfraith etholiadol wedi'i datganoli yng Ngogledd Iwerddon ac erys yn fater a gadwyd yn ôl i San Steffan.

Mae'r Comisiwn yn sefydliad ar gyfer y DU gyfan, ac mae'r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau yn unol â hynny. O ganlyniad i ddeddfwriaeth, dim ond ar y gwaith a wneir mewn perthynas â'n rôl a'u hatebolrwyddau i Senedd y DU y dylai'r Adroddiad Blwyddyn ganolbwyntio. Mae gwybodaeth ar wahân ar gael i Gymru a'r Alban am ein hatebolrwyddau i'r seneddau hynny.

# Cipolwg ar ein blwyddyn

## Ch1

- Cafodd Deddf Etholiadau Llyworaeth y DU Aseiniad Brenhinol
- Gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad ar ganfasiad a chofrestrau etholiadol 2021 ym Mhrydain Fawr
- Cafodd Shaun McNally ei benodi'n Brif Weithredwr
- Cynhaliwyd etholiadau mis Mai 2022
- Gwnaethom lansio ein hymgynghoriad ar safonau perfformiad newydd ar gyfer Swyddogion Canlyniadau

## Ch2

- Gwnaethom gyhoeddi datganiadau blynyddol o gyfrifon y pleidiau
- Cynhaliodd y Comisiwn gyfarfod o'r Bwrdd yn Belfast
- Lansiodd Llywodraeth y DU ei hymgynghoriad ar Ddatganiad Strategaeth a Pholisi ar gyfer y Comisiwn
- Gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiadau ar etholiadau mis Mai 2022 yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon
- Gwnaethom lansio ein hymgynghoriad ar ganllawiau diwygiedig ar hygyrchedd ar gyfer Swyddogion Canlyniadau

## Ch3

- Gwnaethom gyhoeddi canllawiau newydd ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar reoli'r broses ar gyfer ID pleidleiswr am ddim
- Cyflwynodd y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol adroddiad ar waith y Comisiwn Etholiadol
- Rhoesom dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ar y Datganiad Strategaeth a Pholisi drafft
- Gwnaethom gyhoeddi gwariant ar ymgyrchu ar gyfer etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon
- Gwnaethom lansio ein hymgynghoriad ar y Cod Ymarfer drafft ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau

## Ch4

- Gwnaethom lansio ein hymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o ID pleidleisiwr ar gyfer etholiadau mis Mai 2023
- Gwnaethom lansio ein hymgynghoriad ar y Polisi Gorfodi diwygiedig
- Gwnaethom gynnal wythnos Croeso i Dy Bleidlais gyda chyrff addysg a grwpiau ieuenctid
- Gwnaethom gyhoeddi canllawiau diwygiedig i Swyddogion Canlyniadau ar gyfer etholiadau mis Mai, gan gynnwys canllawiau ar ofynion hygyrchedd newydd
- Gwnaethom lansio ein hymgyrch cofrestru pleidleiswyr ar gyfer etholiadau mis Mai 2023

# Ein blwyddyn mewn ffigurau

| | | |
|---|---|---|
| **280,498** o bleidleiswyr wedi'u cofrestru (2021-22: 660,000) | **100%** o adroddiadau ar etholiadau wedi'u cyhoeddi mewn modd amserol (2021-22: 100%) | sgôr ymgysylltu â chyflogeion o **66%** **(**2021-22: 67%) |
| **11,829** o ymatebion i ymholiadau gan y cyhoedd (2021-22: 24,643) | **14,800** o ymatebion i ymholiadau drwy'r cyfryngau cymdeithasol (2021-22: 1,259) | **387** o adroddiadau ar roddion gan bleidiau wedi'u cyhoeddi (2021-22: 412) |
| **82%** o gofrestriadau pleidiau wedi'u prosesu o fewn y cyfnod targed (2021-22: 94%) | **91%** o ymchwiliadau wedi'u cau o fewn y cyfnod targed (2021-22: 68%) | **797** o ddatganiadau blynyddol o gyfrifon wedi'u cyhoeddi (2021-22: 724) |
| **100%** o'n canllawiau ar weinyddu etholiadol wedi'u cyhoeddi ar amser (2021-22: 100%) | **99%** o geisiadau am gyngor gan awdurdodau lleol wedi'u bodloni o fewn 3 diwrnod (2021-22: 99%) | **£16,000** o sancsiynau sifil wedi'u gosod fel rheoleiddiwr (2021-22: £58,000) |

# Dadansoddi perfformiad


Mae Cynllun Corfforaethol y Comisiwn yn nodi pum **amcan strategol** yr ydym yn gweithio i'w cyflawni dros gyfnod y cynllun pum mlynedd, wedi'u hategu gan dri **ffactor galluogi** allweddol. Mae'r adrannau sy'n dilyn yn nodi'r gwaith a wnaed yn 2022-23 i gyflawni pob amcan ac ategu pob ffactor galluogi, ynghyd â gwaith sy'n mynd rhagddo neu sydd wedi'i gynllunio yn ystod y flwyddyn i ddod.

Fel y dangosir yn yr adran hon, mae'r dangosyddion perfformiad allweddol yn dangos bod y Comisiwn yn cyflawni'r mwyafrif o'r targedau a'i fod ar y trywydd cywir i fodloni'r amcanion allweddol erbyn diwedd cyfnod y Cynllun Corfforaethol (Mawrth 2027).

Gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y Cynllun Corfforaethol, mae'r dangosyddion perfformiad yn dechrau o sylfaen newydd ac, o ganlyniad, nid oes mesuriadau cymaradwy ar gyfer blynyddoedd blaenorol.

Mae'r dangosyddion yn dangos ein bod wedi cyflawni ein nodau blynyddol mewn meysydd allweddol, gan gynnwys rhoi cyngor ac arweiniad amserol i'n rhanddeiliaid. Mae hyn wrth wraidd ein gwaith i gefnogi cydymffurfiaeth, helpu gweinyddwyr i gynnal etholiadau, a sicrhau bod pleidleiswyr yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gymryd rhan.

Ymhlith y meysydd lle mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau hynny mae cynyddu gweithgarwch cofrestru pleidleiswyr a chyhoeddi datganiadau o gyfrifon yn fwy amserol.



# **Amcan**
# Cofrestru a phleidleisio hygyrch

## Yr hyn rydym yn gweithio i'w gyflawni



Er mwyn cynnal etholiadau rhydd a theg, mae'n rhaid bod pawb sy'n gymwys i bleidleisio ac yn dymuno pleidleisio yn gallu gwneud hynny. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, rydym yn ceisio gwneud y canlynol:

- cynyddu nifer y bobl sy'n cofrestru i bleidleisio, yn enwedig ymhlith grwpiau sy'n ei chael hi'n anodd cymryd rhan yn y broses ar hyn o bryd
- dileu rhwystrau, yn enwedig y rhai sy'n effeithio ar bobl sy'n ei chael hi'n anodd bwrw eu pleidlais ar hyn o bryd.

Rydym yn gweithio i gyflawni'r canlyniadau hyn drwy gydweithio â llunwyr polisïau a phartneriaid eraill er mwyn nodi'r rhwystrau i gymryd rhan, a chynnig atebion. Rydym yn cynnig cymorth uniongyrchol i bobl sy'n ei chael hi'n anodd ymgysylltu â'r broses, drwy gynnig gwybodaeth ac adnoddau dysgu hygyrch sydd wedi'u teilwra, a gweithgarwch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd sydd wedi'i dargedu.

## Gwaith a wnaed i gyflawni'r nod hwn

✓ Dengys ein tystiolaeth ddiweddaraf bod bron rhwng 8 a 9 miliwn o bobl ym Mhrydain Fawr naill ai ar goll neu heb eu cofrestru'n gywir. Yn ogystal â hyrwyddo diwygio cofrestru, cyn yr etholiadau gwnaethom gynnal ymgyrch cofrestru pleidleiswyr i annog y cyhoedd i sicrhau eu bod wedi'u cofrestru'n gywir cyn y dyddiad cau. Cafodd hyn ei gefnogi gan ein hymgyrch 'Dy Bleidlais Di a Neb Arall', sy'n codi ymwybyddiaeth am dwyll etholiadol a sut y gall pleidleiswyr ddiogelu eu pleidlais.

✓ Mae cynllunio mesurau a'u rhoi ar waith yn y Ddeddf Etholiadau wedi bod yn flaenoriaeth i'r Comisiwn. Mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys mesurau sy'n effeithio ar bleidleiswyr yn uniongyrchol, y daeth rhai ohonynt i rym yn yr etholiadau lleol a gynhaliwyd mewn rhannau o Loegr yn 2023. Mae sicrhau bod pleidleiswyr yn ymwybodol o'r newidiadau yn hanfodol i ennyn eu hyder yn ein system etholiadol a'u hannog i gymryd rhan ynddi.

> *Roeddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyfrannu at y canllawiau ar ID Pleidleisiwr yn fawr, er mwyn sicrhau bod y newidiadau hyn yn cael eu gwneud mewn ffordd mor hygyrch â phosibl i bobl anabl.*
>
> **Elusen United Response**

- ✓ Gwnaethom baratoi ar gyfer y gofyniad ID pleidleisiwr. Ym mis Ionawr, lansiodd y Comisiwn ymgyrch eang i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gofyniad, a'u hatgoffa i ddod ag ID gyda nhw wrth bleidleisio. Drwy ein gwaith, gwnaethom helpu pleidleiswyr i ddeall pa fathau o ID y gellir eu defnyddio a chefnogi'r rheini heb fath derbyniol o ID i ddeall sut a phryd i wneud cais am ID am ddim.
- ✓ Gwnaethom weithio gyda chynghorau lleol a sefydliadau cymdeithas sifil i gefnogi'r rhai sy'n llai tebygol o feddu ar fath derbyniol o ID, fel eu bod yn ymwybodol o'r ID am ddim ac y gwneud cais amdano mewn pryd.
- ✓ Cynhaliodd y Comisiwn ymgynghoriad trylwyr ar y mesurau hygyrchedd newydd cyn drafftio ei ganllawiau, gan weithio'n agos gydag elusennau a sefydliadau sy'n cynrychioli pleidleiswyr anabl. Gwnaethom hefyd rannu manylion â phleidleiswyr anabl am y rheolau hygyrchedd newydd, sy'n cynyddu'r amrywiaeth o gymorth sydd ar gael iddynt yn yr orsaf bleidleisio.
- ✓ O fewn cwmpas ein rôl, gwnaethom barhau i weithio gydag awdurdodau lleol, yr heddlu a seneddwyr i ddiogelu'r system rhag twyll etholiadol. Roedd hyn yn cynnwys cynnal, ar y cyd â Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, y gynhadledd flynyddol ar gyfer Pwyntiau Cyswllt Unigol sy'n arwain ar dwyll yn yr heddluoedd, ac ymgysylltu â'r Arglwydd Hayward ar gyfrinachedd y bleidlais ar gyfer y Bil Aelodau Preifat.
- ✓ Drwy'r ymgyrchoedd hyn a chyfathrebu â phleidleiswyr, mewn perthynas â'r Rhif Cofrestru Digidol, gwnaethom helpu i gynnal yr etholiadau lleol yng Ngogledd Iwerddon yn llwyddiannus.
- ✓ Nod ein gwaith dysgu yw hyrwyddo mwy o gysondeb mewn addysg llythrennedd gwleidyddol, a chynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth wleidyddol ymhlith pobl ifanc. Ymrwymodd mwy na 220 o ysgolion i gymryd rhan yn Wythnos Croeso i Dy Bleidlais ym mis Ionawr.

“

*Prin yw'r tasgau sy'n bwysicach mewn bywyd cyhoeddus na chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd ym Mhrydain yn ein sefydliadau etholiadol a'n prosesau etholiadol.*

*Mae llawer iawn o waith yn mynd rhagddo, a bydd hynny'n parhau tan fis Mai.*

*Rwy'n ddiolchgar i swyddogion, y Comisiwn Etholiadol ac i gynghorau ledled y DU am y gwaith y maent yn ei wneud.*

**Lee Rowley, Gweinidog y DU sy'n gyfrifol am etholiadau, Chwefror 2023**

## Dangosyddion perfformiad

| Dangosydd | Targed | 2022-23 |
|---|---|---|
| Mae ychwanegiadau at gofrestrau etholiadol yn ystod ein hymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth yn cyflawni ein targedau neu'n rhagori arnynt | **379,810**<br>Ar gyfer 2022/2023 | **280,498*** |

Ni lwyddwyd i gyflawni'r targed ar gyfer cofrestru pleidleiswyr y flwyddyn hon. Mae nifer o ffactorau a allai fod wedi cael effaith negyddol ar y DPA hwn, y mae rhai ohonynt yn ffactorau allanol a rhai yn ymwneud â'r ymgyrch ei hun, gan gynnwys y broses o bennu. Yn benodol, bu lleihad mewn gwariant ar yr ymgyrch cyn yr etholiadau hyn ac yn ystod y cyfnod codi ymwybyddiaeth cynnar. Ers yr etholiadau, rydym wedi adolygu'r holl ddata er mwyn sicrhau effeithlonrwydd parhaus ein hysbysebion, a'n prosesau pennu targedau, er mwyn ystyried y wybodaeth hon wrth gynllunio ymgyrchoedd yn y dyfodol.

## Gwaith parhaus ac yn y dyfodol

- Byddwn yn gwerthuso ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth Mai 2023 ar gyfer ID pleidleisiwr a chofrestru, er mwyn nodi gwersi a ddysgwyd a chyfleoedd i wella. Byddwn yn diwygio ein dull creadigol o gynnal ein hymgyrch cofrestru pleidleiswyr mewn pryd ar gyfer etholiadau Mai 2024.

- Gyda chymorth partneriaid cymdeithas sifil, byddwn yn gwerthuso'r wybodaeth wedi'i theilwra y gwnaethom ei llunio ar y cyd ar gyfer pob grŵp allweddol y mae'r gofynion ID pleidleisiwr newydd yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt. Bydd hyn yn cynnwys mireinio adnoddau i'w gwneud yn addas ar gyfer blynyddoedd i ddod a nodi unrhyw fylchau yn ein darpariaeth.

- Yn ystod yr hydref, byddwn yn cyhoeddi adroddiadau ar etholiadau ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon, gan fyfyrio ar y ffordd y cafodd etholiadau Mai 2023 eu cynnal ac argymell newidiadau lle bo angen. Bydd hyn yn cynnwys asesiad o'r broses o roi'r darpariaethau newydd o ran ID pleidleisiwr a hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio ar waith.

- Byddwn yn gweithio i baratoi pleidleiswyr, gweinyddwyr a'r gymuned etholiadol ehangach ar gyfer newidiadau pellach sy'n deillio o'r Ddeddf Etholiadau, gan gynnwys diweddaru canllawiau i'r

“

*Nid yw'r system gofrestru gyfredol yn gweithio'n dda i bleidleiswyr na gweinyddwyr. Er mwyn sicrhau y gall pob pleidleisiwr cymwys ddweud ei ddweud mewn etholiadau, mae angen diwygio'r system gofrestru.*

**Tystiolaeth ysgrifenedig y Comisiwn Etholiadol i'r Pwyllgor Dethol Ffyniant Bro**

rheini sy'n gyfrifol am roi'r newidiadau ar waith. Bydd hyn yn cynnwys ymestyn yr etholfraint drwy wneud newidiadau i reolau pleidleiswyr tramor.

- Byddwn yn treialu cynnwys gwybodaeth am hygyrchedd fel rhan o'r wybodaeth rydym yn ei darparu am etholiadau ar-lein, gan gynnwys ein hadnodd ar-lein i ddod o hyd i orsaf bleidleisio. Bydd hyn yn lleihau'r pwysau ar gynghorau lleol ymhellach. Os bydd hyn yn llwyddiannus, byddwn yn ei gyflwyno ledled y DU. Byddwn yn parhau â'n gwaith ar 'lais ieuenctid' ac yn ei ymestyn, gan adeiladu ar ein gweithgarwch presennol yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban er mwyn sicrhau bod ein gwaith ar gofrestru a phleidleisio yn adlewyrchu anghenion a safbwyntiau pobl ifanc.

- Byddwn yn parhau i gynnal cynlluniau wrth gefn ar gyfer digwyddiadau etholiadol annisgwyl, gan gynnwys etholiad cyffredinol Senedd y DU ac etholiad Cynlluniad Gogledd Iwerddon.

- Byddwn yn cadarnhau datblygiad astudiaethau dichonoldeb ar amrywiaeth o opsiynau pleidleisio hyblyg, gan esbonio sut y gellid rhoi ffyrdd newydd o bleidleisio ar waith.

- Rydym yn disgwyl ymddangos gerbron y Pwyllgor Ffyniant Bro er mwyn ymhelaethu ar ein tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer ei ymchwiliad i'r system cofrestru pleidleiswyr, a byddwn yn amlinellu ein cynigion ar gyfer diwygio'r system honno.

# Amcan

# Ymgyrchu gwleidyddol tryloyw a chyllid gwleidyddol sy'n cydymffurfio â'r rheolau

## Yr hyn rydym yn gweithio i'w gyflawni

Rhan hanfodol o'r broses ddemocrataidd yw sicrhau bod ymgyrchwyr yn gallu cyfleu eu negeseuon i bleidleiswyr. Rhaid i ymgyrchwyr, gan gynnwys pleidiau, allu cyfathrebu â'r pleidleiswyr i esbonio eu safbwyntiau a'u polisïau, fel bod gan bleidleiswyr y wybodaeth angenrheidiol pan fyddant yn pleidleisio. Mae'n bwysig bod pleidleiswyr yn clywed gan amrywiaeth eang o ymgyrchwyr.

Rhaid i ymgyrchwyr allu ymgyrchu heb wynebu rhwystrau gwirioneddol na chanfyddedig diangen, wrth i ni barhau i sicrhau bod cyllid gwleidyddol yn dryloyw. Rydym yn gweithio i wella tryloywder ymgyrchu gwleidyddol, ac i helpu pleidiau ac ymgyrchwyr i gydymffurfio â'r gyfraith, drwy wneud y canlynol:



- sicrhau y gall ymgyrchwyr gael gafael ar gymorth i ddeall y gyfraith yn y ffordd ac ar yr adeg sy'n gweithio orau iddynt
- sicrhau y caiff cyfreithiau cyllid gwleidyddol eu gorfodi'n deg, gan weithio gyda gwasanaethau cyhoeddus a rheoleiddwyr eraill i gefnogi eu gwaith mewn meysydd y tu hwnt i'n cylch gorchwyl cyfreithiol
- cyhoeddi data cyllid gwleidyddol cyflawn a chywir
- helpu ymgyrchwyr a seneddau i ddeall y ffordd y mae dulliau ymgyrchu'n effeithio'n uniongyrchol ar hyder pleidleiswyr mewn etholiadau.

## Gwaith a wnaed i gyflawni'r nod hwn

✓ Cyn etholiadau Mai 2022, cynhaliodd y Comisiynydd ei ymgyrch tryloywder digidol, gan annog pleidleiswyr i feddwl yn feirniadol am y wybodaeth ymgyrchu y maent yn ei gweld.

✓ Canfu ein harolygiadau ymgeiswyr a gynhaliwyd yn dilyn etholiadau Mai 2022 fod mwy na 40% o ymgeiswyr ledled y DU wedi cael eu bygylu neu eu cam-drin yn ystod yr ymgyrch. O ganlyniad, mae'r Comisiwn wedi cymryd camau i gynnull rhanddeiliaid perthnasol er mwyn trafod ffyrdd o wella eu profiad, yn ogystal â rhoi arweiniad a chyngor i ymgeiswyr ar sut i ddiogelu eu hunain.

- ✓ O ganlyniad i'r Ddeddf Etholiadau, gwnaethom ddiweddaru ein canllawiau i adlewyrchu cyfreithiau cyllid gwleidyddol newydd ar gyfer pleidiau ac ymgyrchwyr er mwyn eu helpu i gydymffurfio â nhw. Gwnaethom weithio gydag ymgyrchwyr i lunio cod ymarfer newydd ar gyfer gwariant ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau. Gwnaethom ymgynghori ar y cod a'i gyflwyno i Weinidogion yn unol â'r gyfraith. Gwnaethom hefyd ymgynghori ar ganllawiau ar yr argraffnodau digidol newydd i gefnogi newidiadau i'r gyfraith yn y maes hwn.
- ✓ Gwnaethom gynnal gweminarau ar gyfer pleidiau, ymgeiswyr, asiantiaid ac eraill yn etholiadau Mai 2022 er mwyn esbonio'r gyfraith, a gwnaethom yr un peth eto ar gyfer etholiadau mis Mai 2023. Gwnaethom gynnal cyngorfeydd rhithwir a oedd yn galluogi ymgeiswyr ac asiantiaid i drafod materion penodol yn ymwneud â gwariant a chyfreithiau rhoi ag un o'n cynghorwyr arbenigol. Gwnaethom hefyd gynnig cyngorfeydd rhithwir pellach cyn y terfyn amser ar gyfer adrodd, er mwyn rhoi cymorth ymarferol a pharhaus mewn perthynas â ffurflenni gwariant.
- ✓ Rhoesom gyngor a chanllawiau wedi'u targedu i'r amrywiaeth lawn o bleidiau ac ymgyrchwyr. Gwnaethom wella hygyrchedd a defnyddioldeb ein canllawiau drwy gynyddu gweithgarwch ymgynghori â phleidiau ac ymgyrchwyr wrth eu llunio. Drwy hyn, gwnaethom wella ein sylfaen dystiolaeth o ran y ffordd y caiff y gyfraith ei chymhwyso yn ymarferol, er mwyn llywio adnoddau ar gydymffurfiaeth yn y dyfodol.

“

*Yn llawn gwybodaeth ac yn hawdd cydweithio ag ef. Yn ddiddorol iawn â gwybodaeth gyffredinol.*

**Aelod o Senedd y DU wrth sôn am ei gyswllt â'r Comisiwn**

- ✓ Gwnaethom gryfhau ein gwasanaeth cynghori ar gyfreithiau cyllid gwleidyddol drwy recriwtio cynghorwyr ychwanegol.
- ✓ Gwnaethom lansio menter newydd sy'n rhoi cymorth wedi'i dargedu i bleidiau sydd newydd eu cofrestru, sy'n debygol o fod yn llai cyfarwydd â'r gyfraith a'u rhwymedigaethau a'u cyfrifoldebau.
- ✓ Er mwyn sicrhau bod ein Polisi Gorfodi mor glir â phosibl, aethom ati i wneud newidiadau iddo ac i ymgynghori â phleidiau ac ymgyrchwyr. Mae'r Polisi yn nodi sut rydym yn ymdrin ag ymchwiliadau rheoleiddio a sancsiynau.
- ✓ Canfu ein harolwg olrhain blynyddol o farn y cyhoedd fod hyder yn nhryloywder cyllid gwleidyddol yn dirywio. Rydym yn parhau i argymell ffyrdd o wella rheolaethau ar y system er mwyn gwella hyder, gan gynnwys drwy ymgysylltu â'r Llywodraeth a seneddwyr, a thrwy'r cyfryngau cenedlaethol.

## Dangosyddion perfformiad

| Dangosydd | Targed | 2022-23 |
|---|---|---|
| Cyhoeddi adroddiadau ar roddion a benthyciadau a gafwyd erbyn y terfyn amser statudol | **100%** | **100%** |
| Cyhoeddi datganiadau o gyfrifon o fewn 60 diwrnod gwaith | **100%** | **5.02%*** |
| Datblygu ymchwiliadau a dod i gasgliad yn eu cylch mewn modd amserol | **90%** | **91.18%** |
| Cyhoeddi hysbysiadau / cyhoeddi penderfyniadau ar sancsiynau (hysbysiadau terfynol) yn dilyn y cyfnod cyflwyno sylwadau | **90%** | **100%** |
| Cyhoeddi canlyniadau ceisiadau i gofrestru pleidiau ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau mewn modd amserol (ar gyfer manylion newydd a newid manylion) | **90%** | **81.91%** |
| Ymateb yn amserol i geisiadau am gyngor rheoleiddiol ar adrodd ariannol | **90%** | **99.17%** |
| Darparu cynhyrchion/adnoddau canllawiau rheoleiddio i gefnogi cydymffurfiaeth â'r gyfraith | **N/A** | **59** |
| Ymholiadau sy'n gysylltiedig â chynhyrchion canllawiau sy'n helpu i nodi meysydd presennol a/neu newydd i'r canllawiau sy'n rhoi eglurder ychwanegol ynghylch y gyfraith | **100%** | **100%** |

Pennir terfynau amser gwahanol ar gyfer cyflwyno datganiadau blynyddol o gyfrifon i'r Comisiwn ar gyfer pleidiau sydd ag incwm a gwariant islaw £250,000 a'r rhai sydd ag incwm a gwariant uwchlaw £250,000. Yn sgil y cyfyngiadau ar adnoddau mewnol, penderfynwyd yn 2022 y dylid cyfuno'r broses o gyhoeddi'r ddwy gyfran. Roedd hyn yn golygu oedi cyn cyhoeddi nifer mawr o ddatganiadau tan ar ôl y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar gyfer y pleidiau mwy. Cyhoeddwyd 100% o ddatganiadau ar y dyddiad cyhoeddi y cytunwyd arno.

## Gwaith parhaus ac yn y dyfodol

- Yn dilyn ymgynghoriad, daw Polisi Gorfodi diwygiedig y Comisiwn i rym ar ôl etholiadau Mai 2023 a bydd yn parhau i gael ei ddefnyddio fel sail i'r penderfyniadau a wnawn ynghylch gorfodi.
- Byddwn yn monitro newidiadau sy'n deillio o'r mesurau ar gyfer pleidiau ac ymgyrchwyr yn y Ddeddf Etholiadau a roddwyd ar waith yn ystod 2022-23 ac, yn unol â phroses seneddol, yn cyhoeddi cod ymarfer ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau a chanllawiau ar yr argraffnod digidol newydd er mwyn helpu ein cymuned a reoleiddir i ddeall y newidiadau.
- Bydd y Comisiwn yn parhau i fonitro bygythiadau a risgiau gwleidyddol i'r system etholiadol, gan gynnwys uniondeb y cyfreithiau cyllid gwleidyddol. Byddwn yn parhau i eirioli dros welliannau i reolaethau ar roddion i bleidiau gwleidyddol er mwyn atal bygythiad ymyrraeth o dramor, ac yn monitro deddfwriaeth berthnasol, fel effeithiau posibl y Bil Diogelwch Cenedlaethol.
- Mewn ymateb i adborth, rydym yn treialu pwyntiau cyswllt dynodedig ar gyfer pleidiau mwy, neu'r rheini sydd am gysylltu â ni'n aml i gael cyngor er mwyn helpu i gefnogi cydymffurfiaeth ymhellach.
- Byddwn yn parhau i fonitro themâu ymholiadau a gafwyd er mwyn llywio a llunio ein canllawiau rheoleiddio, gan wella ein sylfaen dystiolaeth o ran sut y caiff y gyfraith ei chymhwyso yn ymarferol a helpu i sicrhau bod ein canllawiau mor glir a defnyddiol â phosibl.

“

*Wedi cael sgyrsiau o ansawdd da am reoleiddio a'r pwysau sy'n wynebu pleidiau gwleidyddol.*

**Aelod o Senedd y DU wrth sôn am ei gyswllt â'r Comisiwn**

- Ar y cyd â'r heddlu, byddwn yn cymryd camau cymesur i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfundrefn argraffnodau digidol pan gaiff ei chyflwyno. Bydd y Comisiwn hefyd yn parhau i weithio gyda heddluoedd ledled y DU i fynd i'r afael ag achosion o fygylu ac aflonyddu ymgeiswyr.

# **Amcan**
# Gwasanaethau etholiadol lleol cadarn

## Yr hyn rydym yn gweithio i'w gyflawni

Mae gwasanaethau etholiadol lleol yn wynebu heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sylweddol y mae perygl y byddant yn effeithio ar eu gallu i gynnal etholiadau a refferenda effeithiol. Rydym yn gweithio i helpu awdurdodau lleol a gweinyddwyr etholiadol i ymateb i'r pwysau hyn.

Rydym hefyd yn gweithio i helpu i ddarparu gwasanaethau cyson o ansawdd uchel i bleidleiswyr, ac i ddatblygu gwasanaethau etholiadol lleol cadarn drwy wneud y canlynol:



- pennu safonau perfformiad ar gyfer gwasanaethau etholiadol lleol
- darparu canllawiau a chymorth hygyrch i weinyddwyr etholiadol
- helpu gwasanaethau etholiadol lleol i fod yn fwy cadarn
- sicrhau bod y system etholiadol yn gweithio'n effeithiol.

## Gwaith a wnaed i gyflawni'r nod hwn

✓ Erys capasiti a chadernid gweinyddwyr etholiadol yn her sylweddol. Canfu ein hadroddiadau ar etholiadau Mai 2022 fod gweinyddwyr wedi ei chael hi'n anodd recriwtio staff a dod o hyd i leoliadau addas ar gyfer gorsafoedd pleidleisio a'r broses gyfrif. Galwodd y Comisiwn am eglurder digonol ynghylch cyllid i baratoi'n effeithiol ar gyfer y newidiadau sy'n deillio o'r Ddeddf Etholiadau.

“

*Roedd gennym nifer sylweddol o staff nad oeddent yn ymgymryd â'u swyddi eto ac mae'n ymddangos bod hyn yn broblem gynyddol. Roeddem yn ffodus nad oedd gan ein hawdurdod cyfagos etholiadau a’u bod wedi benthyg nifer o staff i ni. Pe byddent hefyd wedi cael etholiadau, byddem wedi cael trafferth llenwi swyddi gwag*

**Gweinyddwr etholiadol yn dilyn etholiadau Mai 2022**

- ✓ Mae'r broses o roi'r Ddeddf Etholiadau ar waith yn cael effaith sylweddol ar weinyddwyr etholiadol, ac rydym wedi parhau i'w helpu i ddeall y newidiadau hyn a pharatoi ar eu cyfer. Mae hyn wedi cynnwys datblygu canllawiau ac adnoddau i gefnogi'r broses o roi'r darpariaethau newydd ar waith, yn ogystal â pharhau i ddarparu gwasanaeth cynghori i awdurdodau lleol, drwy ein timau rhanbarthol datganoledig a'r rhai yn Lloegr.

- ✓ Fel bob amser, gwnaethom lunio canllawiau cynhwysfawr ar baratoi ar gyfer etholiadau Mai 2023 a'u cynnal, gyda'r nod o gefnogi Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol. Datblygwyd adnoddau hefyd i helpu awdurdodau lleol i gyfleu'r gofynion ID pleidleisiwr newydd i'w preswylwyr. Mae hyn yn rhan bwysig o'n hamcan i helpu awdurdodau lleol a gweinyddwyr etholiadol i ddarparu gwasanaeth effeithiol, cynaliadwy a chadarn.

- ✓ Gwnaethom ymgynghori ar safonau perfformiad newydd ar gyfer Swyddogion Canlyniadau, sydd â'r nod o gynnig fframwaith cadarn ar gyfer cynnal etholiadau trefnus, helpu i roi newidiadau deddfwriaethol ar waith mewn modd effeithiol a chyson, a galluogi prosesau adrodd tryloyw am y ffordd y caiff etholiadau eu cynnal. Mae'r safonau hefyd yn mynd i'r afael â'r newidiadau sy'n deillio o'r Ddeddf Etholiadau. Cawsant eu cadarnhau a'u cyflwyno gerbron y seneddau ym mis Rhagfyr 2022, ac maent bellach ar waith.

- ✓ Rydym hefyd wedi diweddaru'r fframwaith ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a adolygwyd ddiwethaf yn 2021, i adlewyrchu cyfrifoldebau newydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol sy'n deillio o'r Ddeddf Etholiadau.

## Dangosyddion perfformiad

| Dangosydd | Target | 2022-23 |
|---|---|---|
| Cyngor cywir i Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol ac ymgeiswyr ac asiantiaid o fewn tri diwrnod (Prydain Fawr) | **100%** | **99.35%** |
| Cyhoeddi cynhyrchion canllawiau cywir ac amserol ar gyfer gweinyddwyr etholiadol | **100%** | **100%** |

## Gwaith parhaus ac yn y dyfodol

- Fel rhan o'n prosesau adrodd ar ôl etholiadau, byddwn yn casglu data gan awdurdodau lleol ac yn arolygu'r rheini sy'n gyfrifol am gynnal etholiadau er mwyn deall effaith y mesurau newydd, gan gynnwys eu barn am y broses o roi'r gofyniad ID pleidleisiwr ar waith.

- Byddwn yn ceisio adborth i'n galluogi i werthuso ein canllawiau newydd i Swyddogion Canlyniadau ac i nodi unrhyw wersi sy'n dod i'r amlwg a'u hystyried.

- Byddwn yn diweddaru ein canllawiau i adlewyrchu newidiadau pellach i etholiadau a phrosesau cofrestru etholiadol, gan gynnwys diwygiadau i reolau pleidleisio drwy'r post, pleidleisio drwy ddirprwy a phleidleisio o dramor, sy'n deillio o'r Ddeddf Etholiadau.

"

*Credwn fod gwaith statudol y Comisiwn Etholiadol o ran sut y dylid cynnal etholiadau yn effeithiol iawn.*

*Mae'n darparu canllawiau ardderchog, adnoddau ategol ac arferion da ar gyfer Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol.*

**Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, Hydref 2022**

- Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r safonau perfformiad i helpu i ddarparu gwasanaethau etholiadol cyson o ansawdd uchel i bleidleiswyr, ac i gefnogi cadernid parhaus gwasanaethau etholiadol lleol.

- Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Bwrdd Cynghori ar Gydlynu Etholiadol er mwyn mynd i'r afael â heriau yn ymwneud â chadernid a chapasiti, gan gynnwys mewn perthynas â lefelau staffio gorsafoedd pleidleisio a chyflenwyr.

# Amcan
# Cyfraith etholiadol deg ac effeithiol

## Yr hyn rydym yn gweithio i'w gyflawni

Caiff ein system etholiadol ei hategu gan fframwaith cyfreithiol sy'n pennu sut y caiff etholiadau eu cynnal. Mae'n nodi pwy gaiff bleidleisio a'r amryw ffyrdd y gallant fwrw eu pleidlais. Mae'n nodi pwy gaiff sefyll etholiad, pwy gaiff ymgyrchu, a faint y gallant ei wario; ac mae'n nodi sut y dylai gweinyddwyr etholiadol gynnal etholiadau, gan gynnwys cyfrif a datgan y canlyniadau.

O ystyried ei effaith drawsbleidiol, rydym am weithio gyda seneddwyr a llywodraethau i wella cyfraith etholiadol fel ei bod yn addas at y diben, yn lleihau cymhlethdod, aneffeithlonrwydd a risg, ac yn hwyluso arloesedd. Byddwn yn gweithio gydag eraill i ddiwygio cyfraith etholiadol drwy wneud y canlynol:



- cefnogi proses effeithiol o ystyried deddfwriaeth a'i rhoi ar waith yn seneddau'r DU
- ymgysylltu ag agendâu diwygio cyfraith etholiadol cyfredol llywodraethau, gan barhau i gyflwyno achos dros ddiwygio pellach
- parhau i roi cyngor arbenigol ar ymarferoldeb ac effaith unrhyw newidiadau y gellid eu gwneud i wella'r system etholiadol.

## Gwaith a wnaed i gyflawni'r nod hwn

✓ Yn dilyn etholiadau Mai 2022, gwnaethom gyhoeddi adroddiadau ar etholiadau yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, gan adlewyrchu data a thystiolaeth a gasglwyd ynghylch pleidleisio, ymgyrchu a chynnal yr etholiadau. Roedd y rhain yn cynnwys argymhellion i wella'r system ymhellach.

✓ Wrth i'r Bil Etholiadau fynd drwy Senedd y DU, gwnaethom friffio aelodau Tŷ'r Cyffredin a'r Arglwyddi er mwyn eu helpu i ystyried y mesurau.

✓ Gwnaethom ymateb yn brydlon i ohebiaeth gan swyddogion etholedig, gan roi gwybodaeth gywir a diduedd.

✓ Rydym yn parhau i eirioli dros newidiadau polisi mewn meysydd allweddol – gan gynnwys moderneiddio cyfraith etholiadol a diogelu gwleidyddiaeth rhag ymyrraeth o dramor – wrth i ni ymgysylltu â rhanddeiliaid, seneddwyr a'r cyfryngau.

## Dangosyddion perfformiad

| Dangosydd | Targed | 2022-23 |
|---|---|---|
| Cyhoeddi adroddiadau amserol ar etholiadau/refferenda | **100%** | **100%** |
| Ymatebion amserol i gynigion polisi ac ymgynghoriadau deddfwriaethol | **100%** | **100%** |
| Ymateb i ohebiaeth gan randdeiliaid etholedig (Aelod o'r Senedd, Aelod Seneddol, Aelod o Senedd yr Alban ac Aelod o'r Cynulliad Deddfwriaethol) o fewn 10 diwrnod gwaith | **100%** | **97.83%** |

## Gwaith parhaus ac yn y dyfodol

- Bydd y Comisiwn yn rhannu ei arbenigedd a'i dystiolaeth â Llywodraeth y DU wrth iddi ddatblygu offerynnau statudol i ddarparu'r manylion o ran sut y bydd y mesurau sy'n weddill yn y Ddeddf Etholiadau yn gweithio.
- Rydym yn dal i fod o'r farn y dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn glir o leiaf chwe mis cyn y disgwylir i unrhyw newidiadau gael eu rhoi ar waith, er mwyn rhoi digon o amser i Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a gweinyddwyr etholiadol baratoi ar eu cyfer.
- Byddwn yn parhau i argymell diwygiadau i gyfraith etholiadol y DU ac yn barod i gefnogi llywodraethau a seneddau i ystyried y ffordd orau o fynd ar drywydd hyn.
- Bydd y Comisiwn yn parhau i eirioli dros foderneiddio cyfraith etholiadol, y mae angen ei symleiddio er mwyn helpu gweinyddwyr etholiadol i ddarparu'r lefel o wasanaeth y mae pleidleiswyr yn ei haeddu, a galluogi llywodraethau a deddfwrfeydd i gyflawni eu blaenoriaethau polisi.

“

*Mae ugain mlynedd ers i'r Comisiwn Etholiadol gael ei sefydlu, a chredwn ei fod yn dal i chwarae rôl sylfaenol wrth oruchwylio etholiadau a refferenda rhydd a theg a rheoleiddio cyllid gwleidyddol, ac y dylai barhau i wneud hynny. Fodd bynnag, mae cymhlethdod diangen y gyfraith sy'n llywodraethu'r maes hwn yn cael effaith uniongyrchol ar ei allu i gyflawni ei swyddogaethau statudol yn effeithiol.* Ceir consensws bod angen i'r gyfraith gael ei rhesymoli a'i symleiddio ar frys.

**Adroddiad y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol, Hydref 2022**

# **Amcan**
# System etholiadol fodern a chynaliadwy

## Yr hyn rydym yn gweithio i'w gyflawni

Mae angen i ni sicrhau bod ein system etholiadol yn dilyn datblygiadau digidol. Mae angen i ni fanteisio ar y cyfleoedd i sicrhau mwy o gydymffurfiaeth, tryloywder a'r arbedion ariannol y mae technoleg yn eu cynnig, gan weithio i gynnal hyder pleidleiswyr yn y system etholiadol. Mae angen i ni hefyd foderneiddio'r system etholiadol er mwyn sicrhau ei bod yn gynaliadwy yn amgylcheddol. Rydym yn gweithio tuag at gyflawni system etholiadol fodern a chynaliadwy drwy wneud y canlynol:



- manteisio ar ddata a thechnoleg i ddiwallu anghenion pleidleiswyr, ymgyrchwyr a gweinyddwyr etholiadol
- deall y risgiau newidiol i'r system etholiadol sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio data a thechnoleg, galw am weithredu arnynt, a gweithredu arnynt ein hunain
- parhau i feithrin cydberthnasau cadarn a symleiddio arferion gwaith gyda phob corff sy'n rhan o'r system etholiadol
- cefnogi llywodraethau a'r gymuned etholiadol ehangach i fabwysiadu strategaeth a chynllun gweithredu sy'n cyrraedd y safonau amgylcheddol sy'n ofynnol gan ein system etholiadol.

## Gwaith a wnaed i gyflawni'r nod hwn

✓ Cyflwynodd y Comisiwn dystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad y Pwyllgor Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau i systemau cofrestru etholiadol, gan gynnwys sut y gellid defnyddio data cyhoeddus yn fwy effeithiol i wella cywirdeb a chyflawnrwydd cofrestrau etholiadol.

✓ Yn ogystal â rhoi cyngor arbenigol a chynnig argymhellion i wella'r system gyfredol, rydym yn parhau i archwilio dichonoldeb y broses bleidleisio a chofrestru.

✓ Byddwn yn cynnal ymchwil ar gywirdeb a chyflawnrwydd cofrestrau etholiadol er mwyn diweddaru ein sylfaen dystiolaeth ar gyflwr y cofrestrau, sut mae'r system gyfredol yn gweithio yn ymarferol a sut y gellid ei gwella.

## Dangosyddion perfformiad

| Dangosydd | Targed | 2022-23 |
|---|---|---|
| Bodloni gofynion deddfwriaeth amgylchedd gyfredol ac sy'n datblygu neu newydd | Dd/G – Caiff hyn ei ddatblygu pan gyhoeddir targed Llywodraeth y DU | Dd/G |

Bwriedir i'r dangosydd hwn helpu'r Comisiwn i fesur ei effaith amgylcheddol ac adrodd arni, ac i fodloni ei ofynion mewn perthynas â deddfwriaeth amgylcheddol gyfredol a newydd. Caiff targedau a llinell sylfaen eu datblygu yn ystod tair blynedd cyntaf y cynllun corfforaethol, yn dibynnu ar dargedau cyhoeddedig y llywodraeth

## Gwaith parhaus ac yn y dyfodol

- Rydym wrthi'n diweddaru ein hymchwil ar gywirdeb a chyflawnrwydd, a fydd yn ein helpu i ddeall cyflwr cofrestrau etholiadol y DU. Caiff y cyhoeddiadau diwygiedig ar gyfer Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon eu cyhoeddi yn ystod hydref 2023.
- Byddwn yn parhau i gyfrannu at ymchwiliad Pwyllgor Dethol Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau Llywodraeth y DU i newidiadau posibl i systemau cofrestru pleidleiswyr ledled y DU. Bydd astudiaethau dichonoldeb y Comisiwn o ran sut y gellid gwneud defnydd gwell ddata cyhoeddus a systemau cofrestru awtomataidd neu awtomatig, yn parhau i fod yn sail i'n dull gweithredu yn y maes hwn.
- Bydd y Comisiwn yn parhau i fuddsoddi amser ac adnoddau i feithrin cydberthnasau â rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill, er mwyn deall eu safbwyntiau a nodi cyfleoedd i gydweithio.

“


*Heb etholiad uniongyrchol ar y gorwel, mae llawer o'r rhai sy'n ymwneud â'r gwaith hwn, gan gynnwys y Comisiwn Etholiadol, yn ystyried i ba gyfeiriad y mae angen i waith i annog pobl ifanc i gymryd rhan yn ein proses ddemocrataidd fynd nesaf.*

**Y Comisiwn, wrth ysgrifennu at y Sefydliad Materion Cymreig**

# **Gweithgarwch galluogi**
# Annibyniaeth ac uniondeb

## Yr hyn rydym yn gweithio i'w gyflawni

Mae'r system etholiadol yn dibynnu ar y Comisiwn Etholiadol yn gweithredu fel corff annibynnol amhleidiol, ac felly rydym yn gosod safonau uchel iawn i'n hunain o safbwynt ein huniondeb. Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau y cawn ein parchu am ein harbenigedd, a bod ein cyngor a'n penderfyniadau yn rhydd rhag tuedd. O ystyried ein rôl unigryw, mae angen i'n huniondeb fod yn glir ac yn amlwg yn yr hyn a wnawn. Rydym yn dangos annibyniaeth ac uniondeb drwy wneud y canlynol:



- gwneud penderfyniadau ar sail y dystiolaeth, a bod yn dryloyw ynghylch y rhesymau dros wneud y penderfyniadau hynny
- seilio ein safbwyntiau polisi a'n hargymhellion ar ddadansoddiad o'r dystiolaeth
- cyfleu ein gwaith a'n barn yn effeithiol
- darparu gwasanaethau ymatebol i'r rhai rydym yn eu cefnogi
- cynnal trefniadau llywodraethu effeithiol.

## Gwaith a wnaed i gyflawni'r nod hwn

✓ Gwnaethom gyhoeddi gwybodaeth am ymchwiliadau rheoleiddio a gaewyd yn fisol, gan gyflwyno ein canfyddiadau ac unrhyw sancsiynau posibl mewn modd tryloyw.

✓ Gwnaethom adolygu ein Polisi Gorfodi, y cyfeiriwn ato wrth gynnal ymchwiliad. Gwnaethom geisio barn er mwyn sicrhau bod y polisi mor eglur a defnyddiol â phosibl, fel bod ein dull gorfodi yn dryloyw ac yn hawdd ei ddeall.

✓ Gwnaethom ddefnyddio dull seiliedig ar dystiolaeth wrth lunio ein hymateb i'r ymgynghoriad ar Ddatganiad Strategaeth a Pholisi Llywodraeth y DU. Nododd yr ymateb fod cyflwyno mecanwaith o'r fath – y gall llywodraeth ei ddefnyddio i lywio gwaith comisiwn etholiadol – yn anghyson â'n rôl fel rheoleiddiwr annibynnol a'r corff sy'n goruchwylio etholiadau rhydd a theg.

✓ Gwnaethom ddarparu briffiadau i seneddwyr er mwyn eu helpu i ystyried y Bil Etholiadau wrth iddo fynd drwy Senedd y DU.


- ✓ Bwriedir i'n hadnoddau addysgol fod yn ffynhonnell annibynnol o ddeunydd a gwybodaeth i addysgwyr, i'w helpu i addysgu am wleidyddiaeth heb orfod crwydro i mewn i wleidyddiaeth. Gwnaethom ymateb i ymholiadau gan aelodau o'r cyhoedd, seneddwyr, gweinyddwyr a'r gymuned a reoleiddir, gan roi gwybodaeth a chyngor ar y system etholiadol a chyfranogiad democrataidd.

- ✓ Gwnaethom ymateb i ymholiadau gan aelodau o'r cyhoedd, seneddwyr, gweinyddwyr a'r gymuned a reoleiddir, gan roi gwybodaeth a chyngor ar y system etholiadol a chyfranogiad democrataidd.

- ✓ Cawsom 89 o geisiadau rhyddid gwybodaeth. Rydym yn anelu at ymateb i 90% o geisiadau o fewn yr amserlen statudol o 20 diwrnod gwaith, a'r flwyddyn hon gwnaethom ymateb i 97.7% o fewn yr amserlen honno. Gofynnwyd i ni gynnal adolygiadau mewnol o'n hymateb i bum cais rhyddid gwybodaeth yn ystod y flwyddyn, ac ymatebwyd i bob un o'r rhain o fewn y r amserlenni y cytunwyd arnynt.

- ✓ Cawsom dri chais am fynediad at ddata gan y testun a 10 chais i ddileu o dan GDPR y DU. Ymatebwyd i bob un o'r rhain o fewn yr amserlen statudol ar gyfer ymateb, sef un mis calendr.

- ✓ Gwnaethom ymdrin â 28 o gwynion, o gymharu â 96 yn 2021/22. O blith y rhain, roedd tair yn dal i gael ei hystyried ar ddiwedd y flwyddyn. O blith y rhai a gwblhawyd, ni chafodd 17 eu cadarnhau, cafodd dwy eu cadarnhau'n rhannol, cafodd dwy eu cadarnhau'n llawn, cafodd dwy eu cau am na chafwyd eglurhad gan yr achwynydd, a thynnwyd dwy yn ôl.




- ✓ Rydym yn defnyddio ein proses gwynion fel cyfle i ddysgu, a rhannwyd cyfleoedd i ddysgu â'r timau perthnasol. Cawsom un cais am adolygiad gan y Prif Weithredwr. Er na chafodd canlyniad gwreiddiol y gŵyn ei newid yn sgil yr adolygiad hwn, bu modd rhoi eglurhad a chymorth pellach.

- ✓ Ymatebodd ein gwasanaeth gwybodaeth cyhoeddus dynodedig i 11,829 o ymholiadau gan y cyhoedd yn ystod y flwyddyn, a gafwyd dros y ffôn, drwy'r post a

thrwy e-bost. Drwy'r gwasanaeth hwn, gwnaethom ateb cwestiynau ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys ID pleidleisiwr, cofrestru pleidleiswyr a phleidleisio drwy'r post. Gwnaethom hefyd ymateb i 14,800 o ymholiadau a gafwyd drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

- ✓ Gwnaethom ymateb i 51 o gwestiynau seneddol yn San Steffan yn ystod 2022/23, gan gynnwys cwestiynau am ID pleidleisiwr – o ran ein hymgyrch a'r polisi ei hun – cymdeithasau anghorfforedig, rhoddion i bleidiau gwleidyddol a Datganiad Strategaeth a Pholisi arfaethedig.
- ✓ Chris Matheson AS a Cat Smith AS, aelodau o Bwyllgor y Llefarydd, oedd ein llefarwyr yn Senedd y DU ac a atebodd gwestiynau ar ein rhan yn ystod y flwyddyn.

## Dangosyddion perfformiad

| Dangosydd | Targed | 2022-23 |
|---|---|---|
| Ymatebion amserol i ymholiadau drwy'r cyfryngau cymdeithasol | **100%** | **100%** |
| Ymatebion amserol i ymholiadau gan y cyhoedd drwy alwadau, llythyrau a negeseuon e-bost | **100%** | **99.69%** |
| Ymatebion amserol i Geisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun dilys | **100%** | **100%** |
| Ymatebion amserol i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth dilys | **90%** | **97.7%** |

## Gwaith parhaus ac yn y dyfodol

- Bydd adroddiadau am etholiadau yn dilyn etholiadau mis Mai 2023 yn amlinellu unrhyw argymhellion sy'n angenrheidiol, yn ein barn ni, i wella'r system i bleidleiswyr, gweinyddwyr ac ymgyrchwyr.
- Byddwn yn parhau i roi gwybodaeth, arweiniad a chyngor cywir a diduedd i'n rhanddeiliaid.
- Wrth i ni baratoi ar gyfer Ddatganiad Strategaeth a Pholisi arfaethedig Llywodraeth y DU ar gyfer y Comisiwn, erys ymrwymiad y Comisiwn i wneud penderfyniadau annibynnol yn gadarn.

# Gweithgarwch galluogi

## Sefydliad medrus lle y caiff amrywiaeth ei werthfawrogi

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn ymrwymedig i egwyddor cyfle cyfartal, gwerth amrywiaeth a buddion cynhwysiant. Rydym yn ddarostyngedig i amrywiaeth o ddeddfwriaeth gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010, sy'n cynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ac Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998, sy'n gwahardd gwahaniaethu ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da ar draws amrywiaeth o nodweddion gwarchodedig.

### Yr hyn rydym yn gweithio i'w gyflawni

Rydym am i'n gweithlu deimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i gefnogi i wireddu ei botensial. Rydym yn gweithio i gyflawni'r canlynol:



- rhoi arferion gwaith wedi'u hadnewyddu ar waith i adlewyrchu newidiadau ehangach yn ein hamgylchedd gwaith a'n diwylliant
- denu, cadw a datblygu'r bobl sydd eu hangen arnom
- cynnal a gwella safonau rheoli uchel, gyda phwyslais ar ddatblygu ein pobl
- ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ymhellach ym mhob agwedd ar ein gwaith.

### Gwaith a wnaed i gyflawni'r nod hwn

✓ Gwnaethom gyhoeddi Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd, gan gynnwys Cynllun Cydraddoldeb Sengl ar gyfer Gogledd Iwerddon. Mae'r Comisiwn yn gorff ar gyfer y DU gyfan ac, felly, mae wedi sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

✓ Gwnaethom ddiwygio a diweddaru ein prosesau ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu arferion gorau.

✓ Gwnaethom benodi cynghorydd annibynnol i'n Bwrdd er mwyn ein helpu i barhau i ganolbwyntio ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r Cynghorydd wedi gwneud nifer o argymhellion ynghylch y ffordd y mae'r Comisiwn yn cyflawni ei ymrwymiadau yn y maes hwn, gan ganolbwyntio'n benodol ar lywodraethu a

pholisïau ac arferion mewnol. Mae Bwrdd y Comisiwn wedi derbyn yr argymhellion hyn yn llawn ac wedi sefydlu grŵp o Gomisiynwyr i oruchwylio'r broses o'u cyflawni.


- ✓ Gwnaethom weithio gyda staff yn ein grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a Thasglu'r Siarter Hil yn y Gwaith er mwyn nodi ffyrdd o wella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y Comisiwn.


- ✓ Gwnaethom godi ymwybyddiaeth fewnol drwy ddigwyddiadau a siaradwyr i nodi Mis Hanes Pobl Dduon a Mis Pride.

- ✓ Gwnaethom newidiadau i'n proses recriwtio, gan gynnwys hyfforddiant newydd ar ragfarn ddiarwybod a chyfraith cyflogaeth ac ychwanegu cwestiynau am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant at ein cronfa o gwestiynau cyfweliad.

## Dangosyddion perfformiad

| Dangosydd | Targed | 2022-23 |
|---|---|---|
| Cadw gwybodaeth gyflawn am amrywiaeth y gweithlu | **85%** | **90.86%** |







## Gwaith parhaus ac yn y dyfodol

- Mae Strategaeth Pobl y Comisiwn yn cynnwys pedair elfen wahanol – Recriwtio, Dysgu a Datblygiad, Rheolaeth a TGCh – y mae pob un ohonynt yn seiliedig ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Ymhlith y meysydd ffocws allweddol mae sicrhau y caiff hyfforddiant ar bynciau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ei gyflwyno, ystyried sefydlu opsiynau recriwtio mwy amrywiol a chynhwysol, a gwella ein gallu i gyflwyno adroddiadau a data ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn rhoi amrywiaeth o newidiadau i brosesau ac arferion recriwtio ar waith, fel diweddaru ein polisi recriwtio, llunio canllawiau clir i reolwyr, a chyflwyno system recriwtio newydd
- Byddwn yn cryfhau ein tîm mewnol sy'n gyfrifol yn benodol am gefnogi'r sefydliad i gyflawni gwelliannau yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, yn fewnol ac yn allanol.
- Bydd y Comisiwn yn ystyried y cyfleoedd a gyflwynir gan brentisiaethau, ac yn edrych am staff sydd am ymgymryd â chymwysterau drwy ddilyn y llwybr hwn.
- Bydd gennym brosbectws dysgu a datblygu ar waith erbyn hydref 2023, ynghyd ag arlwy llawn ar waith erbyn 2025.
- Caiff menter 'Mentora o Chwith' ei lansio, i gefnogi dysgu a datblygiad mewnol.
- Bydd y Comisiwn yn penodi Hyrwyddwr Anabledd er mwyn cyfleu ei bwysigrwydd a llywio gwaith ymgysylltu sefydliadol.

# Gweithgarwch galluogi
## Sefydliad sy'n dysgu, sy'n gwella'n barhaus ac yn defnyddio adnoddau'n effeithlon

### Yr hyn rydym yn gweithio i'w gyflawni

Mae'r byd o'n cwmpas yn newid yn gyflym. Mae angen i ni addasu'n gyflym er mwyn llwyddo. Er mwyn gwneud hyn, awn ati'n drylwyr i ddysgu o brofiad a cheisio gwelliant parhaus ym mhob peth a wnawn. Yn ôl pob golwg, bydd y pwysau ar wariant cyhoeddus yn parhau, ac felly mae'n hanfodol ein bod yn parhau i reoli ein costau a gwneud defnydd effeithiol o'n technoleg, cyllid, amser ac adnoddau. Rydym yn gweithio i gyflawni'r canlynol:



- caffael systemau TG sy'n cynnig gwerth am arian ac yn gwella'r gwasanaethau a ddarperir, a'u rhoi ar waith
- parhau â'n strategaeth ariannol er mwyn cadw'r Comisiwn o fewn cyllidebau y cytunwyd arnynt
- parhau i ddatblygu technegau i ddysgu o brofiad, ceisio gwelliant parhaus a dod yn fwy effeithlon ac effeithiol
- datblygu strategaeth amgylcheddol gorfforaethol sy'n bodloni gofynion polisi a deddfwriaethol i leihau effaith amgylcheddol

### Gwaith a wnaed i gyflawni'r nod hwn

- ✓ Rydym ar y trywydd cywir i gyflawni'r ymrwymiad a bennwyd gennym yn y Cynllun Corfforaethol i gadw gwariant craidd – ar weithgareddau rheoleiddio, cymorth ar gyfer gweinyddwyr etholiadol a gorbenion – yn wastad yn nhermau real dros gyfnod y cynllun.
- ✓ Yn anffodus, nid oeddem yn gallu cwblhau ein gwaith ar y system cyllid gwleidyddol ar-lein newydd gan nad oedd y prosiect bellach yn gallu cyflawni ei amcanion a byddai angen cymorth parhaus a chostus arno. Rydym ar hyn o bryd yng ngham 'Discovery' ein dull newydd, sy'n defnyddio gwaith blaenorol yr oeddem wedi'i ddatblygu ac ymgynghori arno.
- ✓ Fel nifer o gyrff cyhoeddus, mae'r Comisiwn yn wynebu risgiau ymosodiadau seiber. Er mwyn helpu i ddiogelu rhag ymosodiadau o'r fath, rydym yn buddsoddi yn ein systemau. Rydym wedi symud ein seilwaith TG i'r cwmwl ac wedi buddsoddi mewn seiberddiogelwch, gan roi sylfaen dechnoleg gadarn i ni a fydd yn ein galluogi i ganolbwyntio ar systemau corfforaethol allweddol.

- ✓ Gwnaethom baratoi cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2023-24, a gymeradwywyd gan Bwyllgor y Llefarydd ym mis Mawrth 2023.

## Gwaith parhaus ac yn y dyfodol

- Byddwn yn parhau i symud ein canllawiau i fformat newydd mwy hygyrch ar-lein, a bydd yr holl ganllawiau newydd ar gyfer etholiadau 2024 ar gael yn y ffordd hon.
- Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflwyno system ar-lein wleidyddol newydd ar gyfer cofrestru pleidiau gwleidyddol a chyflwyno gwybodaeth ariannol yn lle'r system gyfredol, a byddwn yn parhau i weithio gyda phleidiau ac ymgyrchwyr ar y camau nesaf.
- Rydym yn cynnal rhaglen o hyfforddiant ar gyfer rheolwyr cyllidebau mewnol ac yn gwella systemau i ddarparu data amser reol ar wariant i reolwyr cyllidebau er mwyn eu helpu i wneud penderfyniadau gwell.

# Defnyddio ein hadnoddau i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein nodau

## Ein pobl

### Cysylltiadau staff ac ymgysylltu â nhw

Mae'r Comisiwn yn dibynnu ar ymroddiad, arbenigedd a gwaith caled ei staff. Gyda'i gilydd, mae timau'n gweithio i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i bleidleiswyr a rhanddeiliaid, gan geisio cyflawni'r amcanion strategol a nodir yn y Cynllun Corfforaethol ar yr un pryd.

Mae'r gwaith hwn y dibynnu ar gydberthnasau adeiladol ar draws y Comisiwn, gyda'r Tîm Gweithredol, a'r Bwrdd.

Mae grŵp ymgysylltu â staff, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r sefydliad, yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion corfforaethol a diwylliant y Comisiwn i geisio mewnbwn a safbwyntiau gan gydweithwyr. Ategir hyn gan gyfarfodydd prosiect rheolaidd â thimau gwahanol, cyfarfodydd tîm, a sesiynau dal i fyny â rheolwyr llinell, er mwyn sicrhau y caiff safbwyntiau a lleisiau eu clywed.

Y flwyddyn hon, lansiodd y Comisiwn Siarter Diwylliant newydd, a grëwyd gan y staff, a Pholisi Urddas a Pharch newydd. Gwnaethom hefyd gyflwyno hyfforddiant ar fwlio ac aflonyddu. Cynhaliwyd Gwobrau Staff hefyd er mwyn cydnabod a dathlu ymdrechion a chyflawniadau'r rheini sy'n gweithio yn y sefydliad.

Mae gan y Comisiwn undeb weithredol, sy'n chwarae rôl bwysig yn y ddeialog rhwng y staff a'r rheolwyr. Cynhaliwyd anghydfod masnach swyddogol mewn perthynas â setliadau cyflog y flwyddyn hon, ond parhaodd y ddeialog a'r ymgysylltu i fod yn adeiladol.

Gwnaethom gwblhau ein harolwg staff diweddaraf ym mis Rhagfyr 2022 ac ymatebodd 86% o gyflogeion iddo. Ein sgôr o ran ymgysylltu â chyflogeion oedd 66% (gostyngiad bach o gymharu â 67% yn 2021). Roedd ein sgoriau yn cymharu'n gadarnhaol iawn â meincnod y Gwasanaeth Sifil (2021) mewn meysydd lle roedd ein pobl yn cytuno â'r canlynol:

- Maent yn cael y cyfle i gyfrannu safbwyntiau cyn i benderfyniadau sy'n effeithio arnynt gael eu gwneud (60%, 21 pwynt canrannol uwchlaw'r meincnod)
- Maent yn teimlo'n falch pan fyddant yn dweud wrth eraill eu bod yn gweithio i'r Comisiwn (81%, 18 pwynt canrannol uwchlaw'r meincnod)

Ymhlith y meysydd lle nad oedd ein sgoriau'n cymharu mor gadarnhaol â meincnod y Gwasanaeth Sifil a lle y mae angen i ni wneud gwelliannau roedd y rheini lle roedd pobl yn cytuno â'r canlynol:

- Mae cyfleoedd i symud ymlaen mewn gyrfa yn y Comisiwn (23%, 36 pwynt canrannol islaw'r meincnod)
- Mae ganddynt y cyfarpar a'r systemau TG sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu swydd yn effeithiol (48%, 24 pwynt canrannol islaw'r meincnod)

## Dangosyddion perfformiad

| Dangosydd | Targed | 2022-23 |
|---|---|---|
| Cynnal y sgôr llesiant staff yn yr arolwg staff | **77%** | **77%** |
| Cynnal y sgôr ymgysylltu â staff yn yr arolwg staff | **67%** | **66%** |

## Iechyd a diogelwch galwedigaethol


Caiff ein polisi iechyd a diogelwch ei adolygu'n flynyddol. Mae gennym weithdrefnau, canllawiau ac asesiadau risg ar waith hefyd i gwmpasu ein gweithgareddau craidd. Mae grŵp iechyd a diogelwch yn goruchwylio ein trefniadau. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn adrodd i'r uwch-grŵp arwain. Fodd bynnag, rheolwyr pobl sy'n bennaf cyfrifol am iechyd a diogelwch.

Rydym yn cychwyn archwiliadau iechyd a diogelwch annibynnol o'n safleoedd bob blwyddyn, sy'n cynnwys archwilio amgylcheddau gwaith ac adolygu systemau rheoli diogelwch. Mae'r archwiliadau hyn yn dweud wrthym a yw ein trefniadau yn addas ac yn tynnu sylw at unrhyw welliannau y mae angen i ni eu gwneud. Yn 2022/23, gwnaethom y canlynol:

- Gosod goleuadau LED yn ein swyddfa yn Llundain, gan greu ymdeimlad o olau naturiol

- Cynnal profion ar wifrau sefydlog yn ein swyddfeydd yng Nghaerdydd a Llundain
- Cefnogi'r rhai sy'n gweithio gartref a staff sydd wedi'u lleoli yn y swyddfa â cheisiadau am gyfarpar, fel gweithfannau a chadeiriau orthopaedig a chlustogau cynnal y cefn
- Cynnal profion dyfeisiau cludadwy ym mhob un o'n swyddfeydd
- Parhau i gynnal gweithdrefnau glanhau gwell, gan gynnwys darparu hylif diheintio dwylo a weips gwrthfacterol.

# Ein heffaith amgylcheddol



Rydym yn cydnabod bod cyflawni ein gweithgareddau yn cael effaith ar yr amgylchedd ac rydym yn parhau i weithio tuag at leihau'r effaith hon.

Rydym yn prydlesu swyddfeydd mewn pedair dinas gan gyfuniad o berchenogion eiddo sector cyhoeddus a sector preifat. Nid oes gennym reolaeth uniongyrchol dros y dewis o gyflenwr cyfleustodau, y modd y rheolir y broses o waredu gwastraff na thargedau gwaredu gwastraff ar ein safleoedd. Ar gyfer nifer o'n swyddfeydd, perchennog yr eiddo sy'n rheoli'r defnydd o ynni a dŵr a'r modd y caiff gwastraff ei waredu, gan adennill costau drwy dâl gwasanaeth cyfunol.

Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae'r swyddfeydd yng Nghaerdydd, Caeredin a Belfast wedi cael eu symud i safleoedd llai, sy'n fwy effeithlon yn amgylcheddol. Cwblhawyd y broses o adnewyddu'r brydles ar gyfer ein swyddfa yn Llundain yn 2020.

## Dangosyddion perfformiad

| Dangosydd | Targed | 2022-23 |
|---|---|---|
| Lleihau effaith amgylcheddol ein defnydd o ynni | **Dd/G** – Caiff hyn ei ddatblygu pan fydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ei tharged | **Dd/G** |

## Adroddiad ar gynaliadwyedd

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i gefnogi'r llywodraethau a'r gymuned etholiadol ehangach. Byddwn yn mabwysiadu strategaeth a chynllun gweithredu sy'n bodloni'r safonau amgylcheddol sy'n ofynnol ar gyfer ein system etholiadol. Yn fewnol, rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynaliadwyedd fel sefydliad.

Yn ystod 2023/24 byddwn yn dechrau'r broses o ddatblygu adolygiad amgylcheddol a chynaliadwyedd llawn. Ein nod yw y bydd y gwaith hwn yn ein helpu i adrodd ar ein strategaeth cynaliadwyedd yn fanylach yn y blynyddoedd sydd i ddod ac i fesur cynnydd. Bydd rhagor o fanylion ar gael yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon nesaf, a bydd yn ystyried ein gwaith ar draws holl wledydd y DU a chyda'r gweinyddiaethau datganoledig.

**Mae mentrau ar waith er mwyn helpu i leihau'r effaith amgylcheddol:**

- lleihau'r adnoddau argraffedig a ddarperir i weinyddwyr etholiadau a grwpiau eraill, gan ganolbwyntio ar ddarpariaeth electronig lle bo'n bosibl
- annog y defnydd o fideo-gynadledda a thelegynadledda er mwyn osgoi teithio diangen sy'n creu allyriadau CO2
- gweithredu cyfleusterau ailgylchu ym mhob un o'n swyddfeydd

## Swyddfa Llundain

**Sylwebaeth ar berfformiad o ran allyriadau**

Ein nod yw defnyddio llai o danwydd ffosil o flwyddyn i flwyddyn, sy'n effaith barhaus yn sgil cyflwyno mesurau gan berchennog yr eiddo i leihau'r defnydd o drydan, gan gynnwys gweithrediad is ‘y tu allan i oriau’ o offer a pheiriannau a chyflwyno goleuadau ynni effeithlon. Gan ein bod yn rhentu ein swyddfa, cyfyngir ar ein cynlluniau i leihau allyriadau gan y caiff y rhain eu rheoli gan ein landlord yn bennaf.

**Adroddiad ar allyriadau**

| Allyriadau nwyon tŷ gwydr | | 2022-23 | Targed 2050 | 2017-18 (Llinell sylfaen) |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (CO2e mewn tunelli)** | Cyfanswm yr allyriadau gros | 125 | 175 | 235 |
| | Allyriadau gros – Defnydd o danwydd ffosil | 99 | 149 | 198 |
| | Allyriadau gros – Teithio | 26 | 26 | 37 |
| **Defnydd cysylltiedig o ynni (kWh)** | Trydan | 375,818 | 365,708 | 487,611 |
| | Nwy | 188,854 | 158,993 | 211,990 |
| **Dangosyddion ariannol** | Gwariant ar Ynni | Ddim ar gael | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| | Gwariant ar Deithio | 75,527 | 85,389 | 113,852 |

Rydym wedi lleihau gwaith y tu allan i oriau ers 2017-18 er mwyn helpu i leihau ein hallyriadau. Ers cyflwyno trefniadau gweithio hybrid, rydym wedi lleihau ein defnydd o ynni a theithio yn y swyddfa.

Ym mis Chwefror 2023, cwblhawyd prosiect i osod goleuadau LED yn ein swyddfa yn Llundain. Roedd yr effaith ar y defnydd o ynni yn uniongyrchol, ac arweiniodd at ddefnyddio 43% yn llai o ynni ym mis Chwefror a mis Mawrth 2023, o gymharu â'r cyfnod o ddeufis cyfatebol yn 2022.

**Adroddiad ar wastraff**

Seilir ffigurau gwastraff ac ailgylchu cyffredinol ar gyfran o holl wastraff yr adeilad ac ni chânt eu rheoli'n uniongyrchol gennym ni. Mae'r broses o waredu gwastraff cyfrinachol y sefydliad yn cael ei chyflawni ar wahân i'r broses ar gyfer deiliaid eraill yr adeilad. Caiff y gwastraff cyfrinachol a gynhyrchir gennym ei droi'n garpion papur ar y safle cyn cael ei ailgylchu'n bapur gradd isel.

Seilir y ffigur ar gyfer y gwastraff cyffredinol a'r gwastraff a ailgylchir ar gyfran o holl wastraff yr adeilad. Anfonir yr holl wastraff cyffredinol a gynhyrchir yn yr adeilad, gan gynnwys yr hyn a gynhyrchir gennym ni, i safle ynni o wastraff cyfagos yn lle safleoedd tirlenwi.

Rydym wedi lleihau ein defnydd o bapur ers 2017-18 er mwyn helpu i leihau gwastraff ac, ers cyflwyno trefniadau gweithio hybrid, rydym wedi lleihau ein defnydd o bapur yn sylweddol eto; rydym wedi lleihau ein defnydd o bapur yn sylweddol.

| Gwastraff | | | 2022-23 | 2017-18 (llinell sylfaen) |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (tunelli)** | Cyfanswm y gwastraff | | 5.08 | 10.01 |
| | Gwastraff nad yw'n beryglus | Cyfrinachol | 1.00 | 2.81 |
| | | Gwastraff cyffredinol (gan gynnwys wedi'i ailgylchu) | 4.08 | 7.26 |
| **Swm y papur a brynwyd (rimiau)** | | | 105 | 650 |
| **Dangosyddion ariannol** | Cyfanswm y gost gwaredu | | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| | | Cyfrinachol | £1,972 | £1,134 |
| | | Gwastraff cyffredinol (gan gynnwys wedi'i ailgylchu) | Ddim ar gael | Ddim ar gael |

# Defnyddio ein hadnoddau ariannol yn effeithlon

Cawn ein cyllid adnoddau gan dair Senedd – y DU, yr Alban a Chymru.

| Senedd y DU | Senedd yr Alban | Senedd Cymru |
|---|---|---|
| £25.2M | £2.1M | £1.5M |

Yr adnodd cyfunol a oedd ar gael i'r Comisiwn i ddechrau oedd £28.8m ar gyfer gweithgarwch â phleidlais. Cawsom hefyd werth £225,000 o gyllid heb bleidlais i dalu ffioedd Comisiynwyr.

## Dadansoddiad terfynol o'n cyllideb

| | Cyllid â phleidlais £m | Cyllid heb bleidlais £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|
| **Terfyn Gwariant Adrannol** | | | |
| Adnoddau | 25.222 | 0.225 | 25.447 |
| Cyfalaf | 1.424 | 0.000 | 1.424 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | |
| Adnoddau | 0.050 | 0.000 | 0.050 |
| Cyfalaf | 0.100 | 0.000 | 0.100 |
| **Cyfanswm y Gyllideb Net** | | | |
| Adnoddau | 25.272 | 0.225 | 25.497 |
| Cyfalaf | 1.524 | 0.000 | 1.524 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gofyniad arian parod net | 26.123 | 0.000 | 26.123 |

Dangosir £2.1m gan Senedd yr Alban a’r £1.5m gan Senedd Cymru fel incwm drwy gydol y cyfrifon a'r Datganiadau o Gyflenwi Seneddol. Caiff gweddill y gyllideb a dynnwyd i lawr a nas gwariwyd ei gynnwys fel incwm gohiriedig yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Wrth gyflawni ein hamcanion, rydym wedi defnyddio gwerth £25.1m o adnoddau ar gyfer y flwyddyn gyfan. Roedd hyn allan o'r £25.3m a oedd ar gael ac a gymeradwywyd gan Senedd y DU yn ein Hamcangyfrif Atodol ar gyfer y gofyniad adnoddau net â phleidlais, heb gynnwys incwm a gafwyd gan yr awdurdodau datganoledig. Mae'r graffig isod yn crynhoi ein perfformiad ariannol o ran yr elfen ‘â phleidlais’ o'n cyllideb.


## Perfformiad ariannol 2022/23

Mae ein perfformiad ariannol yn dilyn ein perfformiad strategol. Ar gyfer blwyddyn 2022/23:

- roedd ein costau staff yn cynrychioli 47% o'n gwariant adnoddau, sy'n ostyngiad o gymharu â 2021/22 o ganlyniad i wariant ychwanegol o fewn ein hymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Mae'r gwariant cyffredinol ar staff £1.3m yn uwch.

- cynyddodd ein gwariant cyfalaf £0.1m o 2021/22 o ganlyniad i'r gwelliannau parhaus i TGCh.

## Gwariant cyffredinol




Mae gwariant Senedd Cymru a Senedd yr Alban yn y tabl uchod yn is-set o’r gost gyffredinol.

Rydym yn adrodd ein tanwariant i adlewyrchu penderfyniadau gweithredol yn ystod y flwyddyn. Rydym yn eithrio Grant Datblygu Polisi a ddosbarthir drwy fformiwla a osodir gan y llywodraeth.

Yn 2022/23 y tanwariant ar y mesur hwn oedd £79,000 yn erbyn y gyllideb â phleidlais (>1%).

**Tanwariant arall**

- £211,000 – darpariaethau (AME Adnoddau) o ganlyniad i lai o symud na'r disgwyl mewn pensiynau a dadfeiliadau
- £612,000 – prosiectau cyfalaf o ganlyniad i beidio â pharhau â'n prosiect Cyllid Gwleidyddol Ar-lein a symud gweinyddion ar y safle i systemau cwmwl.

Mae ein hincwm yn y cyfrifon yn ymwneud â thaliadau ar gyfer cofrestru pleidiau gwleidyddol.

Rydym hefyd yn adrodd i Senedd Cymru a Chorff Corfforaethol Senedd yr Alban, ac yn atebol iddynt. Mae'r incwm a gydnabyddir yn y cyfrifon ar gyfer gwaith ar etholiadau datganoledig yn bennaf. Cydnabyddir yr holl incwm yn nodyn 4 y cyfrifon.

Rydym yn casglu dirwyon a roddir i bleidiau gwleidyddol ac unigolion am fethu â chydymffurfio â'r rheolau ar gyllid pleidiau ac etholiadau ac yna'n eu hildio i'r Gronfa Gyfunol fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Yn ogystal â monitro perfformiad yn erbyn cyllidebau, gwnaethom hefyd ymdopi o fewn y terfynau arian parod a bennwyd ar ein cyfer gan Senedd y DU. Roedd angen gwerth £22.5m o arian parod arnom i ariannu ein gweithgareddau â phleidlais, a oedd £3.6m yn llai na'r swm o £26.1m a gymeradwywyd gan Senedd y DU yn ein Hamcangyfrif Atodol. Mae cysoni'r alldro adnoddau net i'r gofyniad arian parod net o fewn yr adroddiad ar atebolrwydd yn cysoni'r alldro â'r arian parod net sydd ei angen arnom yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Datganiad o Lifau Arian Parod yn dangos mai'r balans arian parod ar 31 Mawrth 2023 oedd 9,000.

Mae'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2023 yn dangos ecwiti trethdalwyr negatif. Bydd y rhwymedigaethau hyn yn cael eu bodloni drwy ddarparu cyllid cyflenwi yn y dyfodol.

**Taliadau i gyflenwyr**

Er ein bod yn annibynnol ar y llywodraeth, ein nod yw cydymffurfio â'r Cod Talu Prydlon sydd ar waith yn y sector cyhoeddus. Y targed yw talu anfonebau nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 30 diwrnod. Yn 2022/23, gwnaethom dalu 100% o anfonebau o fewn 30 diwrnod.

## Amcangyfrif cyflenwi ar gyfer 2023-24

Mae ein Prif Amcangyfrif Cyflenwi ar gyfer 2023-24 (HC1385) yn darparu ar gyfer gofyniad adnoddau net o £28.8m. Mae hyn yn gynnydd o 14% o gymharu â 2022/23 yn bennaf o ganlyniad i'r codiadau chwyddiannol a chyllideb ymwybyddiaeth y cyhoedd ychwanegol. Caiff ein Prif Amcangyfrif ei rannu fel a ganlyn:

| | Cyllid â phleidlais £m | Cyllid heb bleidlais £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|
| **Terfyn Gwariant Adrannol** | | | |
| Adnoddau | 28.755 | 0.225 | 28.980 |
| Cyfalaf | 2.005 | 0.000 | 2.005 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | |
| Adnoddau | 0.050 | 0.000 | 0.050 |
| Cyfalaf | 0.100 | 0.000 | 0.100 |
| **Cyfanswm y Gyllideb Net** | | | |
| Adnoddau | 28.805 | 0.225 | 29.030 |
| Cyfalaf | 2.105 | 0.000 | 2.105 |
| **Gofyniad arian parod net** | 29.133 | | |

Cafodd hyn ei gymeradwyo gan Bwyllgor y Llefarydd ar 15 Ebrill 2023, a'i gyflwyno gerbron Tŷ'r Cyffredin ar 18 Ebrill 2023. Caiff y Comisiwn ei sefydlu drwy ddeddfwriaeth a chan ddilyn egwyddorion y FReM, tybir y bydd y gwasanaeth a ddarperir yn parhau. Nid oes unrhyw beth i awgrymu y bydd y gwasanaethau a ddarperir gan y Comisiwn yn dod i ben neu na chaiff cyllid ei ddarparu yn y dyfodol.

# Adroddiad ar bwerau a sancsiynau

## Defnyddio ein pwerau a'n sancsiynau rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023

Rydym yn annog y rhai a reoleiddir gennym i gydymffurfio â'r gyfraith drwy roi cymorth ac arweiniad. Fodd bynnag, pan fo'n gymesur gwneud hynny, rydym yn cymryd camau pan nad ydynt yn dilyn y rheolau.

Rhydd PPERA bwerau ymchwilio i ni, gan gynnwys y gallu i wneud y canlynol:

- gofyn am wybodaeth (drwy hysbysiad ymchwilio) gan unrhyw un lle rydym yn amau bod rhywun wedi torri'r gyfraith neu (drwy hysbysiad datgelu) lle nad ydym yn amau trosedd ond mae angen gwybodaeth arnom er mwyn cyflawni ein swyddogaethau
- gofyn i'r rhai a amheuir neu i dystion ddod am gyfweliad
- cymryd camau os na fydd pobl yn cydweithredu â'n gofynion
- dan amgylchiadau penodol, cael mynediad i safleoedd (drwy warant archwilio gan Ynad Heddwch)

Mae gennym amrywiaeth o sancsiynau hefyd, gan gynnwys:

Cosbau yn amrywio o £200 i £20,000

Hysbysiadau cydymffurfio neu adfer, y gallwn eu defnyddio i'w gwneud yn ofynnol i bobl gymryd camau penodol i sicrhau cydymffurfiaeth neu unioni achos o ddiffyg cydymffurfio

Hysbysiadau atal, y gallwn eu defnyddio i i'w gwneud yn ofynnol i bobl gymryd camau penodol neu roi'r gorau i weithred fwriadedig

Mae'r sancsiynau hyn yn berthnasol i'r rhan fwyaf o droseddau PPERA, ond nid pob un ohonynt. Mae rhai troseddau – y rhai sy'n cynnwys elfen o anonestrwydd bwriadol fel arfer – na allwn roi dirwyon amdanynt, ond gallwn hysbysu'r heddlu neu'r erlynydd cyhoeddus perthnasol.

Hefyd, gallwn ystyried ‘ymgymeriadau gorfodi’ gan y rhai a reoleiddir gennym, er enghraifft lle y gall plaid roi gwybod yn wirfoddol am drosedd a chynnig camau i'w hunioni, gan osgoi'r angen i’r blaid a'r Comisiwn fynd drwy ymchwiliadau, a all gymryd llawer o amser o bosibl.

## Defnyddio pwerau ymchwilio

Mae'n ofynnol i ni adrodd ar ein defnydd o bwerau ymchwilio, yn benodol:

- achosion lle y gwnaethom gyflwyno hysbysiad datgelu neu ymchwilio
- achosion lle yr aed i safle gan ddefnyddio gwarant archwilio a roddwyd gan Ynad Heddwch
- achosion lle y gwnaethom gais i lys am orchymyn datgelu

Nid yw'n ofynnol i ni gynnwys gwybodaeth lle y byddai gwneud hynny, yn ein barn ni, yn anghyfreithlon neu gallai fod yn anghyfreithlon, neu gallai effeithio'n andwyol ar unrhyw ymchwiliad neu achos cyfredol.

Ni wnaethom gyflwyno unrhyw hysbysiadau datgelu nac ymchwilio yn ystod 2022/23.

Ni wnaethom ddefnyddio ein pwerau i wneud cais am warant archwilio i fynd i mewn i safle nac i wneud cais i lys am unrhyw orchmynion datgelu.

## Ymchwiliadau a gwblhawyd


Cwblhawyd 34 o ymchwiliadau yn ystod 2022/23, o gymharu â 42 o ymchwiliadau yn y flwyddyn flaenorol. Gwnaethom barhau i reoleiddio a chymryd camau gorfodi pan roedd yn rhesymol gwneud hynny er budd y cyhoedd. Roedd ein gwaith i helpu pleidiau ac ymgyrchwyr i gydymffurfio â chyfraith etholiadol, a diffyg etholiadau a reoleiddir o bwys, yn ffactorau a gyfrannodd at y lleihad hwn yn nifer yr achosion.

## Defnyddio sancsiynau sifil

Mae'n ofynnol i ni adrodd ar ein defnydd o sancsiynau sifil, yn benodol:

- achosion lle y gosodwyd cosb ariannol benodedig neu ofyniad dewisol neu y cyflwynwyd hysbysiad atal (heblaw achosion lle y cafodd y gosb, gofyniad neu hysbysiad ei newid ar ôl apelio)
- achosion lle y talwyd atebolrwydd am gosb ariannol benodedig cyn i hysbysiad yn gosod y gosb honno gael ei gyflwyno
- achosion lle y derbyniwyd ymgymeriad gorfodi

Arweiniodd 25 o ymchwiliadau at ystyried sancsiynau, a gwnaethom osod 20 o gosbau, ar draws saith achos. Gosodwyd gwerth £16,130 o sancsiynau.




Mae'r ffigur hwnnw'n cynnwys un achos lle y talwyd dwy gosb benodedig yn gynnar felly ni fu'n rhaid i ni gyflwyno hysbysiadau talu. Nid yw'n ystyried 17 o achosion lle y canfuwyd bod trosedd wedi'i chyflawni ond gwnaethom benderfynu peidio â gosod sancsiwn. Lle y mae trosedd wedi'i chyflawni, rydym yn cymryd agwedd gymesur ac nid ydym yn codi cosb yn awtomatig.

Mae manylion yr holl gosbau a osodwyd yn ystod 2022/23 ar gael ar ein gwefan.

Ni chynigiwyd unrhyw ymgymeriadau gorfodi i ni yn ystod 2022/23. Ni wnaethom gyflwyno unrhyw hysbysiadau atal hyd at ac yn cynnwys 31 Mawrth 2023. Ni wnaed unrhyw apeliadau yn erbyn penderfyniadau i osod sancsiynau sifil.

# Adroddiad blynyddol Gogledd Iwerddon

Mae ein gwaith yng Ngogledd Iwerddon dros y flwyddyn ddiwethaf wedi ymwneud yn bennaf â digwyddiadau etholiadol. Gwnaethom dreulio rhan gyntaf y flwyddyn yn cefnogi etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon Mai 2022, a rhan olaf y flwyddyn yn paratoi ar gyfer etholiadau cynghorau lleol Mai 2023.

Cafodd y gwaith hwn ei wneud yn erbyn cefndir o ansicrwydd gwleidyddol, wrth i'r Cynulliad fethu ag ethol Prif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog yn dilyn etholiad Mai 2022. Fe rheoleiddiwr cyfrifol, rydym wedi cynnal cynlluniau wrth gefn cyfredol ar gyfer etholiad annisgwyl, a thrwy gydol y cyfnod hwn, rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Prif Swyddog Etholiadol, pleidiau gwleidyddol a'r gymuned etholiadol ledled Gogledd Iwerddon i roi cyngor a chymorth ar faterion yn ymwneud â chyfraith etholiadol, adroddiadau ariannol, ymgyrchu a chofrestru pleidleiswyr.

## Gwaith a wnaed i gyflawni'r nod hwn

- ✓ Gwnaethom helpu i gynnal etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon Mai 2022 yn llwyddiannus.
- ✓ Yn dilyn etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon, gwnaethom gyhoeddi adroddiad yn adlewyrchu'r data a'r dystiolaeth a gasglwyd ar bleidleisio, ymgyrchu a chynnal yr etholiad. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys argymhellion i wella'r system ymhellach.
- ✓ Gwnaethom gynnal ymgyrch cofrestru pleidleiswyr drwy gyfryngau torfol yn ystod y cyfnod cyn etholiad y Cynulliad, wedi'i chefnogi gan weithgarwch yn y wasg a gweithgarwch partneriaeth.
- ✓ Gwnaethom ddatblygu adnoddau ymgysylltu democrataidd newydd ar gyfer ysgolion a darparwyr dysgu. Cynhaliwyd Wythnos Croeso i Dy Bleidlais ar ddiwedd mis Ionawr, a chymerodd 20 o ysgolion ledled Gogledd Iwerddon ran yn yr wythnos honno.



- ✓ Gwnaethom gyhoeddi ein gwariant ar ymgyrchu ar gyfer etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon.
- ✓ Teithiodd Bwrdd y Comisiwn i Belfast i gyfarfod â'r Prif Swyddog Etholiadol, academyddion, grwpiau ieuenctid a phleidiau gwleidyddol. Canfu ein hadroddiad ar etholiad Mai 2022 fod 71% o'r ymgeiswyr yng Ngogledd Iwerddon wedi cael eu cam-drin neu eu bygylu mewn rhyw ffordd. O ganlyniad, cyfarfu'r Bwrdd â chynrychiolwyr benywaidd o bob un o'r prif bleidiau yng Ngogledd Iwerddon er mwyn clywed am eu

profiadau o gam-drin wrth ymgyrchu ac ystyried ffyrdd o gynyddu diogelwch ymgeiswyr yn ystod etholiadau yn y dyfodol.

- ✓ Yn ystod y cyfnod cyn etholiadau cynghorau lleol mis Mai 2023, mewn partneriaeth â Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon, y Gwasanaeth Erlyn Cyhoeddus a Swyddfa Etholiadol Gogledd Iwerddon, gwnaethom gyhoeddi canllawiau ar y cyd i ymgeiswyr i'w helpu i adnabod ymddygiad bygythiol a throseddol ac ymateb iddo.
- ✓ Gwnaethom lansio ein hymgyrch cofrestru pleidleiswyr ar gyfer etholiadau cynghorau lleol Gogledd Iwerddon Mai 2023.
- ✓ Mewn partneriaeth â Swyddfa Etholiadol Gogledd Iwerddon, y Post Brenhinol a Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon, gwnaethom gynnal seminarau cyn etholiad yn Belfast, Omagh ac ar-lein ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid a oedd yn cymryd rhan yn etholiadau lleol Mai 2023. Gwnaethom hefyd gynnig cyngorfeydd un i un i gefnogi'r rhai a oedd yn cymryd rhan yn yr etholiadau.
- ✓ Er gwaethaf diffyg Cynulliad gweithredol, parhaodd Panel Pleidiau Gwleidyddol Gogledd Cymru, i gyfarfod yn ystod y flwyddyn. Mae'r panel yn darparu cyswllt pwysig ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng y Comisiwn, y Prif Swyddog Etholiadol a phleidiau gwleidyddol.

## Edrych i'r dyfodol

- Caiff ein hadroddiad ar etholiadau cynghorau lleol Gogledd Iwerddon Mai 2023 ei gyhoeddi yn ystod hydref 2023.
- Byddwn yn parhau i gefnogi pleidiau ac ymgyrchwyr i gydymffurfio â'r gyfraith, ac i sicrhau bod systemau cyllid gwleidyddol yn dryloyw.
- Byddwn hefyd yn parhau i roi cymorth ac arweiniad i Swyddfa Etholiadol Gogledd Iwerddon. Ym mis Mawrth 2023, ymddiswyddodd y Prif Swyddog Etholiadol a gwnaed penodiad dros dro er mwyn sicrhau y gellid cynnal etholiadau'r cynghorau lleol. Pan benodir Prif Swyddog Etholiadol newydd, byddwn yn gweithio’n agos gyda'r unigolyn hwnnw i'w helpu i gynnal etholiadau a phrosesau cofrestru etholiadol trefnus yng Ngogledd Iwerddon.
- Byddwn yn cyhoeddi ein hasesiad diweddaraf o gywirdeb a chyflawnrwydd y gofrestr etholiadol yng Ngogledd Iwerddon yn ystod hydref 2023.
- Byddwn yn parhau i roi cyngor arbenigol a chynnig argymhellion i wella'r system gyfredol, gan gynnwys cyflwyno'r achos dros ddiwygio'r canfasiad a'r broses cofrestru etholiadol ehangach yng Ngogledd Iwerddon.
- Byddwn yn adeiladu ar y gwaith rydym eisoes wedi'i wneud i ddarparu adnoddau addysgol, a byddwn yn ceisio sefydlu partneriaid newydd i hyrwyddo a gwella llythrennedd gwleidyddol ar draws y ddemograffeg sy'n llai tebygol o gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

- Bydd y Ddeddf Etholiadau yn parhau effeithio ar ein gwaith yng Ngogledd Iwerddon. Gan weithio'n agos gyda Swyddfa Gogledd Iwerddon, y Prif Swyddog Etholiadol a rhanddeiliaid eraill, byddwn yn helpu i roi'r newidiadau a wnaed i'r broses etholiadol yng Ngogledd Iwerddon drwy'r Ddeddf ar waith. Bydd hyn yn cynnwys ymateb i ymgynghoriadau perthnasol ar is-ddeddfwriaeth, diweddaru canllawiau a llunio rhai newydd, a chodi ymwybyddiaeth o'r newidiadau hyn ymhlith y gymuned etholiadol yng Ngogledd Iwerddon.

- Byddwn yn cynnal cynlluniau cyfredol ar gyfer etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon, y disgwylir iddo gael ei gynnal cyn mis Ebrill 2024 os na chaiff gweithrediaeth ei ffurfio erbyn mis Ionawr 2024.

## Ymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI)

Mae’r Comisiwn Etholiadol yn gwasanaethu democratiaeth amrywiol yng Ngogledd Iwerddon. Gwnaethom gyhoeddi ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant newydd, yn ogystal â’n Cynllun Cydraddoldeb sengl ar gyfer Gogledd Iwerddon, yn ystod hydref 2022.

O dan ddeddfwriaeth newydd, disgwylir y bydd comisiynwyr iaith Albanaidd Ulster a Gwyddelig yn cael eu penodi, a’u tasg bydd datblygu safonau arfer gorau a hyrwyddo’r gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau cyhoeddus. Bydd y Comisiwn yn monitro hyn mewn perthynas â’i waith a’i wasanaethau ei hun.

# Adroddiad blynyddol Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'n gwaith ar faterion datganoledig yng Nghymru ac yn ystyried ein perfformiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Rydym wedi cynnwys gwybodaeth ariannol gryno yn yr adroddiad ar berfformiad. Mae'r wybodaeth hon yn gyson â'r datganiadau ariannol, lle mae rhagor o fanylion ar gael.

Cafodd y Comisiwn Etholiadol ei sefydlu gan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA). Rydym yn annibynnol ar y llywodraeth a phleidiau gwleidyddol ac yn uniongyrchol atebol i Senedd y DU, Senedd Cymru a Senedd yr Alban.

Yn sgil diwygiadau a wnaed i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gan Ddeddf Cymru 2017, trosglwyddwyd cyfrifoldeb am etholiadau a refferenda datganoledig yng Nghymru o Senedd y DU i Senedd Cymru. Mae Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn nodi'r trefniadau ariannu ac atebolrwydd ar gyfer gweithgareddau datganoledig y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru.

## Gwaith a wnaed i gyflawni'r nod hwn

Canolbwyntiodd ein gwaith ar ddechrau 2022-23 ar helpu i gynnal etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys:

- ✓ Gweithio gyda Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru (BCEC) i ddarparu cyngor a chanllawiau i Swyddogion Canlyniadau a'u staff ar baratoi ar gyfer yr etholiadau a'u cynnal.
- ✓ Gweithio gyda phleidiau gwleidyddol a Swyddogion Canlyniadau i ddarparu sesiynau briffio a chymorth wedi'u targedu i ymgeiswyr ac asiantiaid a oedd yn ymladd yr etholiadau.
- ✓ Cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd drwy gyfryngau torfol ar gyfer pleidleiswyr, er mwyn eu hatgoffa o'r terfynau amser allweddol ar gyfer ceisiadau cofrestru a cheisiadau am bleidleisiau absennol. Gwnaed 38,438 o geisiadau i gofrestru i bleidleisio yng Nghymru yn ystod ein hymgyrch cofrestru pleidleiswyr.
- ✓ Cyhoeddi ein gwerthusiad, ym mis Gorffennaf, o'r cynlluniau peilot pleidleisio'n gynnar a gynhaliwyd mewn pedair ardal awdurdod lleol yng Nghymru yn ystod etholiadau Mai 2022.
- ✓ Cyhoeddi ein hadroddiad statudol ar yr etholiadau ym mis Medi, a oedd yn adlewyrchu'r data a'r dystiolaeth a gasglwyd ar bleidleisio, ymgyrchu, a chynnal yr etholiad. Gwnaethom ganfod fod y mwyafrif o'r pleidleiswyr yn fodlon ar y broses o bleidleisio, a bob bron pob un ohonynt wedi gallu pleidleisio drwy ddefnyddio eu dewis ddull.

Drwy'r flwyddyn, gwnaethom ganolbwyntio ein gweithgarwch ar ein gwasanaeth cyngor a chymorth i'n rhanddeiliaid, gan gynnwys gweinyddwyr etholiadol, ymgeiswyr ac asiantiaid. Roedd hyn yn cynnwys:

- ✓ Ymgynghori â gweinyddwyr yng Nghymru ar fframwaith safonau perfformiad newydd ar gyfer Swyddogion Canlyniadau, sydd bellach wedi'i osod gerbron y Senedd.
- ✓ Defnyddio ein fframwaith safonau perfformiad i gefnogi a herio Swyddogion Canlyniadau yn yr etholiadau llywodraeth leol a Swyddogion Cofrestru Etholiadol o ran eu gweithgareddau drwy'r flwyddyn i gynnal cofrestrau etholiadol cywir a chyflawn.
- ✓ Nodi cyfleoedd newydd i helpu'r gymuned a reoleiddir i gydymffurfio â'r rheolau yn ymwneud â chyllid ymgyrchu.

Gwnaethom barhau i roi cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru a'r Senedd ar ddatblygu polisi mewn perthynas â materion etholiadol:

- ✓ Ymddangos gerbron Pwyllgor y Llywydd i roi tystiolaeth fel rhan o'i waith i graffu ar amcangyfrif ariannol 2023/24.
- ✓ Darparu ymateb cynhwysfawr i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol, gan ddefnyddio ein gwaith polisi a'n hymchwil helaeth gyda phleidleiswyr, gweinyddwyr etholiadol ac ymgyrchwyr.

Gwnaethom adeiladu ar lwyddiant ein gwaith i hyrwyddo addysg ddemocrataidd drwy ddarparu adnoddau dysgu ar gyfer athrawon a gweithwyr ieuenctid. Roedd hyn yn cynnwys:



- ✓ Gweithio gydag awdurdodau lleol, penaethiaid a'n partner, The Democracy Box, i ddatblygu a hyrwyddo ein hadnoddau ymgysylltu democrataidd newydd ar gyfer ysgolion a darparwyr dysgu eraill er mwyn ennyn hyder pleidleiswyr a'u hannog i gymryd rhan.
- ✓ Hyrwyddo Wythnos Croeso i Dy Bleidlais ar ddiwedd mis Ionawr, y gwnaeth nifer da o sefydliadau ledled Cymru gymryd rhan ynddi. Gwnaethom gynnal digwyddiad lansio yn y Senedd gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, Jeremy Miles.

## Gwaith parhaus ac yn y dyfodol

- Rydym yn gweld angen cynyddol i gefnogi mwy o bleidleiswyr sydd newydd gael yr etholfraint ledled Cymru i gymryd rhan mewn democratiaeth. Felly, byddwn yn ehangu cyrhaeddiad ein rhaglen addysg, gan ddatblygu adnoddau sy'n berthnasol i'r Cwricwlwm newydd i Gymru ac ymgysylltu ymhellach â sefydliadau partner. Ein nod yw addysgu pobl ifanc am y broses ddemocrataidd a pharatoi addysgwyr i addysgu llythrennedd gwleidyddol â hyder.
- Drwy sesiynau hyfforddi a briffio, byddwn yn cefnogi pleidiau ac ymgyrchwyr i gydymffurfio â'r gyfraith, ac yn parhau i sicrhau bod cyllid gwleidyddol yn dryloyw.

- Byddwn yn helpu Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol i ateb yr heriau y maent yn eu hwynebu wrth ddarparu gwasanaethau etholiadol effeithiol. Byddwn yn canolbwyntio ar eu helpu i addasu i dirwedd etholiadol amrywiol ac anghenion newidiol pleidleiswyr yng Nghymru.

- Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Senedd a Llywodraeth Cymru wrth iddynt gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol newydd er mwyn rhoi cynlluniau ar gyfer diwygio'r Senedd a diwygiadau etholiadol ar waith. Gan weithio gyda Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru, byddwn yn cyfleu safbwyntiau Swyddogion Canlyniadau a Gweinyddwyr Etholiadol i Lywodraeth Cymru ac yn ceisio sicrhau eu bod yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth newydd hon.

- Byddwn yn gweithio gyda'r heddlu, ymgyrchwyr a gweinyddwyr etholiadol yng Nghymru i ystyried pryderon a godwyd gan ymgeiswyr am fygylu a cham-drin yn ystod etholiadau, a mynd i'r afael â'r pryderon hynny.

## Ymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant



Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gwasanaethu democratiaeth amrywiol yng Nghymru, ac rydym yn ymrwymedig i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae ein rhaglen o waith partneriaeth wedi datblygu adnoddau i gefnogi cynhwysiant democrataidd i'r rhai sy'n wynebu rhwystrau i bleidleisio. Mae hyn wedi cynnwys darparu deunyddiau mewn amrywiaeth o ieithoedd, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain, ac mewn nifer o fformatau, gan gynnwys fformat hawdd ei ddeall, print bras, sain a braille. Rydym hefyd wedi gweithio gyda sefydliadau partner yng Nghymru i ddatblygu deunyddiau priodol ar gyfer Sipsiwn/Teithwyr, pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, goroeswyr cam-drin domestig a phobl ddigartref.

Yn ystod y flwyddyn i ddod, byddwn yn gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr o'r gymuned etholiadol i ystyried sut y gallwn wella hygyrchedd y broses etholiadol i bobl sy'n wynebu rhwystrau i gymryd rhan mewn etholiadau.

Rydym hefyd yn ymrwymedig i'r egwyddor y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin yn gyfartal mewn busnes cyhoeddus ac wrth ddarparu adnoddau a gwasanaethau. Mae hyn wedi arwain at welliannau pellach i'r gwasanaeth a ddarperir gennym i bartneriaid yn eu dewis iaith, ac i sicrhau ein bod yn cyrraedd Safonau'r Gymraeg, a bennwyd ym mis Gorffennaf 2016, yn ogystal â darparu gwasanaethau arloesol ac uchelgeisiol.


Rydym hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda Grŵp Cynghori’r Gymraeg BCEC, sy'n anelu at sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal mewn materion yn ymwneud â chanllawiau a deddfwriaeth etholiadol ac y rhoddir y cymorth angenrheidiol i'r gymuned etholiadol ehangach.

## Adnoddau

Yn ystod 2022/23, gwnaethom ddefnyddio 98% o’r gyllideb o £1.54m a oedd ar gael. Roedd hyn ar gyfer staffio, £1.1m (71%), a hysbysebu, £0.3m (19%), yn bennaf; mae'r

symiau sy'n weddill yn cynrychioli cyfraniad y Senedd at weithgareddau cyffredin a gorbenion corfforaethol.

Mae ein hadroddiad segmentol ar dudalen 152 yn dangos y dadansoddiad rhwng costau uniongyrchol ac anuniongyrchol.




## Llywodraethu

Mae'r Comisiwn yn atebol yn ffurfiol i Senedd Cymru, ac yn cael cyllid ganddi, mewn perthynas â'i swyddogaethau yn ymwneud ag etholiadau a refferenda datganoledig yng Nghymru. Rydym yn adrodd i Bwyllgor y Llywydd, a sefydlwyd at y diben hwn ac sy'n gweithio yn unol â'r “Datganiad o Egwyddorion Cyllido”, y cytunwyd arno â'r Senedd yn gynnar yn 2021.

Ym mis Medi 2022, gwnaethom gyflwyno ein trydedd gyfres o amcangyfrifon i'r Senedd, gan alluogi Trysorlys y DU i drosglwyddo lefel y cyllid y cytunwyd arno i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae pob plaid wedi cytuno ar y broses hon ac mae'n sicrhau y gall seneddau fod yn hyderus wrth graffu ar ein cynlluniau gwaith a'n cyfrifon.

# Adroddiad Blynyddol yr Alban

## Trosolwg

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'n gwaith ar faterion datganoledig yn yr Alban, ac mae'n ystyried ein perfformiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Rydym wedi cynnwys gwybodaeth ariannol gryno yn yr adroddiad ar berfformiad. Mae'r wybodaeth hon yn gyson â'r datganiadau ariannol, lle mae rhagor o fanylion ar gael.

Cafodd y Comisiwn Etholiadol ei sefydlu gan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA). Rydym yn annibynnol ar y llywodraeth ac yn uniongyrchol atebol i Senedd yr Alban, Senedd Cymru a Senedd y DU.

Mae Deddf Senedd ac Etholiadau (Diwygio) 2020 yn nodi'r trefniadau ariannu ac atebolrwydd ar gyfer gweithgareddau datganoledig y Comisiwn Etholiadol yn yr Alban.

## Gwaith a wnaed i gyflawni'r nod hwn

Canolbwyntiodd ein gwaith ar ddechrau 2022/23 ar helpu i gynnal etholiadau cynghorau lleol yn llwyddiannus ledled yr Alban. Roedd hyn yn cynnwys:

- ✓ Gweithio gyda Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban i ddarparu cyngor a chanllawiau i weinyddwyr etholiadol yn yr Alban i'w helpu i baratoi ar gyfer yr etholiadau a'u cynnal. Roedd hyn yn cynnwys adnoddau newydd a grëwyd mewn partneriaeth â phobl anabl i'w defnyddio wrth hyfforddi staff gorsafoedd pleidleisio.

- ✓ Darparu cymorth wedi'i dargedu i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr i sicrhau eu bod yn deall y rheolau ymgyrchu ac yn cydymffurfio â nhw. Roedd hyn yn cynnwys cynnal seminarau i ymgeiswyr yn ystod cynadleddau pleidiau gwleidyddol a gweminar i ymgeiswyr ac asiantiaid, y gwnaeth mwy na 180 o bobl gymryd rhan ynddi.

- ✓ Cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ar gyfer pleidleiswyr, er mwyn eu hatgoffa o'r terfynau amser allweddol ar gyfer ceisiadau cofrestru a cheisiadau am bleidleisiau absennol, a darparu gwybodaeth am sut i gwblhau'r papur pleidleisio gan ddefnyddio'r bleidlais sengl

> “
>
> *Drwy waith partneriaeth gwych, cawsom wybodaeth amserol a chywir am gofrestru pleidleiswyr, cofrestru drwy'r post, pleidleisio a mesurau brys o ganlyniad i Covid-19.*
>
> **Sefydliad partner**

drosglwyddadwy. Gwnaed 66,716 o geisiadau i gofrestru i bleidleisio yn yr Alban yn ystod ein hymgyrch cofrestru pleidleiswyr.

- ✓ Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau cymdeithas sifil, fel Enable ac Ysgol Gymunedol Simon, er mwyn helpu pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i baratoi i bleidleisio drwy rannu adnoddau a chynnal digwyddiadau gwybodaeth.

- ✓ Darparu gwasanaeth gwybodaeth cyhoeddus i bleidleiswyr, gan gynnwys adnodd chwilio i ddarparu gwybodaeth am eu gorsaf bleidleisio ddynodedig ac ymgeiswyr yn y ward dan sylw.

- ✓ Cyhoeddi ein hadroddiad statudol ar etholiadau cyngor yn yr Alban ym mis Medi, gan gynnwys adrodd ar y camau a gymerwyd gan Swyddogion Canlyniadau i helpu pobl anabl i gymryd rhan yn yr etholiadau. Roedd ein hadroddiad yn adlewyrchu ymchwil gadarn a wnaed gyda phleidleiswyr, gweinyddwyr etholiadol ac ymgeiswyr, a chanfu fod y mwyafrif helaeth o'r pleidleiswyr yn fodlon ar y broses o bleidleisio a bob bron pob un ohonynt wedi gallu pleidleisio drwy ddefnyddio eu dewis ddull.

Rydym wedi buddsoddi yn ein cyngor, ein cymorth a'n gweithgareddau rheoleiddio yn yr Alban ac wedi cynyddu adnoddau staff i ganolbwyntio ar y meysydd hyn. Mae ein gwaith wedi cynnwys:

- ✓ Ymgynghori â gweinyddwyr yn yr Alban ar fframwaith safonau perfformiad newydd ar gyfer Swyddogion Canlyniadau, sydd bellach wedi'i osod gerbron Senedd yr Alban.

- ✓ Defnyddio ein fframwaith safonau perfformiad i gefnogi a herio Swyddogion Canlyniadau yn etholiadau cyngor yr Alban a Swyddogion Cofrestru Etholiadol o ran eu gweithgareddau drwy'r flwyddyn i gynnal cofrestrau etholiadol cywir a chyflawn.

- ✓ Nodi cyfleoedd newydd i helpu'r gymuned a reoleiddir i gydymffurfio â'r rheolau yn ymwneud â chyllid ymgyrchu.

Rydym yn parhau i roi cyngor arbenigol i Lywodraeth yr Alban a Senedd yr Alban ar ddatblygu polisi o fewn y fframwaith etholiadol, gan wneud y canlynol:

- ✓ Rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Safonau, Gweithdrefnau a Phenodiadau Cyhoeddus ar gynnal etholiadau cyngor yr Alban 2022, gan nodi meysydd lle y gellir gwella'r system i bleidleiswyr, gweinyddwyr etholiadol ac ymgyrchwyr.

- ✓ Darparu ymateb cynhwysfawr i ymgynghoriad Llywodraeth yr Alban ar weinyddu a diwygio etholiadol, gan ddefnyddio ein gwaith polisi a'n hymchwil helaeth gyda phleidleiswyr, gweinyddwyr etholiadol ac ymgyrchwyr.

“

*Roedd y weminar yn effeithiol iawn, yn enwedig o ran y rheolau yn ymwneud ag argraffnodau, gwariant ymgeiswyr a rhoddion. Rwyf wedi ei hargymell i'm cyd-ymgeiswyr ac asiantiaid a byddaf yn rhannu'r ddolen â nhw.*

**Ymgeisydd yn etholiadau Mai 2022**

Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i adeiladu ar lwyddiant ein gwaith i hyrwyddo addysg ddemocrataidd drwy ddarparu adnoddau dysgu ar gyfer athrawon a gweithwyr ieuenctid:

- ✓ Mae ein gwaith blaenorol ym maes addysg wedi canolbwyntio ar helpu pobl ifanc i baratoi ar gyfer pleidleisio mewn etholiad penodol, ond yn ystod Wythnos Croeso i Dy Bleidlais ym mis Ionawr 2023, nododd y Comisiwn bwysigrwydd ymgorffori addysg ddemocrataidd mewn ysgolion drwy'r flwyddyn.



- ✓ Cymerodd mwy na 150 o ysgolion a sefydliadau ieuenctid ledled yr Alban ran yn ein hymgyrch, gan ymrwymo i gynnal gweithgareddau gyda'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw ar thema 'Ein Democratiaeth'. Gwnaethom hefyd weithio gyda Senedd Ieuenctid yr Alban a Girlguiding Scotland i gefnogi gwirfoddolwyr ifanc i gynnal gweithdai yn eu hysgolion a'u cymunedau lleol, a gwnaethom gynnal digwyddiadau mewn ysgolion drwy gydol yr wythnos ar gyfer tua 700 o bobl ifanc.
- ✓ Gwnaethom dreialu rhaglen llais ieuenctid, gan ddod â grŵp o bobl ifanc o bob cwr o'r Alban ynghyd i roi adborth ar ein hadnoddau addysg a chreu adnoddau newydd sy'n addas i bobl ifanc.

## Gwaith parhaus ac yn y dyfodol

- Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn gweithio i sefydlu rhaglen llais ieuenctid hirdymor. Byddwn yn gweithio i ymgorffori addysg ddemocrataidd mewn ysgolion a lleoliadau gwaith ieuenctid ymhellach drwy gefnogi gweithwyr ieuenctid, athrawon ABCh (Addysg Bersonol a Chymdeithasol) a phynciau eraill i ddefnyddio ein hadnoddau drwy hyfforddiant a rhwydweithiau athrawon. Byddwn hefyd yn ystyried sut y gallwn weithio gyda'r sector cyhoeddus a sefydliadau cymdeithas sifil i helpu pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a defnyddwyr BSL i ddysgu am eu pleidlais.
- Byddwn yn arwain prosiect, gan gynnwys rhanddeiliaid o blith y rhai sy'n gweinyddu etholiadau cyngor yr Alban a'r rhai sy'n ymgyrchu yn yr etholiadau hynny, i nodi strategaethau i wella dealltwriaeth pleidleiswyr o system y bleidlais sengl drosglwyddadwy, gyda'r nod o leihau nifer y pleidleisiau a wrthodir yn etholiadau cyngor yr Alban.
- Byddwn yn parhau i roi cyngor arbenigol i Lywodraeth yr Alban a Senedd yr Alban wrth i'r Llywodraeth fynd ar drywydd ei ymrwymiad i ddeddfu ar gyfer diwygiadau etholiadol pellach.
- Drwy sesiynau cynghori, hyfforddi a briffio, byddwn yn cefnogi pleidiau ac ymgyrchwyr i gydymffurfio â'r gyfraith, ac yn parhau i sicrhau bod cyllid gwleidyddol yn dryloyw.
- Byddwn yn gweithio gyda Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban er mwyn helpu Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol i fynd i'r afael â'r heriau y maent yn eu hwynebu wrth ddarparu gwasanaethau etholiadol effeithiol sy'n

parhau i ddiwallu anghenion pleidleiswyr. Bydd hyn yn cynnwys nodi cyfleoedd i gryfhau timau gweinyddu etholiadol ac ystyried opsiynau ar gyfer moderneiddio'r broses bleidleisio.

- Byddwn yn gweithio gyda Heddlu'r Alban, ymgyrchwyr a gweinyddwyr etholiadol i ystyried pryderon a godwyd gan ymgeiswyr am fygylu a cham-drin yn ystod etholiadau, a mynd i'r afael â'r pryderon hynny.

## Ymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant




Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gwasanaethu democratiaeth amrywiol yn yr Alban, ac rydym yn ymrwymedig i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae ein rhaglen o waith partneriaeth yn yr Alban wedi parhau i ddatblygu adnoddau i gefnogi cynhwysiant democrataidd i'r rhai sy'n wynebu rhwystrau penodol wrth bleidleisio. Mae hyn wedi cynnwys darparu deunyddiau etholiad mewn amrywiaeth o ieithoedd, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain, ac mewn nifer o fformatau, gan gynnwys fformat hawdd ei ddeall, print bras, sain a braille. Rydym hefyd wedi gweithio gyda sefydliadau partner yn yr Alban i ddatblygu deunyddiau priodol ar gyfer Sipsiwn/Teithwyr, pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, goroeswyr cam-drin domestig a phobl ddigartref.

Yn ystod y flwyddyn i ddod, byddwn yn gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr o'r gymuned etholiadol drwy Is-grŵp Gwella Hygyrchedd y Bwrdd Rheoli Etholiadol i ystyried sut y gallwn wella hygyrchedd y broses etholiadol i bobl sy'n wynebu rhwystrau i gymryd rhan mewn etholiadau.

## Adnoddau

Yn ystod 2022/23, gwnaethom ddefnyddio 99% o’r gyllideb o £2.06m a oedd ar gael. Roedd hyn ar gyfer staffio yn bennaf, £1.5m (73%), gyda hysbysebu ac ymchwil, £0.5m (24%), yn bennaf; mae'r symiau sy'n weddill yn cynrychioli cyfraniad Senedd yr Alban at weithgareddau cyffredin a gorbenion corfforaethol.

Mae ein hadroddiad segmentol ar dudalen 152 yn dangos y dadansoddiad rhwng costau uniongyrchol ac anuniongyrchol.




## Llywodraethu

Mae'r Comisiwn yn adrodd i Gorff Corfforaethol Senedd yr Alban at ddibenion atebolrwydd. Rydym yn parhau i adrodd i bwyllgorau eraill mewn perthynas â'n gwaith mewn meysydd polisi gwahanol, yn fwyaf nodedig y Pwyllgor Safonau, Gweithdrefnau a Phenodiadau Cyhoeddus.

Ym mis Medi 2022, gwnaethom gyflwyno ein trydydd amcangyfrif i Gorff Corfforaethol Senedd yr Alban ar gyfer ariannu ein gwaith yn ystod 2023/24. Dilynodd y broses ar gyfer datblygu'r amcangyfrif y ‘Datganiad o Egwyddorion Cyllido’ y gwnaethom gytuno arno â Senedd yr Alban, Senedd y DU a Senedd Cymru ddechrau 2021.



**Shaun McNally**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**
**6 Medi 2023**

# Yr adroddiad ar atebolrwydd



# Yr adroddiad ar lywodraethu corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae Bwrdd y Comisiwn yn cynnwys 10 Comisiynydd a benodwyd drwy Warant Frenhinol i arfer ein swyddogaethau fel y'u disgrifir yn PPERA.

Mae'r Bwrdd yn penodi'r Prif Weithredwr i arwain a rheoli ein sefydliad ac mae'r Prif Weithredwr yn penodi tîm arwain o Gyfarwyddwyr Gweithredol.

Nodir manylion y Comisiynwyr a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn y datganiad llywodraethu.

### Cofrestr o fuddiannau

Rhaid i gomisiynwyr a chyfarwyddwyr gwblhau datganiad o fuddiannau. Nid oeddent yn dal unrhyw gyfarwyddiaethau cwmni na buddiannau sylweddol eraill a allai fod wedi gwrthdaro â'u cyfrifoldebau. Nid oedd gan unrhyw Gomisiynydd na chyfarwyddwr unrhyw fuddiannau plaid cysylltiedig eraill. Rydym yn diweddaru'r gofrestr o fuddiannau yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ac yn ei chyhoeddi ar ein gwefan.

### Busnes gweithredol

Mae ein Prif Amcangyfrif wedi derbyn cymeradwyaeth ar gyfer yr adnoddau sydd eu hangen arnom yn 2023/24 a'n Cynllun Corfforaethol tan 2025/26. Fel un o gyrff y Llywodraeth a sefydlwyd drwy ddeddfwriaeth a chan ddilyn egwyddorion y FReM, tybir y bydd y gwasanaeth a ddarperir yn parhau.

### Archwilwyr

Penodir y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol fel ein harchwilydd allanol o dan Atodlen 1 i PPERA.

Ein harchwilwyr mewnol o 1 Ebrill 2020 oedd RSM UK.

Nodir manylion llawn y gydnabyddiaeth ar gyfer gwaith archwilio a gwaith nad yw'n ymwneud ag archwilio yn y datganiadau ariannol.

### Datgeliadau eraill

Mae rhai datgeliadau sy'n ofynnol yn adroddiad y cyfarwyddwyr wedi cael eu cynnwys rywle arall yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Rydym wedi nodi digwyddiadau sy'n

gysylltiedig â data personol yn y datganiad llywodraethu. Mae datgeliadau ar gyflogaeth ac ymgysylltu â staff yn ein hadran ‘ein pobl’ o'r adroddiad ar berfformiad. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth.

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol wedi effeithio arnom ni ers y dyddiad adrodd ac rydym wedi datgelu datblygiadau yn y dyfodol a fydd yn effeithio arnom ni yn yr adran ‘Defnyddio ein hadnoddau ariannol yn effeithlon’ o'r adroddiad ar berfformiad.

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan PPERA, mae'n ofynnol i mi baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gan roi manylion yr adnoddau a gaffaelwyd, a ddaliwyd, neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd o adnoddau gennym yn ystod y flwyddyn.

Paratoir y cyfrifon hyn ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r sefydliad a'i alldro adnoddau net, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llifau arian parod am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) a baratoir gan Drysorlys Ei Fawrhydi, ac yn benodol i:

- ddilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol

Yn unol â pharagraff 19(1) o Atodlen 1 i PPERA, mae Pwyllgor y Llefarydd wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn Etholiadol, gyda chyfrifoldeb am baratoi'r cyfrifon a'u trosglwyddo i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu – gan gynnwys cyfrifoldeb am reoleidd-dra a phriodoldeb y cyllid cyhoeddus y mae Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, a'r cyfrifoldeb am gadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Comisiwn Etholiadol – yn Managing Public Money a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cadarnhau, hyd y gŵyr:

- nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr endid yn ymwybodol ohoni
- ei fod wedi cymryd pob cam y dylai fod wedi ei gymryd i'w wneud yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr yr endid yn ymwybodol o'r wybodaeth honno

Cadarnhaf drwy hyn fod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon at ei gilydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'm bod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad

Blynyddol a Chyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

## Datgelu gwybodaeth i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu a oedd yn y swydd ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn, yn cadarnhau, hyd y gŵyr pob cyfarwyddwr:

- nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr allanol yn ymwybodol ohoni
- bod pob cyfarwyddwr wedi cymryd yr holl gamau sy'n ofynnol i wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod yr archwilwyr allanol yn ymwybodol o'r wybodaeth honno

# Datganiad llywodraethu

Sefydlwyd y Comisiwn Etholiadol o dan PPERA. Yn unol ag Atodlen 1(19) i PPERA, mae Pwyllgor y Llefarydd wedi fy mhenodi yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y Comisiwn Etholiadol. Nodir fy nghyfrifoldebau yn y rôl hon ar wahân o dan Y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu. Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cael sicrwydd bod y fframweithiau, yr amgylchedd rheoli, y prosesau a'r system graffu a nodir yn y datganiad hwn wedi bod yn effeithiol drwy gydol y flwyddyn ariannol drwy adolygu dogfennaeth, cynnal trafodaethau â Chomisiynwyr, cynghorydd annibynnol y Pwyllgor Archwilio a Risg a staff, a chyfarfodydd ag archwilwyr mewnol ac allanol a rhanddeiliaid allanol eraill.

Mae aelodau'r Bwrdd yn anweithredol ac mae'n ofynnol iddynt roi gwybod am unrhyw achos posibl o wrthdaro buddiannau. Mae pob aelod yn cwblhau datganiad blynyddol plaid gysylltiedig. Gallaf gadarnhau bod yr holl ffurflenni wedi cael eu hadolygu ac nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau.

Llunnir y datganiad llywodraethu hwn yn unol â chanllawiau Trysorlys EF. Crynodeb o'r gweithdrefnau, y prosesau a'r strwythurau cymorth a gynhelir er mwyn rheoli'r adnoddau a roddir i mi gan Senedd y DU yn effeithiol.

Mae'r Comisiwn Etholiadol hefyd yn uniongyrchol atebol i Senedd Cymru a Senedd yr Alban mewn perthynas â chyflawni ei swyddogaethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban, yn dilyn diwygiadau i PPERA gan Ddeddf Etholiadau (Cymru) 2020 a Deddf Etholiadau'r Alban (Diwygio) 2020. Mae Pwyllgor y Llywydd a Chorff Corfforaethol Senedd yr Alban (SPCB) yn craffu ar y Comisiwn.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n atebol i Bwyllgor y Llywydd yn Senedd Cymru a Chorff Corfforaethol Senedd yr Alban yn yr un modd ag yr wyf yn atebol i Bwyllgor y Llefarydd.


O dan bwerau newydd yn Neddf Etholiadau 2022, bydd gan Bwyllgor y Llefarydd rôl ychwanegol wrth archwilio perfformiad y Comisiwn o ran rhoi sylw dyledus i'r Strategaeth a Datganiad Polisi sydd ar ddod.

# Atebolrwydd i seneddau'r DU a'n fframwaith llywodraethu mewnol

Noder, o 1 Ebrill 2023, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fydd enw newydd y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Caiff etholiadau yn y Deyrnas Unedig eu darparu drwy gymysgedd o bwerau datganoledig a phwerau a gadwyd yn ôl. Caiff etholiadau i Senedd y DU, ar gyfer llywodraeth leol yn Lloegr a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (yng Nghymru a Lloegr) ac etholiadau yng Ngogledd Iwerddon eu cadw gan Senedd y DU. Mae cyfrifoldeb am etholiadau seneddol a lleol yng Nghymru a'r Alban yn faterion datganoledig i'r seneddau priodol.

Ers 2021/22, mae'r Comisiwn Etholiadol wedi bod yn atebol i bob senedd am ein gwaith ar etholiadau o dan ei phwerau. Cawn ein hariannu gan bob senedd am y gwaith a wneir ar yr etholiadau cysylltiedig â chostau cyffredin, gan gynnwys rhannu gwaith a rhannu costau corfforaethol yn ôl y boblogaeth.



## Pwyllgor y Llefarydd

Sefydlir Pwyllgor y Llefarydd o dan Adran 2(1) i PPERA i gyflawni'r swyddogaethau a roddir iddo gan PPERA. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys:

- archwilio ein hamcangyfrifon adnoddau blynyddol a'u gosod gerbron Tŷ'r Cyffredin, gydag addasiadau neu hebddynt
- archwilio ein cynlluniau pum mlynedd a'u gosod gerbron Tŷ'r Cyffredin, gydag addasiadau neu hebddynt
- derbyn ein cyfrifon
- dynodi ein Swyddog Cyfrifyddu
- adrodd i Dŷ'r Cyffredin, o leiaf unwaith y flwyddyn, ar sut y gwnaethom gyflawni ein swyddogaethau

**Roedd aelodau Pwyllgor y Llefarydd rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 fel a ganlyn:**

- Y Gwir Anrhydeddus Syr Lindsay Hoyle AS, Llefarydd Tŷ'r Cyffredin (Cadeirydd)
- Y Gwir Anrhydeddus William Wragg AS, Cadeirydd y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol (tan fis Rhagfyr 2021)
- Y Gwir Anrhydeddus Clive Betts AS, Cadeirydd y Pwyllgor Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (o fis Rhagfyr 2021)
- Y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS, y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet a Changhellor Dugiaeth Caerhirfryn (tan fis Medi 2021 yn y rôl hon, yna o fis Rhagfyr 2021 fel yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau)
- Y Gwir Anrhydeddus Greg Clark AS, Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (Gorffennaf-Medi 2022)
- Y Gwir Anrhydeddus Paul Scully AS, y Gweinidog Llywodraeth Leol (Hydref 2022 yn unig)
- Andrew Stephenson, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (Hydref 2022 yn unig)
- Felicity Buchan AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (o fis Rhagfyr 2022)
- Lee Rowley, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (o fis Rhagfyr 2022)
- Simon Clarke AS, y Gweinidog Llywodraeth Leol (o fis Medi i fis Hydref 2022)

- Kemi Badenoch MP, y Gweinidog Ffyniant Bro (tan fis Gorffennaf 2022)
- Owen Thompson AS (Plaid Genedlaethol yr Alban)
- Karl McCartney AS (Ceidwadwyr) (tan fis Gorffennaf 2022)
- Craig Mackinlay AS (Ceidwadwyr)
- Cat Smith AS (Llafur) (Llefarydd y Pwyllgor o fis Hydref 2022)
- Rachel Hopkins AS (Llafur) (o fis Tachwedd 2022)
- Christian Matheson AS (Llafur) (Llefarydd y Pwyllgor) (tan fis Hydref 2022)

Mae'r pum aelod penodedig yn Aelodau o Dŷ'r Cyffredin nad ydynt yn Weinidogion. Llefarydd Tŷ'r Cyffredin sy'n gwneud y penodiadau hyn.

Bradley Albrow yw Clerc Pwyllgor y Llefarydd.

Cytunodd Pwyllgor y Llefarydd i'n Hamcangyfrif Cyflenwi (HC1385) gael ei osod gerbron Senedd y DU ar 18 Mai 2023.

## Pwyllgor y Llywydd

Mae gan Bwyllgor y Llywydd swyddogaethau tebyg, mewn perthynas â'n hatebolrwydd ariannol i Senedd Cymru, fel y mae Pwyllgor y Llefarydd yn ei wneud i Senedd y DU.

**Roedd aelodau Pwyllgor y Llywydd rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 fel a ganlyn:**

- David Rees AS, Dirprwy Lywydd (Llafur Cymru);
- Rhys ab Owen, Aelod o'r Senedd (Plaid Cymru)
- Llyr Gruffydd MS (Plaid Cymru)[1]
- Janet Finch-Saunders, Aelod o'r Senedd (Plaid Geidwadol Cymru)
- Peredur Owen Griffith AS (Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid)
- Joyce Watson, Aelod o'r Senedd (Llafur Cymru)

Cytunodd y Pwyllgor ar ein hamcangyfrif cyflenwi a gafodd ei gynnwys yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol 2023-24 a osodwyd gerbron Senedd Cymru ym mis Chwefror 2023 a'n hamcangyfrif atodol a osodwyd gerbron Senedd Cymru ym mis Mawrth 2023.

[1] Cymerodd le Rhys ab Owen ym mis Tachwedd 2022

## Corff Corfforaethol Senedd yr Alban

Mae Corff Corfforaethol Senedd yr Alban yn goruchwylio gweithrediad Senedd yr Alban ac yn cefnogi Aelodau o Senedd yr Alban (ASA) i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau seneddol. Mae hefyd yn ariannu nifer bach o gomisiynwyr seneddol a chyrff cysylltiedig, gan gynnwys gweithgareddau'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig yr Alban. Mae ei aelodaeth yn cynnwys:

- Y Gwir Anrhydeddus Alison Johnstone Llywydd (Cadeirydd)
- Maggie Chapman ASA (Plaid Werdd yr Alban)
- Jackson Carlaw ASA (Plaid Geidwadol ac Unoliaethol yr Alban)
- Claire Baker ASA (Llafur yr Alban)
- Christine Grahame ASA (Plaid Genedlaethol yr Alban)

Cytunodd y Pwyllgor ar ein hamcangyfrif cyflenwi ar gyfer 2022-23 ym mis Mawrth 2022 a'n hamcangyfrif atodol ym mis Tachwedd 2022.

# Bwrdd y Comisiwn a'r tîm arwain

## Bwrdd y Comisiwn

Mae Bwrdd y Comisiwn yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried ein cyfeiriad strategol a'n hamcanion, ac i adolygu ein perfformiad. Mae pob aelod o'n Tîm Gweithredol a staff perthnasol eraill yn mynychu cyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd.

Ei Fawrhydi y Brenin sy'n penodi ein Cadeirydd a'n Comisiynwyr ar argymhelliad Tŷ'r Cyffredin. Fel arfer, bydd Ei Fawrhydi yn penodi Comisiynwyr am gyfnod nad yw'n hwy na phedair blynedd yn y lle cyntaf, gyda'r posibilrwydd o'u hailbenodi.

Gall Comisiynydd beidio â gwasanaethu neu gael ei symud o'i swydd yn unol â'r seiliau a nodir yn Atodlen 1, paragraffau 3-5 o PPERA. Oni fydd Ei Fawrhydi yn ailbenodi'r Comisiynydd cyn i'w gyfnod ddod i ben, daw ei benodiad i ben ar ddiwedd y cyfnod penodol. Gall y Comisiynydd hefyd ofyn i'w benodiad gael ei derfynu.



Yn ystod 2022/2023, mae dau Gomisiynydd newydd wedi ymuno â ni, Roseanna Cunningham a Chris Ruane. Ailbenodwyd yr Arglwydd (Stephen) Gilbert yn Gomisiynydd yn 2022. Daeth cyfnodau Alasdair Morgan a Joan Walley i ben yn 2022. Penododd y Bwrdd Gynghorydd Annibynnol ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Sal Naseem, i gefnogi'r Bwrdd o fis Medi 2022.

Mae'r Cadeirydd yn gweithio dau ddiwrnod yr wythnos. Mae'r Comisiynwyr eraill yn treulio tri diwrnod y mis ar gyfartaledd yn cyflawni eu dyletswyddau.

Mae'r tabl dros y dudalen yn dangos y Comisiynwyr a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn, a nodir eu cyfnod yn y swydd. Mae Pwyllgor y Llefarydd wedi dechrau ystyried ailbenodi neu recriwtio i rolau Comisiynwyr, lle mae'r Comisiynydd wedi ymddiswyddo neu lle mae'n agosáu at ddiwedd ei gyfnod presennol yn y swydd.

**Comisiynwyr a wasanaethodd yn 2022/23**

| Enw | O | Tan |
|---|---|---|
| John Pullinger CB | 1 Mai 2021 | 30 Ebrill 2025 |
| Alex Attwood | 1 Chwefror 2021 | 31 Ionawr 2024 |
| Alasdair Morgan | 12 Mai 2014 | 30 Medi 2022 |
| Rob Vincent CBE | 1 Ionawr 2016 | 31 Rhagfyr 2023 |
| Y Fonesig Susan Bruce | 1 Ionawr 2017 | 31 Rhagfyr 2023 |
| Yr Athro Elan Closs Stephens DBE | 13 Mawrth 2017 | 12 Mawrth 2025 |
| Sarah Chambers | 31 Mawrth 2018 | 30 Mawrth 2026 |
| Dr Katy Radford MBE | 1 Medi 2021 | 31 Awst 2025 |
| Joan Walley | 1 Tachwedd 2018 | 31 Hydref 2022 |
| Yr Arglwydd (Stephen) Gilbert[2] | 1 Tachwedd 2018 | 31 Hydref 2026 |
| Roseanna Cunningham | 1 Hydref 2022 | 30 Medi 2026 |
| Chris Ruane | 1 Tachwedd 2022 | 31 Hydref 2026 |

Yn ystod y flwyddyn, dirprwyodd y Bwrdd weithgareddau penodol i'r Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol.

## Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cefnogi'r Swyddog Cyfrifyddu wrth gyflawni ei gyfrifoldebau atebolrwydd ffurfiol ac i roi sicrwydd i'r Bwrdd ar gyflawni'r cyfrifoldebau hyn.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnig cyngor gwrthrychol ac yn sicrhau bod y prosesau mwyaf effeithlon, effeithiol a darbodus ar waith ar gyfer risg, rheoli a

[2] Y Barwn Gilbert o Banteg (yr Arglwydd (Stephen) Gilbert)

llywodraethu. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd yn gweithredu ar ran y Bwrdd i roi sicrwydd iddo ar faterion o'r fath.

**Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn adolygu'r canlynol:**

- y prosesau strategol ar gyfer risg, rheoli a llywodraethu
- y gweithgarwch a gynlluniwyd a'r canlyniadau o fewn prosesau llywodraethu gwybodaeth a'r Asesiad Blynyddol o Reoli Risg Gwybodaeth
- y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a chymeradwyaeth a argymhellir o'r Datganiad gan y Swyddog Cyfrifyddu fel sy'n briodol
- y polisïau cyfrifyddu a'r cyfrifon blynyddol, yn cynnwys y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio; lefelau'r gwallau a nodwyd; a llythyr sylwadau'r rheolwyr i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol
- cynlluniau ac adroddiadau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac ymatebion rheoli i unrhyw gynigion, yn ogystal â chytuno ar y cynlluniau strategol a'r cynlluniau archwilio mewnol blynyddol
- sicrwydd yn ymwneud â'n gofynion llywodraethu corfforaethol, yn cynnwys cymeradwyo polisïau chwythu'r chwiban, atal twyll, atal llwgrwobrwyo, ac awdurdodi ceisiadau am dreuliau, gyda chyfle i godi ymholiadau gyda'r Bwrdd
- cynigion ar gyfer tendro am wasanaethau Archwilio Mewnol, neu ar gyfer prynu gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio oddi wrth gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio

Ffocws y Pwyllgor Archwilio a Risg yw adolygu risg a rheolaeth y sicrwydd a dderbynnir ganddo a digonolrwydd trefniadau sicrwydd eu hunain.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnwys tri Chomisiynydd a benodir gan y Bwrdd ac mae'n ofynnol iddo gyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cymeradwyo penodiad cynghorydd annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio a Risg, sef unigolyn annibynnol â chymwysterau addas heb unrhyw gysylltiad â'r Comisiwn Etholiadol. Mae gan y cynghorydd annibynnol hawl i fynychu unrhyw un o gyfarfodydd y Comisiynwyr.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn rhannu cofnodion y cyfarfodydd â'n Bwrdd ac yn cyflwyno adroddiadau ffurfiol iddo'n flynyddol.

Yn 2022/23, ystyriodd y Pwyllgor Archwilio a Risg y cyfrifon blynyddol a gwaith sicrwydd atodol, yr adolygiad o gydymffurfiaeth ddeddfwriaethol, a derbyniodd adroddiadau archwilio ar ein systemau ariannol craidd.

Bydd aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Risg fel arfer yn gwasanaethu am dair blynedd, oni fydd aelod yn rhoi'r gorau i fod yn Gomisiynydd neu'n gofyn am gael ymddiswyddo. Gall y Bwrdd eu hailbenodi am gyfnod pellach nad yw'n fwy na thair blynedd fel arfer.

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23 oedd y Fonesig Sue Bruce. Y cynghorydd annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio a Risg yw Paul Redfern.

**Aelodau'r Pwyllgor yn ystod yr un cyfnod oedd:**

- Y Fonesig Susan Bruce, Cadeirydd
- Yr Athro Elan Closs Stephens DBE
- Yr Arglwydd (Stephen) Gilbert

**Adolygiadau o adroddiadau archwilio**

Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Risg raglen o archwiliadau ac adolygiadau ar gyfer 2022/23 ac aeth ati i'w monitro. Mae'r Pwyllgor yn adolygu adroddiadau archwilio allanol a mewnol, ac yn monitro pa argymhellion a dderbynnir gan y staff a sut maent yn eu rhoi ar waith. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd yn bodloni'i hun bod rhesymau dilys dros wrthod argymhellion.

Cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio a Risg bum cyfarfod yn ystod 2022/23. Mae'r archwilwyr mewnol ac allanol yn mynychu pob cyfarfod fel mater o drefn ochr yn ochr â staff, gan gynnwys y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol. Wrth symud ymlaen, bydd y pwyllgor yn cael ei adnabod fel y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

## Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol yn cynnwys tri Chomisiynydd ac mae'n cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn.

Mae'n cefnogi'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu yn eu cyfrifoldebau ar gyfer newidiadau sylweddol i delerau ac amodau staff, adolygu polisi cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr, cytuno ar gylch gwaith cyd-drafod blynyddol dyfarniad cyflog y staff a phennu'r ffi ar gyfer cynghorydd annibynnol y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn gweithredu fel grŵp cynghori ar y graddau y mae datblygiad sefydliadol a materion adnoddau dynol yn ategu cyfeiriad strategol y Bwrdd ar gyfer ein sefydliad.

Mae'r aelodau yn gwasanaethu am dair blynedd, oni fydd aelod yn rhoi'r gorau i fod yn Gomisiynydd neu'n gofyn am gael ymddiswyddo. Gall y Bwrdd eu hailbenodi am gyfnod pellach nad yw'n fwy na thair blynedd fel arfer.

**Aelodau'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol yn ystod 2022/23 oedd:**

- Rob Vincent CBE, Cadeirydd
- Joan Walley (tan fis Gorffennaf 2022)

- Sarah Chambers
- Katy Radford MBE (o fis Tachwedd 2022)

Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith a thrafod ein strategaeth pobl, cyflogau, rheoli perfformiad, y strategaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth, risgiau recriwtio a chadw, a chanlyniadau'r arolwg staff.

## Adolygiad o berfformiad y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn ystod 2022/23

Nod blaenraglen o gyfarfodydd y Bwrdd yw ymgysylltu ar lefel strategol, yn hytrach na gweithredol, gan wahodd cyfraniad effeithiol a her ar adeg briodol. Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiodd y Bwrdd ar y gweithgareddau canlynol:

- Adolygu'r ffordd y gweinyddwyd yr etholiadau ym mis Mai 2022
- Adolygu'r cynlluniau gweithredu ar gyfer y diwygiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Etholiadau 2022
- Ystyried yr atebolrwydd ychwanegol sy'n deillio o'r ddyletswydd newydd i ystyried Strategaeth a Datganiad Polisi a ddynodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, a chyflwyno ymateb i ymgynghoriad y Llywodraeth ar Ddatganiad drafft
- Goruchwylio'r gwaith o gynllunio'r gyllideb a datblygu'r Prif Amcangyfrif a'r Amcangyfrifon Atodol
- Adolygu cynlluniau ymwybyddiaeth y cyhoedd ar gyfer etholiadau mis Mai 2023 a chyflwyno ID Pleidleisiwr
- Ystyried argymhellion y Cynghorydd Annibynnol ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a ffyrdd y gallai'r Bwrdd gefnogi'r meysydd hynny a'u gwella
- Ystyried gwaith y Comisiwn ar foderneiddio etholiadau, yn enwedig o ran gwella prosesau cofrestru a phleidleisio, a chynyddu gwydnwch a chyfranogiad
- Adolygu safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol
- Ystyried y drafft diwygiedig o'r Polisi Gorfodi sy'n destun ymgynghoriad
- Ystyried cylch cyflog y Comisiwn ar gyfer 2022/2023
- Cau'r prosiect Cyllid Gwleidyddol Ar-lein

Cynhaliodd y Bwrdd sesiynau manwl am y materion canlynol:

- Rheoli risg
- Sganio'r gorwel am ddatblygiadau a thueddiadau newydd sy'n berthnasol i weithgareddau'r Comisiwn

Yn ogystal â chyfarfodydd y Bwrdd, cynhaliodd y Bwrdd ddigwyddiadau oddi ar y safle yn Belfast a Chorley yn 2022/2023. Yn y digwyddiad, a gynhaliwyd gan Brifysgol y Frenhines ym Melfast ym mis Hydref, cyfarfu'r Bwrdd ag ymgeiswyr pleidiau a'r heddlu i drafod achosion o godi ofn ar ymgeiswyr. Cyfarfu hefyd â sawl grŵp cymdeithas sifil.

Teithiodd y Bwrdd i Chorley i gyfarfod â Llefarydd Tŷ'r Cyffredin a chyfarfu â gweinyddwyr etholiadau, cynghorwyr, a grwpiau ieuenctid ac anabledd lleol.

Yn y ddau ddigwyddiad, cafodd y Bwrdd gyflwyniadau academaidd ar ymchwil am gyfranogiad pleidleiswyr gan academyddion o Brifysgol y Frenhines a Phrifysgol Lerpwl.

Adolygodd y Pwyllgor Archwilio a Risg, yn ogystal â'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol, eu gwaith yn ystod y flwyddyn ac adrodd i'r Bwrdd. Gwnaethant roi sicrwydd bod eu dyletswyddau yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

Mae'r Bwrdd o'r farn bod ansawdd y data yn dderbyniol. Y pedwar prif gategori o ddata yw:

- data ar farn y cyhoedd o arolygon a gynhelir gan asiantaethau ymchwil annibynnol ag enw da gan ddefnyddio dulliau tryloyw
- data ar etholiadau a chofrestru a gesglir yn uniongyrchol gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau, yn cynnwys ffigurau ar bleidleisio drwy'r post a nifer y bobl a bleidleisiodd
- data ar gywirdeb a chyflawnrwydd a gaiff eu llunio gan ddefnyddio methodoleg gadarn wedi'i datblygu'n dda o waith maes gan asiantaeth ymchwil annibynnol
- data ariannol a roddir i'r tîm gweithredol, a dynnir o'r prif gyfriflyfr cyffredinol ac a ddadansoddir mewn adroddiadau rheoli; mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd drwy ein rheolaethau ariannol, sy'n destun camau craffu rheoli rheolaidd ac archwiliadau mewnol ac allanol

Mae'r tabl isod yn dangos presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn ystod 2022/23 (nodir y presenoldeb uchaf posibl mewn cromfachau).

**Presenoldeb y Bwrdd a'r Pwyllgorau 2022/23**

| Enw | Bwrdd y Comisiwn | Y Pwyllgor Archwilio a Risg | Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol |
|---|---|---|---|
| John Pullinger CB (Cadeirydd) | 10/(10) | - | - |
| Y Fonesig Susan Bruce | 9/(10) | 5/(5) | - |
| Alex Attwood | 10/(10) | - | - |
| Sarah Chambers | 10/(10) | - | 4/(4) |
| Yr Athro Elan Closs Stephens DBE | 9/(10) | 5/(5) | - |
| Yr Arglwydd (Stephen) Gilbert | 10/(10) | 5/(5) | - |
| Alasdair Morgan | 5/(5) | 3/(3) | - |
| Dr Katy Radford MBE | 10/(10) | - | 2/(2) |
| Rob Vincent CBE | 10/(10) | - | 4/(4) |
| Joan Walley | 6/(6) | - | 2/(2) |
| Roseanna Cunningham | 5/(5) | - | - |
| Chris Ruane | 4/(4) | - | - |

## Prif Weithredwr

Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am ein sefydliad yn gyffredinol, gan gynnwys rheoli, staffio a materion ariannol, ymddygiad a disgyblaeth. Cafodd Shaun McNally ei benodi'n Brif Weithredwr newydd ar 1 Ebrill 2022.

## Tîm Gweithredol

Mae ein Pwyllgor Gweithredol, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a rhai aelodau o'r Uwch-dîm Arwain, yn cyfarfod yn ffurfiol unwaith y mis i reoli'r gwaith o gyflawni amcanion y sefydliad yn unol â'r cyfeiriad strategol a bennir gan ein Bwrdd. Mae'n mynd i'r afael â materion a risgiau parhaus. Mae'r Tîm Gweithredol, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr, yn cyfarfod bob wythnos i drafod materion cyfredol a chydgysylltu gweithgareddau gofynnol.

Mae gan y Cyfarwyddwyr awdurdod dirprwyedig i reoli'r Comisiwn o ddydd i ddydd gyda'r Prif Weithredwr. Caiff y dirprwyaethau hyn eu pennu, eu cofnodi a'u hadolygu'n ffurfiol yn flynyddol.

Bydd y Tîm Gweithredol yn cael adroddiadau misol ar berfformiad, cyllid a rheoli risg ar draws y sefydliad ac ar gynnydd o ran prosiectau a mentrau allweddol. Yn ogystal â thrafodaethau anffurfiol cyson, bydd y Prif Weithredwr yn cyfarfod â phob aelod o'r Tîm Gweithredol o leiaf unwaith y mis i adolygu a herio perfformiad gweithredol ac ariannol.

**Roedd aelodau'r Pwyllgor yn ystod 2022/23 fel a ganlyn:**

- Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu: Shaun McNally
- Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol: Kieran Rix
- Cyfarwyddwr Rheoleiddio: Louise Edwards
- Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Polisi ac Ymchwil: Craig Westwood
- Cyfarwyddwr Gweinyddu Etholiadau a Chanllawiau: Ailsa Irvine

Bydd y Cwnsler Cyffredinol hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredol a'r Tîm Gweithredol, yn ogystal â chyfarfodydd y Bwrdd.

Gadawodd Kieran Rix y sefydliad ar 30 Ebrill 2023 ac mae Cyfarwyddwr Cyllid dros dro, David Moran, wedi cael ei benodi o 24 Ebrill 2023 wrth i'r gwaith o recriwtio Cyfarwyddwr newydd gael ei ystyried.

# Y strwythur sefydliadol ar 31 Mawrth 2023

**Prif Swyddog Gweithredol**
Shaun McNally

- **Cyfarwyddwr Gweinyddu Etholiadau a Chanllawiau** – Ailsa Irvine
  - Canllawiau
  - Swyddfa Gogledd Iwerddon
  - Swyddfa'r Alban
  - Swyddfa Cymru
  - Cymorth a Gwelliant
- **Cyfarwyddwr Rheoleiddio** – Louise Edwards
  - Monitro a Gorfodi
  - Cofrestru ac Adrodd
  - Cymorth Rheoleiddio
- **Cwnsler Cyffredinol** – Binnie Goh
  - Cyfreithiol
  - Llywodraethu
- **Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol**
  - Adnoddau Dynol
  - Cynllunio a Pherfformiad Strategol
  - Cyllid
  - Prosiectau
  - Digidol, Data, Technoleg a Chyfleusterau
- **Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Polisi ac Ymchwil** – Craig Westwood
  - Cyfathrebu Allanol
  - Ymgyrchoedd a Hunaniaeth Gorfforaethol
  - Ymchwil a Gwerthuso
  - Cyfathrebu Digidol a Dysgu
  - Polisi

# Rheoli risg, rheolaeth fewnol a sicrwydd

Rydym yn cynnal ac yn adolygu effeithiolrwydd ein fframwaith rheoli drwy'r trefniadau isod.

## Llywodraethu corfforaethol

Mae'r Bwrdd yn adolygu ein fframwaith llywodraethu corfforaethol yn flynyddol, gan sicrhau ein bod yn mabwysiadu'r arferion gorau. Y tîm Cyfreithiol a Llywodraethu sy'n gyfrifol am weithredu'r cynllun llywodraethu corfforaethol er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi egwyddorion y fframwaith ar waith yn llawn.

## Rheoli risg

Rydym wedi cynllunio ein prosesau rheoli risg er mwyn:

- cynnal fframwaith clir ym mhob rhan o'r sefydliad lle y caiff bygythiadau a chyfleoedd eu nodi, eu hasesu, eu rheoli a'u hadolygu'n rheolaidd yn unol â chanllawiau'r sefydliad ar barodrwydd i dderbyn risg
- neilltuo cyfrifoldeb penodol am reoli risgiau yn eu meysydd cyfrifoldeb i aelodau unigol o'r Tîm Gweithredol (gan gynnwys rheoli risgiau i brosiectau sylweddol)
- sicrhau y caiff tebygolrwydd ac effaith risgiau eu hasesu'n gyson
- sicrhau y caiff risgiau sydd eisoes yn bodoli eu hadolygu'n rheolaidd, ac y caiff risgiau newydd eu nodi a'u rheoli
- sicrhau'r Prif Weithredwr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Bwrdd fod y risgiau'n cael eu rheoli'n briodol

Rydym yn nodi ac yn gwerthuso risgiau drwy wneud y canlynol:

- gwneud pob penderfyniad allweddol ar ôl ystyried risgiau a mesurau lliniaru cysylltiedig a nodir ar wahân mewn papurau ar gyfer y Bwrdd a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau dirprwyedig
- mae'r Tîm Gweithredol yn ystyried a ddylai risgiau newydd gael eu hychwanegu at y gofrestr risg sefydliadol, a ph'un a oes angen newid proffiliau risgiau sydd eisoes yn bodoli, fel rhan o'i adolygiad chwarterol o risg
- mae'r Tîm Gweithredol yn cwblhau adolygiad llawn a chynhwysfawr o risg ar ddechrau pob blwyddyn er mwyn sicrhau bod y gofrestr risg sefydliadol yn nodi'r risg o ran cyflawni nodau yn ein Cynllun Corfforaethol
- cyflwyno adroddiad llawn ar risg i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg a hefyd yn flynyddol i'r Bwrdd

- rheolwyr a staff yn nodi risgiau yn eu prosiectau neu eu meysydd gwaith
- nodi risg drwy ein proses gynllunio, archwiliadau, adolygiad o weithrediadau a gweithgareddau hyfforddi
- pennu perchnogion risgiau sy'n mynd ati'n ffurfiol i adolygu eu tebygolrwydd, eu heffaith bosibl a'r camau lliniaru sydd ar waith bob chwarter ac a adolygir gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Roedd y risgiau strategol a gafodd eu monitro a'u rheoli gennym yn 2022/23 fel a ganlyn:

**Digwyddiadau gwleidyddol yn tarfu**

Mae sawl achos posibl i'r risg hon, gan gynnwys diffyg paratoi ar gyfer digwyddiadau etholiadol annisgwyl, a/neu gyfreithiau neu reoliadau newydd, sy'n cael effaith negyddol ar ein perfformiad, er na ddigwyddodd hyn yn 2022/23. Gallai'r effeithiau posibl pe bai'r risg hon yn digwydd gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Niwed i enw da
- Torri rheolau ariannol neu reolau eraill gan arwain at ddirwyon ariannol sylweddol a/neu gamau gweithredu eraill
- Colli cefnogaeth y cyllidwyr seneddol,, cefnogaeth ariannol neu fel arall
- Ni chaiff manteision cynlluniedig ar gyfer pleidleiswyr neu'r Comisiwn yn gorfforaethol eu gwireddu
- Nid yw systemau corfforaethol allweddol ar gael neu maent yn tanberfformio

Y gweithgareddau lliniaru allweddol yr ymgymerwyd â nhw oedd:

- Cwblhawyd adolygiad o gynlluniau wrth gefn
- Cafodd y strategaeth monitro ymgyrchoedd sydd ar waith ar gyfer digwyddiadau pleidleisio yn y dyfodol ei diweddaru yn ystod y cyfnod cyn etholiad cyffredinol er mwyn integreiddio unrhyw newidiadau gofynnol.
- Goruchwyliodd y grŵp llywio cynnal digwyddiadau ein gwaith mewn perthynas â digwyddiadau etholiadol, gan gynnwys sicrhau bod cynlluniau wrth gefn cadarn ar waith ar gyfer digwyddiadau etholiadol wedi'u trefnu a rhai annisgwyl.
- Cefnogwyd etholiadau mis Mai 2022, gan gynnwys cynllunio senarios er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynnal yn ddiogel yng nghyd-destun pandemig y coronafeirws.

**Methu â chefnogi'r gwaith o gynnal etholiadau effeithiol**

Mae sawl rheswm posibl y gallai'r risg hon ddigwydd gan gynnwys darparu canllawiau aneglur neu wybodaeth annigonol i bleidleiswyr am brosesau etholiad, er na ddigwyddodd

hyn yn 2022/23. Gallai'r effeithiau posibl pe bai'r risg hon yn digwydd gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Canllawiau a lunnir gan y Comisiwn yn anghywir neu'n cael eu camddehongli
- Ni chaiff canllawiau eu cyflwyno mor gyflym ag y byddai rhanddeiliaid yn ei ddymuno
- Effaith negyddol ar gefnogaeth y gymuned etholiadol i'r Comisiwn
- Lleihad yn lefel yr ymddiriedaeth a'r hyder yn y broses o gynnal etholiadau a niwed i enw da'r Comisiwn
- Oedi wrth gofrestru pleidiau newydd yn agos at yr etholiadau
- Nid oes gwybodaeth ar gael i bleidleiswyr, ymgyrchwyr na gweinyddwyr etholiadau
- Ni all staff y Comisiwn roi cyngor cyson ac amserol
- Nid oes gan y Comisiwn yr adnoddau i fonitro ymgyrchoedd ac achosion posibl o dorri rheolau yn ddigonol, yn enwedig ar y cyfryngau cymdeithasol

Y gweithgareddau lliniaru allweddol yr ymgymerwyd â nhw oedd:

- Cyfarfu'r Grŵp Llywio Cynnal Digwyddiadau yn rheolaidd i adolygu, monitro a lliniaru risgiau a materion mewn perthynas ag etholiadau mis Mai
- Cynhaliwyd trefniadau cymeradwyo cadarn ar gyfer cymeradwyo ceisiadau i gofrestru pleidiau
- Cafodd dull effeithiol o gefnogi a herio awdurdodau lleol i gynnal digwyddiadau pleidleisio llwyddiannus ei ddatblygu a'i roi ar waith
- Cynhaliwyd ymgynghoriad eang ond penodol ar ganllawiau craidd
- Sefydlwyd cynlluniau wrth gefn a chynlluniau adfer mewn trychineb cadarn
- Cwblhawyd adolygiad o gynlluniau wrth gefn

**Methu â rheoleiddio cyllid gwleidyddol.**

Mae sawl rheswm posibl y gallai'r risg hon ddigwydd gan gynnwys methiant y Comisiwn i gyflawni ei swyddogaeth reoleiddio yn gywir neu'n effeithiol, neu ganfyddiad ei fod wedi methu â gwneud hynny Gallai'r effeithiau posibl pe bai'r risg hon yn digwydd gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: Gallai'r effeithiau posibl pe bai'r risg hon yn digwydd gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Llai o hyder ymhlith y cyhoedd yn y ffordd y caiff pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau eu hariannu a'u gweithgarwch ymgyrch

- Ni chaiff y Comisiwn ei ystyried yn sefydliad teg a thryloyw, neu ystyrir ei fod yn rhagfarnllyd
- Ni all y Comisiwn reoleiddio'n effeithiol
- Mae ymgyrchwyr yn ansicr ynghylch y gyfraith gyfredol a newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r Bil Etholiadau
- Mae ymgyrchwyr yn ansicr ynghylch y gyfraith gyfredol a newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r Bil Etholiadau

Y gweithgareddau lliniaru allweddol yr ymgymerwyd â nhw oedd:

- Mae gan y timau Rheoleiddio a Chyfreithiol ddigon o adnoddau
- Gwiriwyd cydymffurfiaeth a chyhoeddwyd ffurflenni rhoddion a benthyciadau a Datganiadau o Gyfrifon
- Adroddiadau llawn mewn achosion effaith uchel
- Caiff pob gweithdrefn ei dogfennu yn y System Rheoli Ansawdd
- Cyhoeddwyd penderfyniadau ar achosion unigol
- Cyhoeddwyd canllawiau ac adnoddau i ymgeiswyr ac asiantiaid ar gyfer etholiadau ym mis Mai 24
- Prosesau rheoli ansawdd cadarn

**Methu â rheoli agweddau ariannol a masnachol**

Mae sawl rheswm posibl y gallai'r risg hon ddigwydd gan gynnwys camreoli ein cyllideb neu ein cydberthnasau masnachol. Gallai'r effeithiau posibl pe bai'r risg hon yn digwydd gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Gwerth gwael am arian
- Ystyrir bod y Comisiwn yn aneffeithlon
- Gellid ystyried bod ein cyfrifon wedi methu â dilyn canllawiau Rheoli Arian Cyhoeddus
- Mae'r Comisiwn yn methu â bodloni ei ofynion busnes neu ei amcanion

Y gweithgareddau lliniaru allweddol yr ymgymerwyd â nhw oedd:

- Cyflwynwyd Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol (yr adran ar berfformiad)
- Cwblhawyd a chyflwynwyd y Bleidlais ar Gyfrif 2022/23
- Cwblhawyd y Prif Amcangyfrif a'r Amcangyfrif Atodol 2023/24

- Cwblhawyd a chyflwynwyd ein cyllidebau
- Cymhwyswyd polisi caffael y Comisiwn
- Dechreuwyd prosiect i roi ein Cynllun Gwella Cyllid ar waith

**Adnoddau, sgiliau neu amrywiaeth staff yn annigonol**

Mae sawl rheswm posibl y gallai'r risg hon ddigwydd gan gynnwys prinder staff neu ddiffyg sgiliau neu amrywiaeth. Gallai'r effeithiau posibl pe bai'r risg hon yn digwydd gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

Gallai'r effeithiau posibl pe bai'r risg hon yn digwydd gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Niwed i enw da
- Ansawdd gwasanaethau i'r cyhoedd yn lleihau
- Lefelau staffio annigonol yn arwain at fethu â bodloni gofynion neu amcanion busnes
- Staff sy'n gweithio mewn meysydd eraill yn cael eu hadleoli i gwmpasu'r swyddogaeth gwybodaeth i'r cyhoedd
- Llai o gapasiti i ddarparu cyngor a chynnal rhwydweithiau rhanddeiliaid
- Ystyrir bod y Comisiwn yn aneffeithlon

Y gweithgareddau lliniaru allweddol yr ymgymerwyd â nhw oedd:

- Recriwtio drwy asiantaethau cyflogaeth er mwyn llenwi bylchau staffio
- Cefnogwyd cyfleoedd dysgu a datblygu'r gweithlu drwy ddarparu cyrsiau hyfforddi allanol amrywiol
- Cyfarfu'r grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn rheolaidd
- Cyflwynwyd digwyddiadau ymgyrchu mewn perthynas ag amrywiaeth
- Eiriolwyd ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Dechreuwyd prosiect i roi ein Strategaeth Pobl ar waith

**Technoleg yn methu**

Mae sawl rheswm posibl y gallai'r risg hon ddigwydd gan gynnwys problemau technegol sy'n amharu ar y broses o gyflawni ein gwaith. Gallai'r effeithiau posibl pe bai'r risg hon yn digwydd gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Niwed i enw da
- Staff y Comisiwn yn methu ag ymgymryd â gwaith na'i ddatblygu
- Colli mynediad at wybodaeth
- Torri diogelwch gwybodaeth
- Y Comisiwn methu â darparu arweiniad a chymorth i'r gymuned reoleiddio
- Y Comisiwn yn cael ei feirniadu am beidio â chyflawni ei swyddogaethau

Y gweithgareddau lliniaru allweddol yr ymgymerwyd â nhw oedd:

- Gweithiwyd tuag at sicrhau parhad busnes
- Cymerwyd camau i gynnal a gwella ymarferoldeb a chynnwys y wefan



- Cynhaliwyd profion seiberddiogelwch a sicrhawyd cydymffurfiaeth
- Cyflwynwyd prosiect i roi ein Cynllun Moderneiddio Technoleg ar waith er mwyn moderneiddio seilwaith technegol y Comisiwn drwy ei uwchraddio a'i symud i wasanaeth cwmwl a reolir yn allanol
- Dechreuwyd prosiect i uwchraddio SharePoint Online ac ailddylunio ein mewnrwyd

### Digwyddiad allweddol: ymosodiad seiber cymhleth yn 2022/23

Yn ystod 2022/23 roedd y Comisiwn Etholiadol yn destun ymosodiad seiber cymhleth. Cafodd y digwyddiad ei nodi ym mis Hydref 2022 ar ôl canfod gweithgarwch amheus. Buom yn gweithio gydag arbenigwyr diogelwch allanol a'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol i ymchwilio a diogelu ein systemau. Fe wnaethom hefyd riportio'r digwyddiad i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) o fewn 72 awr o nodi'r toriad.

Ar adeg yr ymosodiad seibr, roedd y Comisiwn yn dal cofrestrau etholiadol ar gyfer Prydain Fawr rhwng 2014 a 2022, ac ar gyfer Gogledd Iwerddon ar gyfer 2018. Mae hyn yn golygu roedd y data canlynol yn hygyrch:

- enw a chyfeiriad unrhyw un ym Mhrydain Fawr a gofrestrodd i bleidleisio rhwng 2014 a 2022,
- enwau'r rheiny a gofrestrodd fel pleidleiswyr tramor rhwng 2014 a 2018
- enwau a chyfeiriadau unrhyw un a gofrestrodd yng Ngogledd Iwerddon yn 2018

Nid oedd y cofrestrau’n cynnwys manylion y rhai a gofrestrodd yn ddienw.
Hefyd yn hygyrch oedd unrhyw fanylion a ddarparwyd i ni drwy e-bost neu drwy ffurflenni cyswllt ar-lein.

Gwnaethom gyhoeddi hysbysiad cyhoeddus ynghylch yr ymosodiad seiber ar 8 Awst 2023. Mae'r ICO yn ymchwilio i'r digwyddiad ar hyn o bryd.

Rydym wedi dysgu gwersi o'r digwyddiad hwn sydd wedi ein galluogi i wneud gwelliannau i ddiogelwch, gwytnwch, a dibynadwyedd systemau TG y Comisiwn.

Mae'n ddrwg gennym nad oedd amddiffyniadau digonol ar waith i atal yr ymosodiad seiber hwn. Ers ei nodi, rydym wedi cymryd camau sylweddol, gyda chefnogaeth arbenigwyr, i wella diogelwch, gwydnwch a dibynadwyedd ein systemau TG. Mae hyn yn cynnwys: cymryd camau i ddiogelu ein systemau rhag ymosodiadau yn y dyfodol, gwella amddiffyniadau o amgylch data personol, cryfhau gofynion mewngofnodi rhwydwaith, gwella systemau monitro a rhybuddio a diweddaru polisïau waliau tân.

Rydym wedi gweithio gyda'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC) o'r cychwyn cyntaf. Fe wnaethon ni gomisiynu arbenigwyr a argymhellwyd gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol i nodi achos y digwyddiad a'n cefnogi i ddod â'r ymosodiad i ben. Roedd yr ymchwiliad a'i ganfyddiadau yn cyflwyno argymhellion clir, y mae'r Comisiwn wedi'u gweithredu.

### Penderfyniad allweddol: Prosiect rhoi’r gorau i dechnoleg

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd adolygiad o'r prosiect Cyllid Cyhoeddus Ar-lein. Daeth yr adolygiad hwn i'r casgliad nad oedd y prosiect technoleg bellach yn debygol o ddarparu'r gwerth gofynnol am arian, a gwnaed y penderfyniad i roi'r gorau i'r prosiect gan arwain at amhariad o £1,779,250.

Mae'r penderfyniad hwn yn unol â'n rhwymedigaethau o dan Rheoli Arian Cyhoeddus, gan mai'r gwerth gorau am arian a'r opsiwn mwyaf ymarferol i'w gyflawni oedd rhoi'r gorau i weithio ar y prosiect presennol ac ystyried dulliau technolegol a dulliau prosiect gwahanol o gyflwyno gan ddefnyddio ein straeon defnyddwyr presennol.

Gweler hefyd taliadau ofer ar dudalen 127.

### Methu â chynnal cydberthnasau â rhanddeiliaid

Mae sawl rheswm posibl y gallai'r risg hon ddigwydd gan gynnwys prosesau ymgysylltu gwael â rhanddeiliaid neu beidio â diwallu anghenion rhanddeiliaid. Gallai'r effeithiau posibl pe bai'r risg hon yn digwydd gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Niwed i enw da
- Niweidio cydberthnasau â rhanddeiliaid
- Cyrhaeddiad ac effaith gwaith y Comisiwn wedi'u cyfyngu
- Cyrhaeddiad gwaith gyda grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol wedi'i gyfyngu

Y gweithgareddau lliniaru allweddol yr ymgymerwyd â nhw oedd:

- Gwnaethom feithrin partneriaethau newydd â grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol, a datblygu rhai presennol
- Gwnaethom feithrin partneriaethau â phartneriaid addysg a chynhyrchu adnoddau addysg ar gyfer pobl ifanc
- Gwnaethom gyfathrebu â phleidleiswyr mewn perthynas ag etholiadau mis Mai 2023
- Gwnaethom rannu'r newidiadau etholiadol a ddeddfwyd gan y Bil Etholiadau

**Niwed i asedau ffisegol**

Mae sawl achos posibl y gallai'r risg hon ddigwydd gan gynnwys rheoli diogelwch mewn ffordd aneffeithiol neu aneffeithlon. Gallai'r effeithiau posibl pe bai'r risg hon yn digwydd gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Ni all y Comisiwn ddiwallu anghenion busnes
- Diffyg cydymffurfiaeth â rheolau iechyd a diogelwch yn y gwaith yn achosi niwed i gyflogeion, contractwyr, defnyddwyr gwasanaethau neu'r cyhoedd, neu'n peri iddynt ddioddef mewn rhyw ffordd
- Torri diogelwch data neu eu colli
- Niwed i enw da

Y gweithgareddau lliniaru allweddol yr ymgymerwyd â nhw oedd:

- Cynhaliwyd asesiadau cynlluniedig o risgiau diogelwch ffisegol
- Darparwyd cyngor ar ddiogelwch ar ein mewnrwyd
- Sicrhawyd bod polisïau diogelwch a rheoli gwybodaeth ar waith
- Polisïau iechyd a diogelwch ar gael ar y fewnrwyd
- Rhaglen Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl

**Gweithdrefnau annigonol**

Mae sawl achos posibl y gallai'r risg hon ddigwydd gan gynnwys methu â diweddaru neu reoli gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ac yn effeithiol i osgoi tarfu ar waith y Comisiwn, er na ddigwyddodd hyn yn 2022/23. Gallai'r effeithiau posibl pe bai'r risg hon yn digwydd gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Niwed i weithrediadau ac enw da'r Comisiwn
- Ni chaiff anghenion rhanddeiliaid eu diwallu

- Sicrwydd annigonol a phrosesau annigonol ar gyfer rheoli prosiectau, gan arwain at broblemau o ran costau, amseroldeb ac elfennau i'w cyflawni
- Gwasanaeth diffygiol i gwsmeriaid (ansawdd a/neu swm y gwasanaethau)
- Torri dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus
- Gwallau mewn gwaith a gynhyrchir gan y tîm a drosglwyddir i gyhoeddiadau allanol

Y gweithgareddau lliniaru allweddol yr ymgymerwyd â nhw oedd:

- Addaswyd prosesau cynllunio corfforaethol
- Crëwyd prosesau cyfreithiol newydd ar gyfer adfer costau ymgyfreitha a chosbau nas talwyd
- Darparwyd cymorth ac arweiniad ar gyfer prosiectau
- Prosesau sicrhau ansawdd cadarn
- Prosesau trylwyr ar gyfer cynllunio a rheoli prosiectau

**Niwed i enw da**

Mae sawl rheswm posibl y gallai'r risg hon ddigwydd gan gynnwys tuedd honedig, perfformiad gwael neu ddiffyg cynhyrchiant, er na ddigwyddodd hyn yn 2022/23. Gallai'r effeithiau posibl pe bai'r risg hon yn digwydd gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Chwalu ymddiriedaeth a chydberthnasau â rhanddeiliaid
- Sylw negyddol yn y cyfryngau
- Ymgyfreithiad posibl
- Honiadau o duedd
- Tanseilio penderfyniad y Comisiwn

Y gweithgareddau lliniaru allweddol yr ymgymerwyd â nhw oedd:

- Adolygwyd a diweddarwyd tudalennau Bwrdd y Comisiwn ar y wefan allanol
- Cynhaliwyd y swyddogaeth gwyno
- Cwblhawyd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Gweler Methiant Technoleg. Digwyddiad allweddol: ymosodiad seiber cymhleth yn 2022/23, tudalen 91.

**Methu â chydymffurfio â'r gyfraith**

Mae sawl rheswm posibl y gallai'r risg hon ddigwydd gan gynnwys methu â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau'r DU a'r pedair gwlad, er na ddigwyddodd hyn yn 2022/23. Gallai'r effeithiau posibl pe bai'r risg hon yn digwydd gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Gallai'r Comisiwn gael ei gosbi a gallai rhanddeiliaid fynegi pryderon ynglŷn â diffyg cydymffurfiaeth
- Niwed i enw da
- Ymgyfreithiad posibl
- Sylw negyddol yn y cyfryngau
- Torri dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus
- Colli hygrededd



Mae risgiau gweithredol yn adlewyrchu'r risgiau strategol a nodwyd uchod ac mae'r gwaith o reoli risgiau gweithredol yn cyfrannu at liniaru'r risgiau hynny. Caiff risgiau gweithredol eu rheoli o ddydd i ddydd drwy brosesau sefydledig, rheolwyr llinell ac adolygiadau, a thrwy adroddiadau rheoli.

Yn benodol, rydym yn defnyddio prosesau rheoli ac adolygu ansawdd i roi sicrwydd bod ein gweithgarwch rheoleiddio yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a gofynion eraill, ac i sicrhau ein bod yn cychwyn, yn cynnal ac yn cwblhau ein hymchwiliadau yn gywir. Mae'r prosesau hyn yn cynnwys gwahanu ymchwilwyr a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau. Caiff cyngor cyfreithiol ac adolygiadau eu cynnwys ym mhob cam perthnasol o'r broses.

Mae'r prosesau rheoli, yr adolygiadau risg a'r camau lliniaru a roddwyd ar waith ar gyfer 2022/23 wedi rhoi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu ein bod wedi cynnal system rheoli risg briodol.

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi cytuno ar risgiau gweithredol newydd ar gyfer 2023-24 a'u cymeradwyo. Yn ogystal, cytunwyd y bydd y risgiau strategol newydd yn cymryd lle'r set bresennol. Bydd asesiadau o risgiau strategol yn fwy dynamig, gan ystyried parodrwydd i dderbyn risg a dadansoddiad misol o sut mae'r risgiau gweithredol sylfaenol uchel iawn ac uchel yn ymwneud â'r asesiad o risgiau strategol.

## Archwilio allanol

Y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yw pennaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'n harchwilydd allanol, fel y nodir o dan Atodlen 1 PPERA. Ni ddarparodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol unrhyw wasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio yn 2022/23.

Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn darparu llythyrau i reolwyr ac adroddiadau cynllunio, diweddaru a chwblhau fel rhan o'r broses archwilio statudol sydd hefyd yn llywio'r arsylwadau a wneir gan y Swyddog Cyfrifyddu.

## Archwilio mewnol

Ein harchwilwyr mewnol yn 2022/23 oedd RSM UK.

Cyflawnodd RSM archwiliadau yn unol â'i fethodoleg, sy'n gyson â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae ei adroddiadau yn cynnig barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd ein systemau rheoli. Cafodd y rhaglen archwilio seiliedig ar risg ei chymeradwyo gan ein Pwyllgor Archwilio a Risg.

Cwblhaodd RSM naw adroddiad archwilio mewnol.

- Rheoli'r wefan (perfformiad a dyluniad)*
- Monitro twyll etholiadol*
- Sicrhau Ansawdd
- Archwiliad Dilynol 21/22*
- Llywodraethu
- Perfformiad Swyddogion Cofrestru Etholiadol
- Adolygiad o'r Arolwg Olrhain Blynyddol
- Rheolaethau Ariannol Craidd 22/23
- Archwiliad Dilynol 22/23

*Archwiliadau a gynlluniwyd ar gyfer 2021/22 ond a ddaeth i ben yn 2022/23

Bydd yr adroddiad sy'n weddill yn parhau i 2023/24:

- Strategaeth a Seilwaith TG

Ar gyfer pob un o'r deg archwiliad a gwblhawyd, darparodd yr archwilwyr mewnol adroddiad a oedd yn cynnwys eu canfyddiadau allweddol, awgrym o lefel y sicrwydd o'u canfyddiadau ac argymhellion ar gyfer camau i atgyfnerthu unrhyw wendidau rheoli. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn monitro'r ffordd rydym yn rhoi argymhellion yr adroddiad ar waith. Ym marn yr Archwiliad roedd ein trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn ddigonol ac yn effeithiol ar y cyfan. Ystyriwyd yr archwiliad Rheolaethau Ariannol Craidd ar gyfer 2022/23 yn Sicrwydd Rhesymol, gyda rheolaethau ar waith yn fras fel rhai sy'n gweithredu fel y bwriadwyd.

## Grantiau datblygu polisi

Rydym yn darparu grantiau datblygu polisi i bleidiau gwleidyddol cymwys, fel yr amlinellir yn nodyn 3 ar y cyfrifon. Cynhelir rheolaeth dros dalu'r grant drwy broses hawlio ac adolygu gynhwysfawr. Cyflwynodd pob plaid ffurflenni gwariant a arweiniodd at daliadau gwerth £1,991,268 ac ni nodwyd unrhyw broblemau.

## Llywodraethu gwybodaeth

Mae ein proses o reoli risg gwybodaeth yn un barhaus. Rydym yn llywio ac yn mesur ein dull gweithredu yn erbyn Cod Ymarfer yr Arglwydd Ganghellor ar reoli cofnodion, Fframwaith Polisi Diogelwch Swyddfa'r Cabinet, Govs007: Diogelwch a'r Safon Cyber Essentials ar gyfer Diogelwch Gwybodaeth.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn goruchwylio ein dull o reoli risg gwybodaeth. Y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol sydd â chyfrifoldeb gweithredol yn ei rôl fel Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO).

Yn gyson â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Prif Weithredwr yn cael adroddiad blynyddol o'r broses rheoli risg gwybodaeth gan yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth.

Ar gyfer 2022/23, roedd y ffocws ar uwchraddiad technegol systemau gan eu symud o'r safle i system gwmwl, a mudo a gwella mesurau rheoli technegol. Gwneir cais am yr Achrediad Cyber Essentials yn 2023/24. Canolbwyntiodd yr adroddiad ar y gwelliannau, rheoli risgiau, tryloywder, rheoli digwyddiadau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth barhaus o risgiau a chyfrifoldebau.

Ystyriodd y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Prif Weithredwr asesiad yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth o effeithiolrwydd y broses gyffredinol o reoli risg, gan gynnwys asesu yn erbyn canllawiau a fframweithiau perthnasol, ac roeddent yn fodlon ar yr asesiad hwnnw.

## Digwyddiadau sy'n ymwneud â data personol

Yn 2022/23, cafwyd chwe digwyddiad yn ymwneud â data personol, gan gynnwys un achos o ddwyn dyfais bersonol o'r sefydliad ac ymosodiad seiber wnaeth beryglu nifer o weinyddion y Comisiwn a data a ddelir gan y Comisiwn. Adroddwyd am y digwyddiad i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth sy’n parhau i’w archwilio.

# Adolygu effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli. Wrth gwblhau'r adolygiad hwn, ystyriaf y canlynol:

- gwaith rheolwyr sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli
- gwaith yr archwilwyr mewnol
- sylwadau a wnaed gan ein harchwilwyr allanol yn eu hadroddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am reoli ein sefydliad

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn fy nghynghori ar effeithiolrwydd fy systemau rheoli. Rwy'n fodlon na thynnodd yr asesiad blynyddol o risg gwybodaeth, fel y'i cafwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, sylw at unrhyw feysydd a oedd yn peri pryder. Cadarnhaodd y Pwyllgor Archwilio a Risg yr asesiad o effeithiolrwydd y broses gyffredinol o reoli risg, gan gynnwys asesu yn erbyn canllawiau a fframweithiau perthnasol.

Yn ystod 2022/23, gweithredodd y Bwrdd y camau y cytunwyd arnynt yn sgil yr adolygiad blaenorol o effeithiolrwydd y Bwrdd a'r archwiliad mewnol o drefniadau llywodraethu. Adolygodd y Bwrdd ei berfformiad a'i effeithiolrwydd ym mis Ionawr 2023. Ni chodwyd unrhyw bryderon gormodol gan yr adolygiad hwn.

Yn ystod 2022 cafwyd ymosodiad seiber soffistigedig oedd â diddordeb ar brosesau etholiadau. Ymchwiliwyd i hyn yn drylwyr ac mae mesurau lliniaru ar waith. Heblaw'r digwyddiad hwn, rwy'n fodlon na nodwyd unrhyw wendidau rheoli sylweddol yn ystod y flwyddyn. Nid oes unrhyw wendidau rheoli sy'n weddill yr ystyrir eu bod yn ddigonol i gyflwyno risgiau sylweddol i'n polisïau, nodau ac amcanion, na gwallau materol yn ein datganiadau ariannol. Rwyf hefyd yn fodlon bod y gwendidau a nodwyd wedi cael sylw, neu'n cael sylw, drwy gamau priodol.

Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd yn cynnwys ystyried ein polisi chwythu'r chwiban. Mae'r polisi hwn yn galluogi cyflogeion a gweithwyr i ddatgelu achosion o gamymddwyn, gweithredoedd anghyfreithlon neu bryderon am gamweddau mewn ffyrdd gwahanol. Ni chafwyd unrhyw achosion o chwythu'r chwiban yn ystod 2022/23 ac rwy'n fodlon bod rheolaethau digonol ar waith.

Rwy'n fodlon bod y gwendidau rheoli a nodwyd drwy gydol y flwyddyn wedi cael sylw gofalus i liniaru unrhyw risgiau posibl i'n polisïau, ein nodau a'n hamcanion, yn ogystal ag i atal unrhyw wallau perthnasol yn ein datganiadau ariannol. Er ein bod wedi cymryd camau penodol i unioni'r materion hyn, mae'n bwysig cydnabod y bu heriau, gan gynnwys pryderon sylfaenol ynghylch ein system gyfrifyddu a'r angen am amhariadau sylweddol. Mae'r heriau hyn wedi ein hysgogi i ddwysáu ein hymdrechion tuag at wella yn y meysydd penodol hyn. Rydym wedi ymrwymo i feithrin ymagwedd ragweithiol i sicrhau gwelliant parhaus i'n rheolaethau a'n gweithdrefnau, gan adeiladu sylfaen gryfach ar gyfer y dyfodol.

- Caiff arweinyddiaeth ei chyfleu mewn gweledigaeth glir gan y Cadeirydd, y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol – mae cyfarfodydd misol yn cyfrannu at gyflawni ein nodau, gan gynnwys ein parodrwydd i dderbyn risg.

- Caiff effeithiolrwydd ei sicrhau drwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg – caiff cyfarfodydd rheolaidd eu cynnal drwy gydol y flwyddyn gyda chynghorydd annibynnol yn bresennol.

- Atebolrwydd – mae'r Comisiwn Etholiadol yn ymfalchïo yn ei ymdrechion i hyrwyddo tryloywder drwy ei waith a'i brosesau adrodd.

- Cynaliadwyedd – mae'r Comisiwn Etholiadol yn cynhyrchu Cynllun Corfforaethol 5 mlynedd sy'n nodi ein nodau a'n cynlluniau hirdymor.

# Yr adroddiad ar gydnabyddiaeth a staff

## Cydnabyddiaeth y Cadeirydd a'r Comisiynwyr

Penodir Comisiynwyr drwy Warant Frenhinol i gyflawni eu swyddogaethau fel y'u disgrifir yn PPERA. Penodwyd John Pullinger yn Gadeirydd y Comisiynwyr ar 1 Mai 2021.

Penderfynodd Tŷ'r Cyffredin y bydd ffioedd ar gyfer y Comisiynwyr yn cynyddu ar 1 Ebrill bob blwyddyn, yn unol â'r cynnydd canrannol a delir am farnwyr yr Uchel Lys y flwyddyn honno. Yn unol â'r trefniant hwn, cynyddodd ffioedd 3%.

Telir cyflog y Cadeirydd a ffioedd y Comisiynwyr allan o'r Gronfa Gyfunol, fel y gellir ei nodi mewn penderfyniad gan Dŷ'r Cyffredin. Cynyddodd y ffi ar gyfer pob diwrnod a weithiwyd yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 i £410 (2021/22: £398).

Telir y Comisiynwyr mewn ôl-daliadau yn seiliedig ar y diwrnodau gwirioneddol a weithiwyd a'r hawliadau a gyflwynwyd ganddynt. Mae'r tabl isod yn nodi'r taliadau ffioedd a dderbyniodd pob Comisiynydd ar sail arian parod i gyfateb i'r arian o'r Gronfa Gyfunol yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. Mae cyflog Cadeirydd y Comisiynwyr wedi'i gynnwys hefyd. Darperir ar gyfer trefniadau pensiwn y Comisiynwyr drwy benderfyniad gan Dŷ'r Cyffredin.

## Cyflog a thaliadau ffioedd i Gomisiynwyr yn 2022/23 (Yn amodol ar archwiliad)

| Enw | 2022/23 £ | 2021/22 £ |
|---|---|---|
| John Pullinger CB (Cadeirydd o 01/05/2021) | 80,916 | 73,785 |
| Y Fonesig Susan Bruce[3] | 9,859 | 23,802 |
| Alex Attwood | 13,604 | 13,860 |
| Sarah Chambers | 7,167 | 7,374 |
| Yr Athro Elan Closs Stephens DBE | 12,373 | 15,988 |
| Dr Katy Radford MBE [3] | 13,053 | 3,998 |
| Alasdair Morgan (tan 30 Medi 2022) | 4,945 | 8,935 |
| Joan Walley (tan 31 Hydref 2022) | 8,692 | 7,913 |
| Rob Vincent CBE | 7,778 | 8,819 |
| Yr Arglwydd (Stephen) Gilbert | 9,373 | 7,998 |
| Roseanna Cunningham (o 1 Hydref 2022) | 5,104 | 0 |
| Chris Ruane (o 1 Tachwedd 2022) | 4,651 | 0 |

Mae'r holl ffigurau a ddangosir uchod yn cynnwys Yswiriant Gwladol y Cyflogwr fel arian cyfatebol o'r Gronfa Gyfunol. Nid yw'r cynnydd mewn ffioedd wedi'i adlewyrchu yn y ffigurau uchod sy'n daladwy.

Mae'r gydnabyddiaeth ar gyfer cynghorydd annibynnol y Pwyllgor Archwilio a Risg, fel y'i pennwyd gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol, yr un fath â'r gyfradd ddyddiol ar gyfer Comisiynwyr.

Derbyniodd ein cynghorwyr annibynnol, Paul Redfern a Sal Naseem, £3,488 a £5,373 yn y drefn honno, ar gyfer eu rolau mewn perthynas â 2022/23 (2021/22: Paul Redfern £2,388, Sal Naseem £dim). Telir treuliau teithio a chynhaliaeth rhesymol yr eir iddynt yn

[3] Cafodd ffioedd ar gyfer Y Fonesig Susan Bruce ar gyfer 2020/21 eu talu ym mis Ebrill 2021 ac felly cânt eu dangos yn y tabl uchod. Talwyd ffioedd ar gyfer Dr Katy Redford MBE ar gyfer 2021/22 ym mis Ebrill 2022.

unol â'n polisi teithio a chynhaliaeth. Nid oes unrhyw drefniadau pensiwn ar waith ar gyfer y rolau hyn.

**Treuliau busnes: teithio a llety (yn amodol ar archwiliad)**

| Enw | 2022/23 £ | 2021/22 £ |
|---|---|---|
| John Pullinger CB (Cadeirydd) | 3,033 | 260 |
| Y Fonesig Susan Bruce | 1,225 | 0 |
| Alex Attwood | 4,338 | 1,420 |
| Sarah Chambers | 588 | 0 |
| Yr Athro Elan Closs Stephens DBE | 990 | 0 |
| Dr Katy Radford MBE | 3,741 | 1,070 |
| Alasdair Morgan (tan 30 Medi 2022) | 1,511 | 665 |
| Rob Vincent CBE | 1,362 | 346 |
| Joan Walley (tan 31 Hydref 2022) | 1,219 | 0 |
| Yr Arglwydd (Stephen) Gilbert | 776 | 0 |
| Roseanna Cunningham (o 1 Hydref 2022) | 1,703 | 0 |
| Chris Ruane (o 1 Tachwedd 2022) | 1,032 | 0 |

Mae treuliau busnes a ad-delir yn ddi-dreth ac nid ydynt yn rhan o unrhyw daliad buddiannau mewn nwyddau.

# Cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol yn gyfrifol am gynghori'r Bwrdd ar gydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a chytuno ar y cylch gwaith cyd-drafod blynyddol ar gyfer dyfarniadau cyflogau staff (gan gynnwys y Tîm Gweithredol). Mae manylion am gyfrifoldebau ac aelodaeth y Pwyllgor yn yr adroddiad llywodraethu.

Nid ydym yn rhan o'r Gwasanaeth Sifil ac felly nid ydym yn rhwym wrth ganllawiau cyflogau'r Gwasanaeth Sifil. Fodd bynnag, mae Atodlen 1 i PPERA yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried pa mor ddymunol yw cadw telerau ac amodau cyflogaeth staff yn fras yn unol â rhai'r Gwasanaeth Sifil. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol hefyd yn ystyried ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd eu hargymhellion.

Ariennir cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr drwy'r Amcangyfrif Cyflenwi a rhoddir cyfrif am hyn yn y cyfrifon adnoddau.

Mae gan y bobl a gwmpesir gan yr adroddiad hwn benodiadau penagored (heblaw am y Prif Weithredwr), er bod gan staff yr opsiwn i ymddeol a chael pensiwn ar ôl cyrraedd 60 neu 65 oed yn dibynnu ar reolau eu cynllun pensiwn penodol. Byddai dod â phenodiad gyda gwasanaeth sy'n gymwys i ben yn gynnar, ac eithrio o ganlyniad i gamymddwyn, fel arfer yn arwain at roi iawndal i'r unigolyn fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

## Cydnabyddiaeth (gan gynnwys cyflog, buddiannau mewn nwyddau a phensiynau)

**Cyfanswm unigol neu gydnabyddiaeth (Yn amodol ar archwiliad)**

| | Cyflog £'000 | | Buddiannau mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) | | Buddiannau pensiwn[4] (i'r £1000 agosaf) | | Cyfanswm £000 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddwyr** | **2022/ 23** | **2021/ 22** | **2022/ 23** | **2021/ 22** | **2022/ 23** | **2021/ 22** | **2022/ 23** | **2021/ 22** |
| **Shaun McNally*** Prif Weithredwr (dechreuodd ar 01/04/2022) | 165-170 | 0 | 100 | 0 | 25 | 0 | 190-195 | 0 |
| **Bob Posner** Prif Weithredwr (hyd at 31/3/2022) | 0 | 160-165 | 0 | 300 | 0 | 16 | 0 | 175-180 |
| **Kieran Rix[5]** Cyfarwyddwr Cyllid a | 100-105 | 100-105 | 100 | 300 | 16 | 27 | 115-120 | 130-135 |

[4] Cyfrifir gwerth buddiannau pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) a (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad am fod hawliau pensiwn wedi cael eu trosglwyddo.

[5] Gadawodd Kieran Rix y Comisiwn Etholiadol ar 30 Ebrill 2023 a derbyniodd daliad iawndal. Cytunwyd ar y taliad hwn a chafodd ei dalu yn 2023/24 ac felly nid yw'n cael ei adlewyrchu yng nghyfanswm 2022/23. Ceir manylion pellach o dan Iawndal ar ymddeoliad cynnar neu am golli swydd, ar dudalen 110

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Corfforaethol | | | | | | | | |
| **Ailsa Irvine** Cyfarwyddwr Gweinyddu Etholiadau a Chanllawiau | 100-105 | 100-105 | 100 | 300 | 18 | 28 | 120-125 | 130-135 |
| **Craig Westwood** Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Polisi ac Ymchwil | 100-105 | 100-105 | 100 | 300 | 23 | 31 | 130-135 | 135-140 |
| **Louise Edwards** Cyfarwyddwr Rheoleiddio | 100-105 | 100-105 | 100 | 300 | 38 | 39 | 140-145 | 140-145 |

*Nid yw Shaun McNally yn rhan o gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac felly'r data uchod yw cyfraniadau'r Comisiwn sy'n cael eu talu mewn i bensiwn partneriaeth.

**Cyflog**

Mae cyflog yn cynnwys cyflog gros, goramser, pwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw, ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n ddarostyngedig i drethiant y DU. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau a gronnwyd a wnaed gan y Comisiwn Etholiadol ac a gofnodir felly yn y cyfrifon hyn.

**Buddiannau mewn nwyddau**

Mae gwerth ariannol buddiannau mewn nwyddau yn cwmpasu unrhyw fuddiannau a ddarperir gan y Comisiwn ac y mae Cyllid a Thollau EF yn eu trin fel enillion trethadwy. Mae buddiannau mewn nwyddau aelodau o'r Tîm Gweithredol yn cynnwys aelodaeth Benenden Healthcare, y gwneir taliad i CThEF ar ei chyfer hefyd. Gwerth y buddiannau hyn i bob aelod o'r Tîm Gweithredol ar gyfer 2022/23 oedd £142 (£273 yn 2021/22). Mae pob aelod o'r staff yn cael y buddiannau hyn.

**Gwobrau diolch ar unwaith**

Nid yw'r Comisiwn Etholiadol yn rhoi taliadau bonws yn seiliedig ar broses arfarnu perfformiad mwyach. Yn hytrach, ers 2020-21, mae cyflogeion islaw lefel y Tîm Gweithredol yn gymwys i gael eu henwebu ar gyfer gwobr 'diolch ar unwaith' gwerth rhwng £25 a £500.

**Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil**

Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n rhoi buddiannau ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, ymunodd pob gwas sifil newydd a'r rhan fwyaf o'r rhai a oedd yn gwasanaethu eisoes ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, cymerodd gweision sifil ran ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y PCSPS bedair adran: tair sy'n darparu buddiannau ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu buddiannau ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65 oed.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u hariannu a thelir cost buddiannau drwy arian y pleidleisir arno gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha eu cynyddu bob blwyddyn yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Arhosodd aelodau cyfredol o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Cafodd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 blynedd a phum mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 eu symud i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. O 1 Ebrill 2022, symudwyd pob aelod i gynllun alpha ni waeth pa mor agos oeddent ar eu hoedran pensiwn arferol. Caiff buddiannau PCSPS pob aelod sy'n symud i alpha eu ‘bancio’, a bydd buddiannau cynharach aelodau mewn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn y PCSPS neu yn alpha – fel sy'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddiannau yn y PCSPS ac yn alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol ei fuddiannau yn y ddau gynllun.) Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddiannau diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid ‘prynu arian’ gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogai yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% i aelodau classic, premium, classic plus, nuvos, ac alpha. Mae buddiannau yn y cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy ar ymddeoliad. Ar gyfer y cynllun premium, mae buddiannau'n cronni ar gyfradd o 1/60fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. Hybrid yn y bôn yw'r cynllun classic plus gyda buddiannau am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras fel y rhai ar gyfer classic a buddiannau am wasanaeth o fis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel y rhai ar gyfer premium. Yn y cynllun nuvos bydd aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod fel aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) caiff cyfrif pensiwn yr aelod a enillwyd ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddiannau yn alpha yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos ond, yn yr achos hwn, y

gyfradd gronni yw 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (gohirio) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfranddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewiswyd gan y cyflogai o'r darparwr a benodwyd – Legal and General. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn talu cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% arall o gyflog pensiynadwy i gwmpasu cost yswiriant buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad ar sail afiechyd £21,486).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod yr hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth pan fydd yn rhoi'r gorau i fod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. Oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus, 65 ar gyfer aelodau nuvos, a 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, pa un bynnag yw'r uchaf, ar gyfer aelodau alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn y PCSPS neu yn alpha – fel sy'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddiannau yn y PCSPS ac yn alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol ei fuddiannau yn y ddau gynllun, ond gall y rhan honno o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau).

**Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)**

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth y buddiannau cynllun pensiwn wedi'i gyfalafu a'i asesu'n actiwaraidd a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Gwerth y buddiannau yw'r buddiannau a gronnwyd gan yr aelod ac unrhyw bensiwn priod digwyddiadol sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun pensiwn arall neu drefniant pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn capasiti uwch y mae datgeliad yn gymwys iddo.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol a gronnir i'r aelod o ganlyniad i'r ffaith ei fod wedi prynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun. Caiff CETVs eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl i fuddiannau sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan gaiff buddiannau pensiwn eu cymryd.

**Y cynnydd gwirioneddol yng ngwerth CETV**

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn a gronnir oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y cyflogai

(yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Ar gyfer 2022/23, roedd cyfraniadau cyflogwr o £2,166,278 yn daladwy i'r Cynlluniau (2021/22; £2,001,505) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 26.6% i 30.3% (2020/21; 26.6% a 30.3%) o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Mae cyfraddau'r cyfraniadau yn adlewyrchu buddiannau wrth iddynt gronni, nid y costau fel yr eir iddynt mewn gwirionedd, ac maent yn adlewyrchu profiad blaenorol o'r cynllun.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwyr o £25,576 (2021/22; £730) i ddarparwr pensiwn cyfranddeiliaid a benodwyd. Mae cyfraniadau cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio rhwng 8% a 14.75% o gyflog pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn talu cyfraniad sy'n cyfateb i daliadau'r cyflogai hyd at 3% o gyflog pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwr o £1,633, sef 0.5% o gyflog pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS i gwmpasu cost darparu cyfandaliadau yn y dyfodol pe bai'r cyflogeion hyn yn marw mewn gwasanaeth neu'n ymddeol ar sail afiechyd.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau yn ddyledus i ddarparwyr y pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu ar y dyddiad hwnnw.

Ni thalwyd unrhyw gyfraniadau pensiwn i'r Comisiynwyr yn ystod y cyfnod. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i ni dalu pensiynau i rai o gyn-Gomisiynwyr Comisiwn Llywodraeth Leol Lloegr (LGCE). Mae cyfanswm y ddarpariaeth ar gyfer y costau hyn wedi gostwng i £126,000 ar 31 Mawrth 2023 (£160,000 ar 31 Mawrth 2022).

Cyfrifir ffigurau CETV gan ddefnyddio'r canllawiau ar gyfraddau disgownt ar gyfer cyfrifo cyfraddau cyfraniadau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus heb eu hariannu a oedd ar waith ar 31 Mawrth 2023. Cyhoeddodd Trysorlys EF ganllawiau wedi'u diweddaru ar 27 Ebrill 2023; bydd y canllawiau hyn yn cael eu defnyddio wrth gyfrifo ffigurau CETV 2023-24.

**Gwybodaeth am bensiynau i gyfarwyddwyr (£000) (Yn amodol ar archwiliad)**

| Cyfarwyddwyr | Pensiwn cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn ar 31/3/23 a chyfandaliad cysylltiedig | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn | CETV ar 31/3/23 | CETV ar 31/3/22 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| **Shaun McNally**<br>Prif Weithredwr | Dd/G | Dd/G | Dd/G | Dd/G | Dd/G |
| **Bob Posner**<br>Prif Weithredwr | 0 | 0 | 0 | 698 | 0 |
| **Kieran Rix**<br>Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | 35-40 | 0-2.5 | 576 | 512 | 0 |
| **Ailsa Irvine**<br>Cyfarwyddwr Gweinyddu Etholiadau a Chanllawiau | 35-40 | 0-2.5 | 468 | 419 | -1[6] |
| **Craig Westwood**<br>Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Polisi ac Ymchwil | 30-35 | 0-2.5 | 444 | 393 | 5 |
| **Louise Edwards**<br>Cyfarwyddwr Rheoleiddio | 20-25 | 0-2.5 | 223 | 187 | 14 |

[6] Gan gymryd i ystyriaeth chwyddiant, mae'r CETV a ariennir gan y cyflogwr wedi gostwng mewn termau real.

**Nodiadau**

- Nid yw Shaun McNally yn rhan o gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac felly nid oes data ar gael. Mae’r Comisiwn yn talu cyfraniad i mewn i bensiwn partneriaeth, nodir hyn yn y tabl Cydnabyddiaeth ar dudalen 104
- Ni wnaed unrhyw gyfraniad cyflogwr at bensiynau partneriaeth. CETV yw'r Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod
- Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yn y tabl uchod yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd 60 oed ar gyfer cynlluniau pensiwn ‘Classic’, ‘Classic Plus’, a ‘Premium’, 65 oed ar gyfer cynllun pensiwn ‘Nuvos’, ac oedran pensiwn y wladwriaeth (neu 65 oed os yw'n ddiweddarach) ar gyfer cynllun pensiwn ‘Alpha’

**Iawndal am ymddeol yn gynnar neu golli swydd (Yn amodol ar archwiliad)**

Ni wnaed unrhyw daliadau yn ystod 2022/23 am ymddeol yn gynnar neu golli swydd (2021/22 £0).

Ar 30 Ebrill 2023, gadawodd Kieran Rix o dan delerau diswyddo y cytunwyd arnynt ym mlwyddyn ariannol 2023/24. Mae hyn yn cynnwys taliad iawndal o £47,000 a thaliad yn lle rhybudd o £33,000.

**Datgeliad cyflog teg (i'r £1000 agosaf) (Yn amodol ar archwiliad)**

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r gydberthynas rhwng cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf yn eu sefydliad a chydnabyddiaeth chwartel isaf, canolrifol a chwartel uchaf gweithlu'r sefydliad.

| | 2022/23 | 2021/22 | Newidiadau % |
|---|---|---|---|
| Y Cyfarwyddwr a gafodd y cyflog mwyaf | 165-170 | 160-165 | 4.0% |
| Newid canrannol cyfartalog cyflogau a lwfansau (pob aelod arall o staff) o'r flwyddyn ariannol flaenorol | | | 4.6% |
| Cydnabyddiaeth chwartel uchaf (pob aelod arall o staff) | 53 | 52 | 2.1% |
| Cydnabyddiaeth ganolrifol (pob aelod arall o staff) | 43 | 41 | 5.4% |
| Cydnabyddiaeth chwartel isaf (pob aelod arall o staff) | 34 | 32 | 6.2% |
| Cymhareb (chwartel uchaf)* | 3.2 | 3.1 | |

| | | |
|---|---|---|
| Cymhareb (canolrif) | 3.9 | 4.0 |
| Cymhareb (chwartel isaf) | 4.9 | 5 |

Cyflwynwyd y chwartel Uchaf ac Isaf yn y drefn anghywir yn 2021/22 ac maent wedi'u hailddatgan i 1 lle degol.

Band cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr a gafodd y cyflog mwyaf yn y Comisiwn Etholiadol yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23 oedd £165,000-170,000 (2021/22, £160,000-165,000). Roedd y ffigur hwn bedair gwaith cydnabyddiaeth ganolrifol y gweithlu, sef £43,000 (2021/22, £41,000).

Roedd trosiant ein staff ar gyfer 2022/23 yn 21% (heb ei archwilio), mae hyn yn seiliedig ar ein swm cyfartalog o ran cyfrif pennau ac ymadawyr ar gyfer y cyfnod hwnnw, mae hyn yn parhau i fod heb newid o 2021/22.

Yn 2022/23 a 2021/22, ni chafodd unrhyw gyflogai gydnabyddiaeth a oedd yn fwy na'r hyn a gafodd y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf. Roedd y cyfraddau cydnabyddiaeth ar gyfer staff heblaw'r cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf (yn seiliedig ar gyfraddau cyfwerth ag amser llawn) yn amrywio o £25,000-£30,000 i £105,000-£110,000 (2021/22: £20,000-£25,000 i £100,000-£105,000).

Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog a buddiannau mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na'r gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod pensiynau.

Cynyddwyd cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf 4% yn ystod 2022/23, a oedd yn gyson â phob aelod arall o staff heblaw am y rhai ar y cyflog isaf. Erbyn hyn caiff yr holl staff eu talu ar sylfaen o £15.00 yr awr o leiaf; cafodd hyn ei gymhwyso i'r staff ar y cyflogau isaf. Mae'r adroddiad ar gydnabyddiaeth yn dangos gwybodaeth am y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf.

# Yr adroddiad ar staff

## Cyfansoddiad staff

Nifer y cyfarwyddwyr a gyflogwyd yn ystod y cyfnod oedd chwech, gydag un yn benodiad tymor sefydlog (yr oedd pedwar ohonynt yn ddynion a dwy yn ferched).

Roedd nifer y Comisiynwyr a'r staff a oedd mewn swydd ac wedi'u penodi yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | Benyw | Gwryw | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|
| Cadeirydd a Bwrdd* | 5 | 6 | **11** |
| Cyfarwyddwyr/Penaethiaid (staff parhaol) | 14 | 11 | **25** |
| Cyfarwyddwyr/Penaethiaid (staff dros dro/staff cyfnod penodol) | 0 | 1 | **1** |
| Staff arall (parhaol) | 86 | 61 | **147** |
| Staff arall (dros dro/cyfnod penodol) | 7 | 5 | **12** |
| Contract/Asiantaeth | 9 | 8 | **17** |
| **Cyfanswm** | **121** | **92** | **213** |

*yn cynnwys cynghorydd annibynnol ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

# Costau staff (i'r £000 agosaf) (Yn amodol ar archwiliad)

| | Staff a gyflogir yn barhaol | Eraill | 2022/23 Cyfanswm | 2021/22 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 8,547 | 261 | 8,808 | 7,890 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 1,037 | | 1,037 | 870 |
| Costau pensiwn eraill | 2,192 | | 2,192 | 2,002 |
| **Cyfanswm y costau net*** | **11,776** | **261** | **12,037** | **10,762** |

***Yn 2022/23, manteisiwyd ar £166,000 ychwanegol o gostau staff ar gyfer adeiladu'r system Cyllid Gwleidyddol Ar-lein (2021/22: £376,000).

# Y nifer cyfartalog o staff a gyflogir (Yn amodol ar archwiliad)

Yn ystod 2022/23, y nifer cyfartalog o staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd oedd 169 (2021/22: 155). Yn ogystal, ar gyfartaledd, roedd 11 o aelodau o staff cyfwerth ag amser llawn dros dro (2021/22: 14) yn llenwi swyddi sefydledig neu'n gweithio ar brosiectau y tu allan i'r sefydliad.

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| Cyfwerth ag amser llawn - Staff a gyflogir yn barhaol | 169 | 155 |
| Staff dros dro | 11 | 14 |
| **Cyfanswm** | **180** | **169** |


# Absenoldeb oherwydd salwch

Yn 2022/23, y nifer cyfartalog o ddiwrnodau absenoldeb oherwydd salwch oedd 8.43 fesul person o gymharu â 4.22 fesul cyflogai y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn dangos bod mwy o absenoldebau o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Bydd y swyddogaeth adnoddau dynol yn parhau i ganolbwyntio ar helpu rheolwyr i reoli absenoldeb byrdymor a hirdymor yn ystod 2022/23, gan gynnwys sicrhau bod pob aelod o

staff yn cael trafodaeth dychwelyd i'r gwaith effeithiol â'i reolwr llinell pan fydd yn dychwelyd, a monitro a chefnogi'n effeithiol yn ystod absenoldeb hirdymor. Yn ogystal, mae'r rheolwyr yn cael adroddiadau rheolaidd am lefelau absenoldeb o fewn eu timau er mwyn eu galluogi i ymyrryd ar y cyfle cynharaf er mwyn cefnogi iechyd a llesiant cyflogeion. Rydym yn ymrwymedig i iechyd a llesiant pob aelod o staff ac yn hyrwyddo ffordd o fyw gytbwys, gan gynnwys aelodaeth gorfforaethol o Benenden Healthcare. Ceir polisi absenoldeb oherwydd salwch cynhwysfawr a chanllawiau i reolwyr ar ddelio ag absenoldeb staff.

### Cyfradd absenoldeb oherwydd salwch ar gyfartaledd fesul cyflogai




# Polisïau staff

Gwnaethom gymhwyso polisïau staff yn gyson yn ystod y flwyddyn wrth ystyried ceisiadau swydd a recriwtio staff. Gofynnwn i ymgeiswyr ddarparu data monitro cydraddoldeb, na fydd y panel yn eu gweld, ac felly rydym yn rhoi ymgeiswyr ar y rhestr fer yn seiliedig ar eu sgiliau a'u profiad sy'n angenrheidiol ar gyfer y rôl.

Rhoddir cyfle i staff sy'n datgan anabledd, neu sy'n mynd yn anabl yn unol â'r diffiniad yn Neddf Cydraddoldeb 2010, wneud cais am addasiadau rhesymol os bydd eu hangen. Gellir ymgynghori â'r adran Iechyd Galwedigaethol i wneud argymhellion a chynnal asesiadau risg o ran iechyd a diogelwch. Caiff gweithio'n hyblyg ei ystyried hefyd fel rhan o addasiadau rhesymol. Darperir hyfforddiant, fel y bo angen, i bob aelod o staff yn y fformat sy'n ofynnol.

# Gwariant ar wasanaeth ymgynghori

Mae gwariant ar wasanaeth ymgynghori yn £361,000 ar gyfer 2022/23 (2021/22: £245,000).

# Penodiadau oddi ar y gyflogres

Cafwyd un penodiad oddi ar y gyflogres yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23 (2021/22: 4). Roedd y rhain ar gyfer rolau arbenigol byrdymor yn y Comisiwn. Talwyd dros £245 y dydd ar gyfer pob rôl.

| Penodiadau dros dro oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2023. | |
|---|---|
| Nifer y penodiadau a oedd yn bodoli eisoes ar 31 Mawrth 2023 | 1 |
| **Yn cynnwys...** | |
| Y nifer sydd wedi bodoli ers llai na blwyddyn ar yr adeg adrodd. | 1 |
| Y nifer sydd wedi bodoli ers rhwng blwyddyn a dwy flynedd ar yr adeg adrodd. | 0 |
| Y nifer sydd wedi bodoli ers rhwng dwy a thair blynedd ar yr adeg adrodd. | 0 |
| Y nifer sydd wedi bodoli ers rhwng tair a phedair blynedd ar yr adeg adrodd. | 0 |
| Y nifer sydd wedi bodoli ers pedair blynedd neu fwy ar yr adeg adrodd. | 0 |

| Pob gweithiwr dros dro a benodwyd oddi ar y gyflogres unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023. | |
|---|---|
| Nifer y gweithwyr a benodwyd oddi ar y gyflogres yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 | 1 |
| **Yn cynnwys...** | |
| Y nifer y nodwyd eu bod o fewn cwmpas IR35 | 0 |
| Y nifer y nodwyd eu bod y tu allan i gwmpas IR35 | 1 |
| Nifer y penodiadau a ailaseswyd at ddibenion cydymffurfiaeth a sicrwydd yn ystod y flwyddyn | 1 |
| Yn cynnwys: nifer y penodiadau y newidiwyd eu statws IR35 ar ôl iddynt gael eu hadolygu | 0 |
| Nifer y penodiadau y cafwyd anghydfod ynghylch eu statws o dan ddarpariaethau yn y ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres | 0 |
| Nifer y penodiadau y newidiwyd eu statws IR35 ar ôl iddynt gael eu hadolygu. | 0 |

Yn unol â'r polisi Datganiad Buddiannau cyfredol ar gyfer cynghorwyr arbennig, mae pob cynghorydd arbennig wedi datgan unrhyw fuddiannau perthnasol neu wedi cadarnhau nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau perthnasol, yn eu barn nhw. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi ystyried y datganiadau hyn ac nid oes unrhyw fuddiannau perthnasol sydd angen eu cyhoeddi.

Caiff pob un sy'n gweithio oddi ar y gyflogres ei asesu gan ddefnyddio adnodd “Gwirio Statws Cyflogaeth ar gyfer Treth” CThEF cyn i unrhyw gontract gael ei awdurdodi.

## Pecynnau ymadael (Yn amodol ar archwiliad)

Ni chytunwyd ar unrhyw becynnau ymadael yn ystod 2022/23 (2021/22 £0). Caiff costau diswyddo ac ymadael eraill eu talu yn unol â darpariaethau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil, sef cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972, neu drwy drafod cytundebau setlo.

Mae costau diswyddo ac ymadael eraill wedi cael eu talu yn unol â darpariaethau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil (CSCS), sef cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Ni chafodd unrhyw becynnau ymadael eu cytuno a'u cyfrif yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23 (2021-22: £0).

Ni chafwyd unrhyw ymddeoliadau ar sail afiechyd yn ystod 2022/23 (2021/22: 0). Caiff costau ymddeoliad ar sail afiechyd eu talu gan y cynllun pensiwn.

# Adroddiad ar atebolrwydd seneddol ac archwilio

## Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol (SOPS)

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratoir o dan IFRS, mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol baratoi Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol (SOPS) a nodiadau ategol.

Mae'r SOPS a'r nodiadau cysylltiedig yn ddarostyngedig i archwiliad, fel y nodir yn Nhystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd. Mae'r SOPS yn ddatganiad atebolrwydd allweddol sy'n nodi'n fanwl sut mae endid wedi gwario yn erbyn ei Amcangyfrif Cyflenwi. Y cyflenwad yw'r ddarpariaeth ariannol (at ddibenion adnoddau a chyfalaf) a'r arian parod (a ddaw yn bennaf o'r Gronfa Gyfunol), y mae'r Senedd yn rhoi awdurdod statudol i endidau eu defnyddio. Mae'r Amcangyfrif yn nodi'r cyflenwad ac mae'r Senedd yn pleidleisio arno ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Os bydd endid yn rhagori ar y terfynau a bennir gan ei Amcangyfrif Cyflenwi, a elwir yn derfynau rheoli, bydd ei gyfrifon yn derbyn barn amodol.

Mae fformat y SOPS yn adlewyrchu'r Amcangyfrifon Cyflenwi, a gyhoeddir ar gov.uk, er mwyn sicrhau bod modd cymharu'r hyn a gymeradwyir gan y Senedd a'r alldro terfynol.

Mae'r SOPS yn cynnwys tabl cryno sy'n nodi perfformiad yn erbyn y terfynau rheoli y mae'r Senedd wedi pleidleisio arnynt, arian parod a wariwyd (caiff cyllidebau eu llunio ar sail croniadau ac felly ni fydd yr alldro yn cyfateb yn union â'r arian parod a wariwyd) a gwaith gweinyddol.

Mae'r nodiadau ategol yn nodi'r canlynol: Alldro fesul llinell Amcangyfrif, sy'n rhoi dadansoddiad manylach (nodyn 1); cysoni alldro i wariant gweithredu net yn y SOCNE, er mwyn cysylltu'r SOPS â'r datganiadau ariannol (nodyn 2); cysoni alldro i'r gofyniad arian parod net (nodyn 3); a dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol (nodyn 4).

Caiff y SOPS a'r Amcangyfrifon eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, sy'n debyg i'r IFRS ond yn wahanol iddynt. Darperir dealltwriaeth o'r fframwaith cyllidebu ac esboniad o'r termau allweddol ar dudalen 48 yn adran adolygiad ariannol yr adroddiad perfformiad. Hefyd, ceir gwybodaeth bellach am y Fframwaith Gwario Cyhoeddus a'r rhesymau pam bod rheolau cyllidebu yn wahanol i'r IFRS ym mhennod 1 o'r Canllawiau ar Gyllidebu Cyfunol, sydd ar gael ar gov.uk.

Mae'r SOPS yn rhoi darlun manwl o berfformiad ariannol, ar ffurf y pleidleisir arni ac a gydnabyddir gan y Senedd. Mae'r adolygiad ariannol, yn yr Adroddiad ar Berfformiad, yn

cynnwys trafodaeth gryno o alldro yn erbyn amcangyfrif a swyddogaethau fel cyflwyniad i'r datgeliadau SOPS.

## Tabl cryno 2022/23

Nodir pob ffigur mewn £000oedd

| Math o Wariant | Nodyn SoPS | Alldro | | | Amcangyfrif | | | Alldro yn erbyn Amcangyfrif, arbedion/(gormodedd) | | Cyfanswm alldro'r flwyddyn flaenorol 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Gyda phleidlais | Heb bleidlais | Cyfanswm | Gyda phleidlais | Heb bleidlais | Cyfanswm | Gyda phleidlais | Cyfanswm | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol** | | | | | | | | | | |
| - Adnoddau | 1.1 | 25,134 | 178 | 25,312 | 25,222 | 225 | 25,447 | 88 | 135 | 16,671 |
| - Cyfalaf | 1.2 | 812 | 0 | 812 | 1,424 | 0 | 1,424 | 612 | 612 | 679 |
| **Cyfanswm** | | 25,946 | 178 | 26,124 | 26,646 | 225 | 26,871 | 700 | 747 | 17,350 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | | | | | | | | |
| - Adnoddau | 1.1 | (161) | 0 | (161) | 50 | 0 | 50 | 211 | 211 | (14) |
| - Cyfalaf | 1.2 | 0 | 0 | 0 | 100 | 0 | 100 | 100 | 100 | 0 |
| **Cyfanswm** | | (161) | 0 | (161) | 150 | 0 | 150 | 311 | 311 | (14) |
| **Cyfanswm y Gyllideb** | | | | | | | | | | |
| - Adnoddau | 1.1 | 24,973 | 178 | 25,151 | 25,272 | 225 | 25,497 | 299 | 346 | 16,657 |
| - Cyfalaf | 1.2 | 812 | 0 | 812 | 1,524 | 0 | 1,524 | 712 | 712 | 679 |
| **Cyfanswm Gwariant o'r Gyllideb** | | **25,852** | **178** | **26,963** | **26,796** | **225** | **27,021** | **1,011** | **1,058** | **17,336** |

Mae'r holl wariant ac incwm gweithredu mewn cyllidebau wedi'i ddosbarthu fel rhaglen

Mae'r ffigurau yn y rhannau a amlinellir â llinell drom yn cwmpasu'r terfynau rheoli gyda phleidlais y pleidleisiodd y Senedd arnynt. Mae manylion y terfynau rheoli y pleidleisiodd y Senedd arnynt i'w gweld yn y llawlyfr cyfarwyddyd ar Amcangyfrifon Cyflenwi sydd ar gael ar gov.uk.

Caiff ein gwerthoedd amcangyfrifedig eu llywio gan weithgarwch etholiadol drwy gydol y flwyddyn ac felly maent yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Mae nodyn 2 ar y cyfrifon yn dangos dadansoddiad o gostau ar gyfer canlyniadau allweddol.

## Gofyniad Arian Parod Net 2022/23

Nodir pob ffigur mewn £000oedd

| Eitem | Nodyn SoPS | Alldro | Amcangyfrif | Alldro yn erbyn Amcangyfrif, arbedion/(gormodedd) | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol, 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad Arian Parod Net** | *3* | **22,489** | **26,123** | **3,634** | **16,254** |

Rhoddir esboniadau o amrywiadau rhwng amcangyfrif ac alldro yn yr adroddiad ar berfformiad. Mae'r nodiadau isod yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau ar y Datganiad o Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol 2022/23 (£000oedd)

## SoPS 1. Manylion alldro, fesul Llinell Amcangyfrif

### SoPS 1.1 Dadansoddiad o alldro adnoddau fesul llinell Amcangyfrif

| Math o Wariant [Adnoddau] | Rhaglen Alldro Adnoddau | | | Amcangyfrif | | | Alldro yn erbyn Amcangyfrif, arbedia d/(gormodedd) | Cyfanswm alldro'r flwyddyn flaenorol 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Cyfanswm | Trosglwyddiadau | Cyfanswm trosglwyddiadau | | |
| **Gwariant yn y Terfyn Gwariant Adrannol [DEL]** | | | | | | | | |
| Gwariant gyda phleidlais: | | | | | | | | |
| A. Y Comisiwn Etholiadol | 21,342 | (3,580) | 17,762 | 18,174 | (333) | 17,841 | 79 | 16,498 |
| B. Y Bil Etholiadau | 5,381 | 0 | 5,381 | 5,048 | 333 | 5,381 | 0 | |
| C. Grantiau Datblygu Polisi | 1,991 | 0 | 1,991 | 2,000 | 0 | 2,000 | 9 | |
| Gwariant heb bleidlais | | | | | | | | |
| D. Ffioedd Comisiynwyr | 178 | 0 | 178 | 225 | 0 | 225 | 47 | 173 |
| **Cyfanswm y gwariant yn DEL** | **28,892** | **(3,500)** | **25,312** | **25,447** | **0** | **25,447** | **135** | **16,671** |

Gwariant gyda phleidlais:

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| E. Gwariant AME | (161) | 0 | (161) | 50 | 0 | 50 | 21 | 14 |
| **Cyfanswm y gwariant yn AME** | **(161)** | **0** | **(161)** | **50** | **0** | **50** | **211** | **(14)** |
| **Cyfanswm yr adnoddau** | **28,718** | **(3,500)** | **25,218** | **25,497** | **0** | **25,497** | **279** | **16,657** |

## SoPS 1.2 Dadansoddiad o alldro cyfalaf net fesul Llinell Amcangyfrif

| Math o Wariant [Cyfalaf] | Alldro | | | Amcangyfrif | Alldro yn erbyn Amcangyfrif, arbediad/(gormodedd) | Cyfanswm alldro'r flwyddyn flaenorol 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Cyfanswm Net | | |
| **Gwariant yn y Terfyn Gwariant Adrannol [DEL]** | | | | | | |
| Gyda phleidlais: | | | | | | |
| A. Y Comisiwn Etholiadol | 812 | 0 | 812 | 1,424 | 612 | 679 |
| **Cyfanswm y gwariant yn DEL** | **812** | **0** | **812** | **1,424** | **612** | **679** |
| **Gwariant yn y Gwariant a Reolir yn Flynyddol [AME]** | | | | | | |
| Gwariant gyda phleidlais: | | | | | | |
| C. Darpariaethau a grëwyd neu a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 | 0 | 100 | 100 | 0 |
| **Cyfanswm y gwariant yn AME** | **0** | **0** | **0** | **100** | **100** | **679** |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm y cyfalaf** | **812** | **0** | **812** | **1,524** | **712** | **679** |

## SoPS 2. Cysoni alldro i'r gwariant gweithredu net

| Eitem | Cyfeirnod | Cyfanswm alldro | Cyfanswm alldro'r flwyddyn flaenorol, 2021/22 |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Cyfanswm alldro adnoddau** | **SOPS 1.1** | 25,151 | 16,657 |
| Llai:<br>Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | SOPS 4 | 0 | 0 |
| **Gwariant Gweithredu Net yn y Gwariant Net Cynhwysfawr** | **SOCNE** | **25,151** | **16,657** |

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r SOPS uchod, llunnir alldro a'r amcangyfrifon yn erbyn y fframwaith cyllidebu, sy'n debyg i, ond yn wahanol i'r IFRS. Felly, mae'r cymodi hwn yn pontio'r alldro adnoddau â gwariant gweithredu net, gan gysylltu'r SOPS â'r datganiadau ariannol

# SoPS 3. Cysoni alldro adnoddau net i'r gofyniad arian parod net

| Eitem | Cyfeirnod | Cyfanswm alldro | Amcangyfrif | Alldro yn erbyn Amcangyfrif, arbedion/(gormodedd) |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Cyfanswm alldro adnoddau** | **SOPS 1.1** | **25,151** | **25,497** | **279** |
| **Cyfanswm alldro cyfalaf** | **SOPS 1.2** | **812** | **1,524** | **712** |
| | | | | |
| *Addasiadau i ddileu eitemau anariannol:* | | | | |
| Dibrisio/amorteiddio | 3 | (1,105) | (1,332) | (227) |
| Cydnabyddiaeth a threuliau archwilwyr | 3 | (104) | (50) | 54 |
| Darpariaethau newydd ac addasiadau i gyfnodau blaenorol | 3 | (36) | (150) | (114) |
| Eitemau anariannol eraill | 3 | 161 | | (161) |
| Amhariad Asedau | 3 | (1,779) | | 1,779 |
| | | | | |
| *Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithio:* | | | | |
| Cynnydd/(lleihad) mewn symiau derbyniadwy | 8 | 84 | | (84) |
| (Cynnydd)/lleihad mewn symiau taladwy | 10 | (1,098) | 859 | 1,957 |
| Defnyddio'r ddarpariaeth | 11 | 14 | 0 | (14) |
| Ad-dalu cyfalaf ar Brydlesau | 7 | 567 | 0 | (567) |
| | | | | |
| Cyfanswm | | 22,667 | 26,348 | 3,681 |
| | | | | |
| **Dileu eitemau cyllideb heb bleidlais:** | | | | |
| Gwasanaethau Sefydlog y Gronfa Gyfunol | SOPS 1.1 | (178) | (225) | (47) |
| | | | | |
| Cyfanswm | | (178) | (225) | (47) |
| | | | | |
| **Gofyniad arian parod net** | | **22,489** | **26,123** | **3,634** |

Rydym yn llunio'r alldro a'r Amcangyfrifon yn erbyn y fframwaith cyllidebu, ac nid ar sail arian parod. Felly, mae'r cysoni hyn yn pontio'r alldro adnoddau a chyfalaf i'r gofyniad arian parod net.

## SoPS 4. Symiau o incwm i'r Gronfa Gyfunol

Mae'r symiau a ddangosir yn y tabl isod yn symiau a gasglwyd gan y Comisiwn lle'r oedd yn gweithredu fel asiant ar gyfer y Gronfa Gyfunol yn hytrach na fel pennaeth. Mae'r symiau a gesglir ar gyfer dirwyon a chosbau gan ymgyrchwyr gwleidyddol. Gellir gweld manylion llawn yn yr adroddiad Pwerau a Sancsiynau ar dudalen 53 o'r Adroddiad Perfformiad.

| Eitem | Cyfanswm alldro | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2021/22 |
|---|---|---|
| Dirwyon a chosbau | 16 | 58 |
| Swm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 16 | 58 |
| Balans a ddelir ar ddechrau'r flwyddyn | 0 | 0 |
| Taliadau i'r Gronfa Gyfunol | (11) | (58) |
| **Balans a ddelir ar ymddiriedaeth ar ddiwedd y flwyddyn** | **5** | **0** |

**Nodiadau**

Cafodd pob derbyniad ar gyfer dirwyon a chosbau a dderbyniwyd erbyn 31 Mawrth 2023 ei hildio i'r Gronfa Gyfunol, fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

## Datgeliadau Atebolrwydd Seneddol

### Colledion a thaliadau arbennig (yn amodol ar archwiliad)

Ni fu unrhyw daliadau arbennig yr oedd angen i'r Comisiwn Etholiadol eu datgelu ar gyfer 2022/23 (202/22 £0).

Roedd 26 o golledion gyda chyfanswm gwerth o £1.8m

| **Datganiad Colledion (£'000)** | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|
| Cyfanswm y colledion | 26 | DIM |
| Cyfanswm gwerth colledion (£000) | 1,823 | DIM |
| Colledion arian parod | 444 | DIM |
| Taliadau ofer<br>Prosiect Cyllid Gwleidyddol Ar-lein | 1,779 | DIM |

### Taliadau ofer

Mae ein colled o dros £300,000 o ganlyniad i ddarpariaeth aflwyddiannus y prosiect Cyllid Gwleidyddol Ar-lein presennol. Ni fyddai parhad y prosiect yn werth am arian, hyd yn oed pe bai'r prosiect yn llwyddo, mae gan weithrediad system sy'n seiliedig ar Mendix risgiau sylweddol. Felly, yn unol â'n rhwymedigaethau o dan Rheoli Arian Cyhoeddus, y gwerth gorau am arian a'r opsiwn mwyaf ymarferol ar gyfer cyflawni yw rhoi'r gorau i weithio ar y prosiect presennol ac ystyried gwahanol ddulliau technolegol a phrosiectau o gyflawni gan ddefnyddio ein storïau gan ddefnyddwyr presennol.

### Rhwymedigaethau digwyddiadol pell (yn amodol ar archwiliad)

Mae'r Comisiwn yn datgelu at ddibenion adrodd ac atebolrwydd Seneddol lle mae'r tebygolrwydd o drosglwyddo budd economaidd yn fach, ond bod adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Senedd arnynt yn unol â gofynion Managing Public Money.

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol pell i adrodd arnynt at ddibenion adrodd ac atebolrwydd Seneddol yn 2022/23 (2021/22 £0).



**Shaun McNally**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**
**6 Medi 2023**

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd, Senedd Cymru a Senedd yr Alban

## Barn ar ddatganiadau ariannol

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Mae'r datganiadau ariannol ar gyfer y Comisiwn Etholiadol yn cynnwys y canlynol:

- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2023;
- Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o Lifau Arian a Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben wedyn; a'r
- nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu sylweddol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn gyfraith gymwys ac mae'r DU wedi mabwysiadu safonau cyfrifyddu rhyngwladol.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion y Comisiwn Etholiadol ar 31 Mawrth 2023 a'i wariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben wedyn; ac
- wedi'u paratoi'n iawn yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 a gyhoeddwyd yn ôl y gofynion hynny.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol:

- mae'r Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol yn cyflwyno'n iawn yr alldro yn erbyn cyfansymiau rheoli pleidleisiedig Senedd y DU ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 ac yn dangos nad yw'r cyfansymiau hynny wedi cael eu rhagori; a

- mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail ar gyfer barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) (ISAs UK), y gyfraith gymwys a Nodyn Ymarfer 10 Archwilio Datganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Cyrff Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2022). Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019 y Cyngor Adrodd Ariannol i Archwilwyr. Rwy'n annibynnol i'r Comisiwn Etholiadol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'm barn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd y Comisiwn Etholiadol o sail busnes gweithredol cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Comisiwn Etholiadol i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadir sail busnes gweithredol cyfrifyddu ar gyfer y Comisiwn Etholiadol wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) a baratoir gan Drysorlys Ei Fawrhydi, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail busnes gweithredol cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle rhagwelir y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol na thystysgrif ac adroddiad fy archwilydd. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am yr wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson â'r datganiadau ariannol, neu os yw'n ymddangos bod yr wybodaeth a gafwyd gennyf yn yr archwiliad, neu fel arall, yn ymddangos ei bod wedi'i cham-ddatgan yn sylweddol.

Os byddaf yn nodi anghysondebau sylweddol o'r fath neu gamddatganiadau ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol eu hunain.

Os byddaf, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio wedi'i baratoi'n iawn yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad ar Atebolrwydd sy’n amodol ar archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad ar Berfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

## Materion yr wyf yn adrodd amdanynt drwy eithriad

Yn sgil yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r Comisiwn Etholiadol a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiadau ar Berfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nid yw’r Comisiwn Etholiadol wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol neu os na dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelwyd â nhw gan fy staff; neu

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a’r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad ar Atebolrwydd sy'n destun archwiliad yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw rhai datgeliadau o gydnabyddiaeth a nodir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) a baratoir gan Drysorlys Ei Fawrhydi wedi'u gwneud, neu nid yw rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddol; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethiant yn adlewyrchu cydymffurfiad â chanllawiau Trysorlys EF

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- rhoi mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol fel cofnodion, dogfennau a materion eraill;
- darparu gwybodaeth ac esboniadau ychwanegol i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol sydd eu hangen ar gyfer ei archwiliad;
- darparu mynediad anghyfyngedig i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i bobl o fewn y Comisiwn Etholiadol y mae'r archwilydd yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio oddi wrthynt;
- sicrhau bod rheolaethau mewnol o'r fath ar waith, fel y tybir eu bod yn angenrheidiol, er mwyn galluogi i baratoad y datganiad ariannol fod yn rhydd rhag camddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad;
- sicrhau bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac yn cael eu paratoi yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000;
- sicrhau bod yr adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad ar Gydbyddiaeth a Staff, yn cael ei baratoi yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000; ac
- asesu gallu’r Comisiwn Etholiadol i barhau fel busnes gweithredol, datgelu, fel y bo'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y Comisiwn Etholiadol yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu gyda’i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

## I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau gan gynnwys twyll

Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Nodir i ba raddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, isod.

## Nodi ac asesu risgiau posibl sy'n gysylltiedig â pheidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau camddatganiad perthnasol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, rwy'n:

- ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a’r perfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisïau, dangosyddion perfformiad allweddol a chymhellion perfformiad y Comisiwn Etholiadol.
- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y Comisiwn Etholiadol a'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau’r Comisiwn Etholiadol ar::
    - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau;
    - canfod ac ymateb i risgiau twyll; a
    - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau’r Comisiwn Etholiadol sy'n ymwneud â chydymffurfiad y Comisiwn Etholiadol â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, a Rheoli Arian Cyhoeddus;
- holi’r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y Comisiwn Etholiadol, y cwnsler cyfreithiol mewnol a'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu p'un:

    - a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau;
    - a oedd ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, drwgdybiedig neu honedig;
- trafod gyda'r tîm ymgysylltu ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli o fewn y Comisiwn Etholiadol ar gyfer twyll, a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabyddiaeth refeniw, postio cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth, a gogwydd mewn amcangyfrifon rheoli. Yn gyffredin â phob archwiliad o dan Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU), mae'n ofynnol i mi hefyd gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddistyru rheolwyr.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod y Comisiwn Etholiadol a fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae'r Comisiwn Etholiadol yn gweithredu ynddynt. Canolbwyntiais ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Comisiwn Etholiadol. Roedd y deddfau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, Deddf Rheoli Arian Cyhoeddus, Cyflenwi a Dyrannu (Prif Amcangyfrifon) 2022, cyfraith cyflogaeth a Deddfwriaeth treth.

## Ymateb archwilio i risgiau a nodwyd

I ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- adolygais ddatgeliadau a phrofion datganiadau ariannol i ddogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau deddfau a rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- gofynnais i'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a chwnsler cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a dichonadwy;
- adolygais gofnodion cyfarfodydd y rheiny sy’n gyfrifol am lywodraethu a’r Bwrdd ac adroddiadau archwilio mewnol;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy reolwyr yn diystyru rheolaethau, profais addasrwydd cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesais a yw'r dyfarniadau ar amcangyfrifon yn arwydd o ragfarn ddichonadwy; a gwerthusais resymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol; ac
- rwyf wedi adolygu a gafodd yr ymosodiad seiber unrhyw effaith ar gyfanrwydd systemau adrodd ariannol ac wedi cadarnhau na effeithiwyd ar y datganiadau ariannol.

Cyfathrebais gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll dichonadwy i bob aelod o'r tîm ymgysylltu a pharheais i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o’m cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o’m tystysgrif.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth briodol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol yn cyflwyno'n iawn yr alldro yn erbyn cyfansymiau rheoli pleidleisiedig Senedd y DU ac nad yw'r cyfansymiau hynny wedi cael eu rhagori. Cyfansymiau rheoli pleidleisiedig Senedd y DU yw Terfynau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), Di-Gyllideb (Adnoddau) a Gofyniad Arian Net.

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol, ymhlith materion eraill, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad


Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies**
**Dyddiad 7 Medi 2023**

**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

National Audit Office
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP

# Y datganiadau ariannol



# Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 2022/23 £000 | 2021/22 £000 |
|---|---|---|---|
| Incwm gweithredu – Llywodraeth yr Alban | *4* | (2,047) | (2,593) |
| Incwm gweithredu – Senedd Cymru | *4* | (1,512) | (1,654) |
| Incwm gweithredu arall | *4* | (21) | (34) |
| **Cyfanswm yr incwm gweithredu** | | (3,580) | (4,281) |
| Costau staff | *3* | 12,037 | 10,762 |
| Prynu Nwyddau a Gwasanaethau | *3* | 11,559 | 7,569 |
| Taliadau dibrisio ac amorteiddio | *3* | 1,105 | 455 |
| Amhariad asedau | *3* | 1,779 | 0 |
| Traul y Ddarpariaeth | *3* | 36 | 22 |
| Gwariant gweithredu arall | *3.1* | 1,991 | 1,957 |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | | 28,507 | 20,765 |
| **Gwariant gweithredu net** | | 24,927 | 16,484 |
| Ffioedd Comisiynwyr | | 178 | 173 |
| Costau cyllidol am brydlesau | | 46 | 0 |
| **Gwariant net am y flwyddyn** | | 25,151 | 16,657 |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall** | | | |
| Eitemau nas ailddosberthir i gostau gweithredu net: Ennill/colled actiwaraidd ar rwymedigaethau cynllun pensiwn | | | |
| Ennill/Colled Actiwaraidd ar rwymedigaethau cynllun pensiwn | *11* | (22) | 11 |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | 25,129 | 16, 668 |

Mae'r 'Nodiadau i'r Cyfrifon Adnoddau' yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o'r sefyllfa ariannol

## Ar 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 31 Mawrth 2023 £000 | 31 Mawrth 2022 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | *5* | 558 | 734 |
| Asedau anniriaethol | *6* | 601 | 1,900 |
| Ased Hawl i Ddefnyddio | *7* | 4,384 | 0 |
| ***Cyfanswm yr asedau nad ydynt yn gyfredol*** | | 5,543 | 2,634 |
| **Asedau cyfredol:** | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | *8* | 803 | 875 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | *9* | 9 | 619 |
| ***Cyfanswm yr asedau cyfredol*** | | 812 | 1,494 |
| **Cyfanswm yr asedau** | | 6,355 | 4,128 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | *10* | (2,953) | (2,452) |
| Darpariaethau | *11* | (64) | (56) |
| Rhwymedigaethau Prydles | *7* | (430) | 0 |
| ***Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol*** | | (3,447) | (2,508) |
| **Cyfanswm yr asedau llai cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | 2,908 | 1,620 |
| **Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | | |
| **Rhwymedigaethau Prydles** | *7* | (3,817) | 0 |
| Darpariaethau | *11* | (692) | (861) |
| Symiau taladwy eraill | *10* | (1) | (4) |
| ***Cyfanswm y rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol*** | | (4,510) | (865) |
| **Cyfanswm yr Asedau llai rhwymedigaethau** | | (1,602) | 755 |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Cronfa gyffredinol | | (1,602) | 755 |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | (1,602) | 755 |



**Shaun McNally**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**
**6 Medi 2023**

Mae'r 'Nodiadau i'r Cyfrifon Adnoddau' yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o Lifau Arian Parod

| Ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 | Nodyn | 2022/23 £000 | | Ailddosbarthwyd 2021/22 £000 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | | |
| Gwariant gweithredu net* | | (24,927) | | (16,484) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol | *3* | 2,863 | | 518 |
| Ffioedd Comisiynwyr* | | (178) | | (173) |
| Lleihad mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | *8* | 72 | | 457 |
| Cynnydd mewn symiau masnach taladwy | *10* | 498 | | 348 |
| Llai eitemau a ail-ddosbarthwyd fel gweithgareddau ariannu | | (3,480) | | (4,369) |
| *Llai symudiadau mewn symiau derbyniadwy a symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr* | | 602 | | (494) |
| Defnyddio darpariaethau | *11* | (14) | | (14) |
| ***All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu*** | | (24,564) | | (20,211) |
| | | | | |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | *5* | (114) | | (202) |
| Prynu asedau anniriaethol | *6* | (698) | | (491) |
| Symudiad mewn Croniadau Cyfalaf | | (159) | | 209 |
| ***All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi*** | | (971) | | (484) |
| | | | | |
| **Llifau arian parod o weithgareddau ariannu** | | | | |
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwi) - y flwyddyn gyfredol | | 21,880 | | 16,846 |
| Ad-dalu'r prifswm ar brydlesau | | (567) | | 0 |
| Llog sy'n daladwy ar brydlesau cyllid | | (46) | | 0 |
| O'r Gronfa Gyfunol (Diffyg cyflenwi) - y flwyddyn gyfredol | | 178 | | 173 |
| O Weinyddiaethau Datganoledig | | 3,480 | | 4,369 |
| ***Mewnlif arian parod net o weithgareddau ariannu*** | | 24,925 | | 21,388 |
| **Cynnydd/(lleihad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod cyn addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | (610) | | 693 |
| Dirwyon a chosbau a dderbyniwyd ar ran y Gronfa Gyfunol | | 11 | | 58 |
| Taliadau o symiau i'r Gronfa Gyfunol | | (11) | | (158) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cynnydd/(lleihad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod cyn addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | (610) | | 593 |
| | | | | |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | *9* | 619 | | 26 |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | | 9 | | 619 |

*Mae llifau arian gweithredol wedi'u hailddosbarthu o fewn cymariaethau 2021-22. Nid oes unrhyw effaith ar naill ai'r all-lif arian net o weithgareddau gweithredu neu gyfanswm y cynnydd net mewn arian parod.

Mae'r 'Nodiadau i'r Cyfrifon Adnoddau' yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr

| Y Flwyddyn Ariannol a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2023 | Nodyn | Cronfa Gyffredinol £000 |
| --- | --- | --- |
| **Balans ar 1 Ebrill 2021** | | 937 |
| Cyllid Seneddol Net – a ddefnyddiwyd | | 16,846 |
| Cyllid Seneddol Net – a dybiwyd | | 26 |
| Gwasanaethau Sefydlog y Gronfa Gyfunol (diffyg cyflenwi) yn y Flwyddyn Gyfredol | | 173 |
| Addasiad cyflenwi sy'n daladwy | *10* | (619) |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | *SoCNE* | (16,668) |
| **Addasiadau Anariannol:** | | |
| Taliadau anariannol – cydnabyddiaeth yr archwilydd | *3* | 60 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | | 755 |
| Cyllid Seneddol Net – a ddefnyddiwyd | | 21,880 |
| Cyllid Seneddol Net – a dybiwyd | *9* | 619 |
| Gwasanaethau Sefydlog y Gronfa Gyfunol (diffyg cyflenwi) yn y Flwyddyn Gyfredol | *SoCNE** | 178 |
| Addasiad cyflenwi sy'n daladwy | *9* | (9) |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | *SoCNE* | (25,129) |
| **Addasiadau Anariannol:** | | |
| Taliadau anariannol – cydnabyddiaeth yr archwilydd | *3* | 104 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | | (1,602) |

Mae'r 'Nodiadau i'r Cyfrifon Adnoddau' yn rhan o'r cyfrifon hyn.

** Ffioedd Comisiynwyr*

# Nodiadau ar y Cyfrifon Adnoddau

## 1. Polisïau cyfrifyddu, amcangyfrifon cyfrifyddu allweddol a dyfarniadau cyfrifyddu

### 1.1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Caiff y datganiadau eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) y Llywodraeth 2022/23, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

Mae'r polisïau cyfrifyddu yn y FReM yn cymhwyso'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle bo'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y bernir mai hwnnw yw'r un mwyaf priodol i amgylchiadau penodol y Comisiwn Etholiadol at ddiben rhoi darlun gwir a theg.

Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan y Comisiwn Etholiadol isod. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon, ac eithrio cyflwyno IFRS16 lle mae cymariaethau ag IAS17 yn aros yn ddigyfnewid fel y nodir yn nodyn 1.15.

### 1.2 Sail paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol, ac eithrio lle nodir fel arall yn y polisïau cyfrifyddu. Cyflwynir ffigurau mewn punnoedd sterling a chânt eu talgrynnu i'r £1,000 agosaf.

Cânt eu paratoi yn unol â Chyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan Drysorlys EF yn unol â Pharagraff 17(2) Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

### 1.3. Datganiadau cyfrifyddu a gyhoeddwyd nad ydynt eto mewn grym

Mae un safon adrodd wedi'i chyhoeddi ond nad yw eto mewn grym:

- IFRS17 (Contractau Yswiriant)

Mae IFRS17 (yn weithredol yn y FReM 2025-26) yn nodi contractau yswiriant lle mae'r endid yn derbyn risg yswiriant sylweddol gan barti arall. Nid yw'r Comisiwn wedi ymrwymo i unrhyw gontractau o'r fath ac ni fydd y safon hon yn effeithio arno.

## Polisïau cyfrifyddu ar gyfer gwariant

### 1.4 Gwariant ar y rhaglen

Rydym wedi cynhyrchu’r Cyfrifon hyn gyda digon o fanylion i roi darlun gwir a theg o'n gweithrediadau.

At ddibenion cyllidebu, rydym yn gwahaniaethu rhwng ein costau gweithredu craidd a'n gweithgareddau sy'n gysylltiedig â digwyddiad. Yn y cyfrifon hyn, rydym wedi nodi'r costau gweithredu craidd fel gwariant (nodyn 3) a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â digwyddiad fel costau gweithredu eraill (nodyn 3.1).

Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn cynnwys y costau yr aed iddynt ac unrhyw incwm gweithredu cysylltiedig.

### 1.5 Costau staff

Mae costau staff yn cynnwys cyflogau, costau nawdd cymdeithasol a chostau pensiwn. Caiff yr holl gostau ar gyfer staff byrdymor sy'n daladwy ar ddiwedd y flwyddyn, a gaiff eu talu o fewn blwyddyn i'r dyddiad adrodd, eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn cynnwys unrhyw hawl i wyliau blynyddol a gronnwyd.

### 1.6 Pensiynau

Caiff cyn-gyflogeion a chyflogeion presennol eu cwmpasu gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'r PCSPS yn gynllun buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr ac nid yw'n bosibl nodi cyfran y Comisiwn o'r asedau a'r rhwymedigaethau. Felly, cyfrifir amdano fel cynllun cyfraniadau diffiniedig a chaiff taliadau eu cydnabod yn y cyfnod y maent yn dod yn ddyledus.

Cyfeiriwch at nodyn 11.1 i weld y ffordd y caiff pensiwn cyn-gyflogeion Comisiwn Llywodraeth Leol Lloegr ei gyfrifo o ganlyniad i drosglwyddo ei swyddogaethau i'r Comisiwn Etholiadol ar 1 Ebrill 2002 ac ymgorffori ei asedau a'i rwymedigaethau ar y dyddiad hwnnw.

### 1.8 Ymchwil a Datblygu

Codir y gwariant ar waith ymchwil ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn yr eir iddo. Hefyd, caiff gwariant datblygu ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr pan eir iddo, oni bai ei fod yn bodloni'r meini prawf penodol ar gyfer cyfalafu yn unol â safonau IFRS

### 1.9 Grantiau sy'n daladwy

Caiff grantiau sy'n daladwy eu cofnodi fel gwariant yn y cyfnod pan geir y digwyddiad neu’r gweithgaredd sy'n creu’r hawl i roi'r grant. Yr unig grant rydym yn ei dalu ar hyn o bryd yw'r Grant Datblygu Polisi a nodir yn nodyn 3.1.

### 1.10 Treth ar Werth (TAW)

Cyflawnir gwaith y Comisiwn Etholiadol o dan statud a'r tu allan i gwmpas TAW ar allbwn. Codir TAW ar fewnbwn ar y categori gwariant perthnasol, neu os yw'n briodol caiff ei chyfalafu gydag ychwanegiadau i asedau nad ydynt yn gyfredol. Cofnodir incwm a gwariant gan gynnwys TAW.

## Polisïau cyfrifyddu ar gyfer incwm

### 1.11 Incwm

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn darparu cyllid i'r Comisiwn ar gyfer costau yr eir iddynt mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig yng Nghymru a'r Alban. Ystyrir bod y cyllid hwn yn cyfateb i grant gan y llywodraeth o dan IAS 20 gan fod hawl gan y Comisiwn i incwm lle mae wedi mynd i gostau er mwyn cyflawni'r amcanion hynny. Caiff arian parod ei dynnu i lawr yn erbyn cyllideb sy'n cynrychioli gwariant a ragwelir drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r Comisiwn yn cydnabod y cyllid a geir fel incwm yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr i'r graddau ei fod wedi ariannu gwariant uniongyrchol y Comisiwn a chyfrannu at wariant anuniongyrchol fel y cytunir arno yn y Datganiad o Egwyddorion Cyllido. Lle mae swm yr arian parod a dynnir i lawr yn fwy na'r gwariant, caiff y gwahaniaeth hwn ei gydnabod yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol fel incwm gohiriedig.

Nid yw incwm gweithredu yn cynnwys incwm o ddirwyon a chosbau a gesglir gan bleidiau gwleidyddol, gan fod angen talu'r rhain yn llawn i'r Gronfa Gyfunol pan gânt eu derbyn.

## Polisïau cyfrifyddu ar gyfer asedau a rhwymedigaethau

### 1.12 Eiddo, peiriannau a chyfarpar ac asedau anniriaethol

Caiff gwariant o £1,000 neu fwy ar eiddo, peiriannau a chyfarpar neu asedau anniriaethol ei gyfalafu pan ddisgwylir y bydd yn arwain at fudd am flynyddoedd i ddod. Wrth eu cydnabod gyntaf, mesurir asedau am y gost, gan gynnwys yr holl gostau sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn.

Caiff yr holl asedau anghyfredol eu hadolygu’n flynyddol am ddiffygion a’u cario ar gost hanesyddol wedi'i dibrisio. Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu dibrisio, a chaiff asedau anniriaethol eu hamorteiddio, ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol er mwyn sicrhau y cânt eu cofnodi ar eu gwerth gweddilliol amcangyfrifedig ar ddiwedd eu hoes.

Ystyrir bod asedau sy'n cael eu hadeiladu wedi'u prynu pan allant fod ar gael i'w defnyddio ac y byddant yn cynhyrchu buddiannau economaidd yn y dyfodol.

### 1.13 Dibrisio ac amorteiddio

Nodir tir, adeiladau, peiriannau ac offer ar eu gwerth. Caiff yr holl asedau gweithredol heb fod yn eiddo eu prisio yn seiliedig ar gost hanesyddol wedi'i dibrisio fel procsi am werth

teg. Mae hyn oherwydd bod y rhain yn asedau ag oes gymharol fer neu werth cymharol isel nad yw eu gwerthoedd yn codi a gostwng yn sylweddol dros y cyfnod y cânt eu defnyddio.

Ased nad yw o natur ffisegol yw ased anniriaethol. Yn y Comisiwn Etholiadol, mae asedau anniriaethol yn cynnwys trwyddedau i'r hawliau i ddefnyddio meddalwedd neu gostau datblygu ein meddalwedd ein hun. Caiff asedau anniriaethol eu hamorteiddio ar sail llinell syth dros eu hoes economaidd ddefnyddiol.

Oes asedau yw:

| | |
|---|---|
| Eiddo ar Brydles/Gwelliannau i Brydlesau | 10 |
| Cyfarpar Swyddfa | 5 |
| Caledwedd TG | 3 |
| Gosodiadau a ffitiadau | 10 |
| Asedau anniriaethol (technoleg gwybodaeth, trwyddedau meddalwedd a gwefannau) | 3 |
| Asedau anniriaethol mewnol | 10 |

### Trwyddedau meddalwedd

Pan fyddwn yn prynu trwyddedau meddalwedd parhaol rydym yn berchen arnynt yn gyfan gwbl, ystyrir y trwyddedau fel ased anniriaethol ar y pwynt y cyflwynir y trwyddedau a gallwn gael budd ohonynt.

### Meddalwedd a ddatblygir yn fewnol

Pan fyddwn yn datblygu ein meddalwedd ein hunain, ystyrir ased anniriaethol yn unol ag IAS 38 (Asedau Anniriaethol) pan allwn ddangos:

- ei bod yn ddichonadwy yn dechnegol cwblhau'r feddalwedd ac y bydd ar gael i'w defnyddio
- bydd ar gael i'w defnyddio a bydd yn cynhyrchu buddiannau economaidd yn y dyfodol;
- gellir mesur y costau datblygu mewn ffordd ddibynadwy

Caiff costau ymchwil sy'n gysylltiedig â phrosiectau datblygu eu gosod fel treuliau fel yr eir iddynt; mae hyn yn cynnwys unrhyw weithgareddau dadansoddi ac ymgysylltu â'r farchnad ac unrhyw waith caffael cysylltiedig neu gostau rheoli prosiectau sy'n gysylltiedig â'r cam ymchwil.

### Gwasanaethau cyfrifiadurol cwmwl

Pan fyddwn yn gwneud taliadau mewn perthynas â defnyddio gwasanaethau cyfrifiadurol cwmwl a brynir gan wasanaeth trydydd parti, ni chaiff y rhain eu cyfalafu oherwydd nid oes gennym deitl cyfreithiol i'r asedau sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau hyn, na hawliau i'w rheoli. Mae hyn yn cynnwys costau gweithredu cysylltiedig, megis addasu, ffurfweddu neu hyfforddi gwasanaethau, sy'n ein galluogi i gael budd o'r gwasanaeth cyfrifiadurol cwmwl.

## 1.14 Prydlesau

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi mabwysiadu IFRS 16 (Leases), yn effeithiol o 1 Ebrill 2022 yn unol â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM). Mae IFRS16 yn nodi egwyddorion cydnabyddiaeth, mesur, cyflwyno a datgelu prydlesau ac yn disodli'r safon flaenorol, sef IAS17 (Prydlesau).

Mae IFRS 16 yn ei gwneud yn ofynnol i endid gydnabod ased yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol sy'n ymwneud â chontractau sydd yn, neu sy'n cynnwys, prydles ased a nodwyd, fel eiddo, cerbydau neu offer. Cydnabyddir atebolrwydd prydles gyfatebol ar yr un pryd, gan ddefnyddio gwerth presennol y taliadau prydles nad ydynt wedi'u talu eto.

Mae darpariaethau trosiannol IFRS 16, fel y'u haddaswyd gan y FReM, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol ddefnyddio dull ymarferol i gydnabod yr effaith gronnol o ddefnyddio IFRS 16 i ddechrau ar ddyddiad y cais cychwynnol fel addasiad i gydbwysedd agoriadol y Gronfa Gyffredinol.

Nid yw cymharoliaethau blwyddyn flaenorol wedi'u hailddatgan ac maent yn parhau i gael eu cyflwyno o dan y safon prydlesu flaenorol, sef IAS 17. Gan fod yr addasiadau i gydnabod rhwymedigaethau prydlesau ac asedau hawl i’w defnyddio i gyd wedi digwydd yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, nid oes unrhyw addasiad i'r Gronfa Gyffredinol a Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr ar 1 Ebrill 2022. Manylir ar yr addasiadau pontio yn nodyn 7.3.

Pan fydd prydles wedi'i nodi, mae'r Comisiwn Etholiadol yn cydnabod ased hawl i’w ddefnyddio ac atebolrwydd prydles gyfatebol, yn seiliedig ar werth presennol llif arian parod yn y dyfodol ar gyfer pob prydles dros dymor y brydles berthnasol. Gwneir addasiad i'r ased hawl i’w ddefnyddio ar gyfer rhagdaliadau, ond ni wneir unrhyw addasiad o ran dadfeiliadau sy'n parhau i gael eu darparu ar eu cyfer ar wahân. Prydlesau tymor byr, y prydlesau hynny o dan 1 flwyddyn a phrydlesau y mae'r ased sylfaenol o werth isel ar eu cyfer, caiff taliadau'r brydles eu cydnabod fel cost. Mae’r Comisiwn Etholiadol wedi cymhwyso trothwy o £5,000 ar gyfer asedau gwerth isel.

Lle na ellir pennu'r gyfradd llog mewn prydles yn rhwydd, mae’r Comisiwn Etholiadol yn cyfrifo'r atebolrwydd gan ddefnyddio cyfraddau disgownt Trysorlys EF a gyhoeddwyd ym mhapurau'r Arolwg o Wariant Cyhoeddus fel y gyfradd fenthyca gynyddrannol. Ar gyfer prydlesau sy'n dechrau neu'n cael eu hailfesur yn 2022-23, 0.95% yw’r gyfradd hon. Nid yw'r Comisiwn Etholiadol yn defnyddio IFRS 16 ar gyfer prydlesau asedau anniriaethol ac mae'n cydnabod y rhain yn unol â IAS 38 lle bo hynny'n briodol.

Pan fydd prydles wedi'i nodi, mae'r Comisiwn Etholiadol yn cydnabod ased hawl i'w ddefnyddio.

Fel y caniateir gan y FReM, caiff asedau hawl i ddefnyddio eu mesur wedyn gan ddefnyddio'r model cost fel dirprwy ar gyfer mesur y gwerth cost sy'n cael ei ddefnyddio. Mae hyn oherwydd bod telerau prydles yn ei gwneud yn ofynnol i daliadau prydles gael eu diweddaru ar gyfer amodau'r farchnad, er enghraifft, adolygiadau rhent ar gyfer eiddo prydles.

Mae gennym bedair prydles ar hyn o bryd sydd wedi'u prisio am y gost, 3 Bunhill Row Llundain, Tŷ'r Cwmnïau Caerdydd, City Chambers Caeredin a 4 Cromac Place Belfast. Mae ein prydlesau eiddo am 10 mlynedd o fewn cytundebau terfynu a'r pwynt canol ffordd. Rydym yn tybio y bydd ein prydles yn parhau am dymor llawn y brydles. Mae'r rhwymedigaethau prydles yn dirwyn i ben dros gyfnod y brydles wrth i daliadau gael eu gwneud a chostau cyllid gael eu rhyddhau. Gweler nodyn 7.

Nid yw'r Comisiwn Etholiadol yn cymhwyso IFRS 16 i brydlesau asedau anniriaethol ac mae'n cydnabod y rhain yn unol ag IAS 38 lle bo hynny'n briodol.

### 1.15 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys balansau cyfredol a gedwir yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth.

### 1.16 Offerynnau ariannol

#### Asedau ariannol

Caiff symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill eu cydnabod o dan IFRS 9. Yn gyffredinol bydd ganddynt delerau 30 diwrnod a chânt eu cydnabod a'u trosglwyddo ar swm yr anfoneb wreiddiol llai lwfans ar gyfer unrhyw symiau na ellir eu casglu yn seiliedig ar asesiad o golled credyd ddisgwyliedig yn ystod oes y ddyled. Ar 31 Mawrth 2023, nid oes unrhyw ddarpariaeth yn ofynnol ar gyfer colledion credyd.

#### Rhwymedigaethau ariannol

Rydym yn cydnabod symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill yn wreiddiol am eu cost, lle mae gwerth amser arian yn berthnasol, ac rydym wedyn yn mesur symiau taladwy ar gost wedi'i hamorteiddio.

Gan fod ein gofynion o ran arian parod yn cael eu bodloni drwy'r broses amcangyfrifon, mae offerynnau ariannol yn llai pwysig ac yn peri llai o risg nag mewn corff o faint tebyg y tu allan i'r sector cyhoeddus.

Nid oes gennym bwerau i fenthyg na buddsoddi arian dros ben. Mae'r rhan fwyaf o offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau ar gyfer eitemau anariannol yn unol â'n gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig, felly risg fach iawn a wynebwn o safbwynt risg credyd, risg hylifedd neu risg y farchnad.

Nid ydym yn dal unrhyw offerynnau ariannol cymhleth. Yr unig offerynnau ariannol ar wahân i arian parod sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifon hyn yw symiau derbyniadwy a symiau taladwy (gweler nodiadau 8 a 10)

## Amcangyfrifon a dyfarniadau cyfrifyddu

### 1.17 Amcangyfrifon a dyfarniadau cyfrifyddu

Rydym wedi trafod ac wedi cytuno ar y gwaith o ddatblygu, dethol a datgelu amcangyfrifon a dyfarniadau cyfrifyddu arwyddocaol a chymhwyso’r dyfarniadau hyn â'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Mae Nodyn 1.15 yn datgelu'r dyfarniadau allweddol ar gyfer cydnabod a mesur asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaethau prydles.

Fel yr amlinellir yn Nodyn 11, rydym yn cydnabod rhwymedigaeth i wneud taliadau dadfeiliadau i berchnogion ein swyddfeydd pan ddaw prydlesau unigol i ben. Mae taliadau o'r fath yn adlewyrchu cost ddisgwyliedig adfer addasiadau ac addurniadau'r tenantiaid yn llawn ar adeg ymadael. Mae'r rheolwyr wedi asesu lefel y ddarpariaeth yn seiliedig ar asesiad proffesiynol gan syrfëwr siartredig o'r costau yn y dyfodol.

### 1.18 Asedau a rhwymedigaethau digwyddiadol

Caiff asedau a rhwymedigaethau digwyddiadol eu datgelu yn unol â Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 37 (Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol).

Os yw gwerth amser arian yn berthnasol, caiff rhwymedigaethau digwyddiadol y mae'n ofynnol eu datgelu o dan IAS 37 eu datgan ar symiau wedi'u disgowntio.

Datgelir ased digwyddiadol pan fydd ased posibl sy'n deillio o ddigwyddiadau'r gorffennol ac y bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau dim ond drwy ddigwyddiad neu ddiffyg digwyddiad un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt o fewn rheolaeth lwyr yr endid

### 1.19 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

Caiff darpariaethau o'r fath eu disgowntio i werthoedd presennol lle mae gwerth amser yr arian yn berthnasol. Caiff darpariaethau o'r fath eu disgowntio i werthoedd presennol lle mae gwerth amser yr arian yn berthnasol.

Yn dilyn trosglwyddo swyddogaethau Comisiwn Llywodraeth Leol Lloegr i'r Comisiwn Etholiadol ar 1 Ebrill 2002 ac ymgorffori ei asedau a'i rwymedigaethau ar y dyddiad hwnnw gan ddefnyddio IAS19, sefydlwyd darpariaeth i fodloni ei rwymedigaethau mewn perthynas â thaliadau pensiwn i rai o gyn-Gomisiynwyr yr endid hwnnw. Dangosir datgeliadau perthnasol yn nodyn 11.1

## 1.20 Busnes gweithredol

Paratowyd y cyfrifon hyn ar sail busnes gweithredol. Mae'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2023 yn dangos bod sefyllfa rhwymedigaethau net. Bydd y rhwymedigaethau hyn yn cael eu bodloni drwy ddarparu cyllid cyflenwi yn y dyfodol.

Gosodwyd ein Prif Amcangyfrif gerbron Senedd y DU ar 18 Mai 2023 ar gyfer yr adnoddau sydd eu hangen arnom yn 2023/24 a'n Cynllun Corfforaethol tan 2025/26. Fel corff a sefydlwyd gan ddeddfwriaeth a chan ddilyn egwyddorion FReM, tybir y bydd y gwasanaeth a ddarperir yn parhau. Nid oes unrhyw beth i awgrymu y bydd y gwasanaethau a ddarperir gan y Comisiwn yn dod i ben/na chaiff arian ei ddarparu yn y dyfodol.

# 2. Datganiad o Gostau Gweithredu fesul Segment Gweithredu

Rydym yn adrodd ar wariant rhwng ein hamcanion craidd. Hefyd, mae'r dadansoddiad yn nodi costau ffiniol y canlyniadau allweddol canlynol a reolir gennym drwy drefniadau rheoli segmentau a phrosiectau ffurfiol. Nodir y rhain isod.

Mae’r segment etholiadau a refferenda lleol yn llywodraethu ein gwaith o sicrhau bod etholiadau a refferenda yn cael eu cynnal yn effeithiol, gan roi canllawiau a chymorth i weinyddwyr etholiadau, ymgeiswyr ac asiantiaid, datblygu a monitro safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau a llunio adroddiadau ar weinyddu etholiadau a refferenda. Mae'r gweithgarwch cofrestru etholiadol yn ategu ein gwaith ymchwil a chynllunio ar ffurflenni i bleidleiswyr.

Nid ydym yn priodoli costau staff na gorbenion corfforaethol i weithgarwch rhaglenni na phrosiectau, ond at ddibenion y nodyn hwn, rydym naill ai wedi dyrannu neu wedi dosrannu’r costau hyn yn uniongyrchol fel y bo'n briodol rhwng cyllid etholiadol pleidiau a gweithgarwch gweinyddu etholiadau. Dim ond costau ymylol cyflenwi fesul rhaglen a phrosiect rydym yn adrodd arnynt i Fwrdd y Comisiwn a'r Tîm Gweithredol.

| £000 | Etholiadau a Refferenda Lleol | Cofrestru Etholiadol | Deddf Etholiadau | Gweinyddu Etholiadau | Rheoleiddio | 2022/23 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros** | 3,564 | 556 | 5,381 | 8,272 | 10,958 | **28,731** |
| **Incwm** | (1,118) | (75) | 0 | (1,184) | (1,203) | **(3,580)** |
| **Gwariant Net** | 2,446 | 481 | 5,381 | 7,088 | 9,755 | **25,151** |

| £000 | Etholiadau a Refferenda Lleol | Cofrestru Etholiadol | Deddf Etholiadau | Gweinyddu Etholiadau | Rheoleiddio | 2021/22 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros** | 4,684 | 218 | 116 | 6,612 | 9,308 | **20,938** |
| **Incwm** | (1,855) | (13) | 0 | (1,169) | (1,244) | **(4,281)** |
| **Gwariant Net** | 2,829 | 205 | 116 | 5,443 | 8,064 | **16,657** |

Fel dadansoddiad pellach, mae'r tabl isod yn dangos sut y rhennir gwariant ac incwm rhwng Senedd y DU, Senedd Cymru a Senedd yr Alban.

| | | | | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|
| | **Senedd y DU** | **Senedd yr Alban** | **Senedd** | **Cyfanswm** |
| **£000** | | | | |
| **Gwariant Uniongyrchol** | 19,604 | 1,495 | 1,192 | **22,291** |
| **Gwariant Anuniongyrchol** | 5,568 | 552 | 320 | **6,440** |
| **Incwm** | (3,580) | 0 | 0 | **(3,500)** |
| **Gwariant Net** | 21,592 | 2,047 | 1,512 | **25,151** |

| | | | | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|
| | **Senedd y DU** | **Senedd yr Alban** | **Senedd** | **Cyfanswm** |
| **£000** | | | | |
| **Gwariant Uniongyrchol** | 10,609 | 2,025 | 1,326 | **13,960** |
| **Gwariant Anuniongyrchol** | 6,082 | 568 | 328 | **6,978** |
| **Incwm** | (4,281) | 0 | 0 | **(4,281)** |
| **Gwariant Net** | 12,410 | 2,593 | 1,654 | **16,657** |

Mae gwariant anuniongyrchol yn cynnwys costau staffio a dibrisiant anuniongyrchol. Ceir incwm gan Senedd Cymru, Senedd yr Alban a Llywodraeth y DU.

# 3. Gwariant

| | 2022/23 £000 | 2021/22 £000 |
|---|---|---|
| **Costau staff**** | | |
| Cyflogau | 8,808 | 7,890 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 1,037 | 870 |
| Costau pensiwn eraill | 2,192 | 2,002 |
| | 12,037 | 10,762 |
| **Rhenti o dan brydlesau gweithredu** | | |
| Rhent eiddo | 123 | 731 |
| Cyfarpar | 23 | 6 |
| Llog ar brydlesau | 46 | 0 |
| **Prynu nwyddau a gwasanaethau** | | |
| Gwariant Adran 13 | 6,233 | 2,439 |
| Gwariant Adran 10 | 730 | 1,498 |
| Ymchwil* | 922 | 151 |
| Gwasanaeth ymgynghori* | 361 | 245 |
| Recriwtio | 187 | 148 |
| Hyfforddiant a datblygiad staff | 309 | 127 |
| Teithio a chynhaliaeth a lletygarwch | 119 | 29 |
| Teithio a chynhaliaeth – Comisiynwyr | 19 | 4 |
| Llety, cynnal a chadw | 752 | 704 |
| Cyhoeddusrwydd a chyhoeddiadau | 215 | 216 |
| Cynhadledd/cyfarfod cyhoeddus | 31 | 9 |
| Nwyddau swyddfa, llyfrau a chyfnodolion | 125 | 106 |
| Warws ac Archifo | 82 | 113 |
| TG/Ffôn | 1,265 | 905 |
| Taliadau banc a'r gyflogres | 68 | 54 |
| Ffioedd archwilio mewnol | 52 | 43 |
| | 11,662 | 7,528 |
| **Eitemau anariannol** | | |
| Dibrisiant | 870 | 248 |
| Amorteiddio | 224 | 207 |
| Effaith disgowntio | (161) | (33) |
| Ffioedd Archwilwyr y Swyddfa Archwilio Genedlaethol* | 104 | 60 |
| Darpariaethau a wnaed yn ystod y flwyddyn | 36 | 22 |
| Dileu Asedau | 1,779 | 14 |
| | 2,863 | 518 |
| | 26,562 | 18,808 |

* Dim gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio wedi'u darparu gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

**Yn 2022/23, cyfalafwyd £24,000 ychwanegol o gostau staff (£496,000 yn 2021/22)

Ni wnaed unrhyw daliadau yn ystod 2022/23 am ymddeol yn gynnar neu am golli swydd

### 3.1 Gwariant Gweithredu Arall

| | 2022/23<br>£000 | 2021/22<br>£000 |
|---|---|---|
| Grantiau datblygu polisi | 1,991 | 1,957 |
| | 1,991 | 1,957 |

Mae Adran 12 o PPERA yn darparu i’r Comisiwn Etholiadol weinyddu cynllun i dalu grantiau datblygu polisi i bleidiau gwleidyddol cofrestredig. Cynhwysir y cynllun presennol yng Ngorchymyn Etholiadau (Cynllun Grantiau Datblygu Polisi) 2006 fel y'i diwygiwyd.

Mae'r cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddyrannu £2,000,000 bob blwyddyn i bleidiau gwleidyddol cofrestredig i gynorthwyo gyda chostau datblygu polisïau i’w cynnwys mewn maniffestos ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon, neu etholiadau Senedd Cymru, Senedd yr Alban, Senedd San Steffan neu Senedd Ewrop. I fod yn gymwys i gael ei chynnwys yn y cynllun, rhaid i blaid wleidyddol gofrestredig fod ag o leiaf ddau AS yn eistedd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 7 Mawrth cyn y flwyddyn dan sylw, sydd wedi tyngu llw o deyrngarwch a ddarperir gan Ddeddf Llwon Seneddol 1866.

Mae'r dyraniad blynyddol o £2,000,000 yn cael ei rannu rhwng y pleidiau cymwys yn ôl y fformiwla dyrannu a nodir yn y Cynllun.

Cyflwynodd pob plaid ffurflenni gwariant a arweiniodd at daliadau o £1,991,268.

### 3.2 Gwariant ar ymwybyddiaeth y cyhoedd

Mae Adran 13 o PPERA yn ei gwneud yn ofynnol i ni hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o systemau etholiadol cyfredol yn y DU ac unrhyw systemau o'r fath sydd ar fin cael eu cyflwyno, ynghyd â materion o'r fath sy'n gysylltiedig ag unrhyw systemau sy'n bodoli eisoes neu ar fin cael eu cyflwyno fel y pennir gennym. Mae'r adran yn ein galluogi i gyflawni rhaglenni addysg neu wybodaeth i hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd; neu i wneud grantiau i bersonau neu gyrff eraill er mwyn eu galluogi i gyflawni rhaglenni o'r fath.

Mae Gwariant Adran 13 (heblaw am wariant ar gyfer etholiadau a refferenda datganoledig yng Nghymru, etholiadau Senedd Cymru ac etholiadau lleol yr Alban) yn cael ei gyfyngu gan Orchymyn y Comisiwn Etholiadol (Terfyn ar Wariant Ymwybyddiaeth y Cyhoedd) 2002 (OS 2002/505) a Gorchymyn y Comisiwn Etholiadol (Terfyn ar Wariant Ymwybyddiaeth y Cyhoedd) 2014 SI 2014/510 i £7,500,000 mewn blwyddyn ariannol. Nid yw terfyn gwariant Adran 13 yn berthnasol i weithgarwch ymwybyddiaeth y cyhoedd y darparwyd yn benodol ar ei gyfer ac a gynhaliwyd o dan ddeddfwriaeth ar wahân i PPERA.

Er nad ydynt yn perthyn i Adran 13, mae unrhyw gostau ymwybyddiaeth y cyhoedd ar gyfer yr Alban (Adran 10) wedi'u cynnwys yn y tabl isod.

| | **2022/23 £000** | **2021/22 £000** |
|---|---|---|
| Gwariant craidd ymwybyddiaeth y cyhoedd | 15 | |
| Gwariant ar godi ymwybyddiaeth y cyhoedd yn amodol ar derfyn Adran 13 | 6,268 | 2,439 |
| Llywodraeth leol yr Alban (A10) | 495 | 1,048 |
| Senedd Cymru (A10) | 235 | 450 |
| | 730 | 1,498 |
| **Cyfanswm ymwybyddiaeth y cyhoedd** | **6,963** | **3,937** |

# 4. Incwm

| | **2022/23 £000** | **2021/22 £000** |
|---|---|---|
| | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| Incwm Gweithredu: | | |
| Llywodraeth yr Alban | 2,047 | 2,593 |
| Senedd | 1,512 | 1,654 |
| Cofrestru Pleidiau Gwleidyddol o'r Newydd | 11 | 11 |
| Ailgofrestru Pleidiau Gwleidyddol | 8 | 8 |
| Newid Cofrestriadau Pleidiau Gwleidyddol | 2 | 3 |
| Taliadau/Trosglwyddo costau i gyrff eraill | | |
| Ailgodi tâl am ymchwil | 0 | 12 |
| Cyfanswm yr Incwm Gweithredu | 3,580 | 4,281 |

Nid yw incwm a geir gan bleidiau gwleidyddol drwy ddirwyon a chosbau yn rhan o'n hincwm yn ein datganiadau ariannol, gan fod angen ei dalu'n llawn i'r Gronfa Gyfunol pan gaiff ei dderbyn; gweler SoPs 4 ar gyfer y dadansoddiad hwn, ar dudalen 126

.

# 5. Eiddo, peiriannau a chyfarpar

| | Gwelliannau i Brydlesau | Cyfarpar swyddfa | Technoleg Gwybodaeth - caledwedd | Dodrefn a Ffitiadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 325 | 6 | 594 | 160 | 1,085 |
| Ychwanegiadau | 97 | 0 | 17 | 0 | 114 |
| Ailddosbarthiadau | 0 | (1) | 0 | 1 | 0 |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | 422 | 5 | 611 | 161 | 1,199 |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 32 | 2 | 301 | 16 | 351 |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 67 | 0 | 191 | 32 | 290 |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | 99 | 2 | 492 | 48 | 641 |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2023** | 323 | 3 | 119 | 113 | 558 |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2022** | 293 | 4 | 293 | 144 | 734 |
| **Ariannu asedau:** Yn berchen arnynt | 323 | 3 | 119 | 113 | 558 |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2023** | 323 | 3 | 119 | 113 | 558 |

| | Gwelliannau i Brydlesau | Cyfarpar swyddfa | Technoleg Gwybodaeth - caledwedd | Dodrefn a Ffitiadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 213 | 15 | 661 | 154 | 1,043 |
| Ychwanegiadau | 112 | 0 | 81 | 9 | 202 |
| Gwarediadau | 0 | (9) | (148) | (3) | (160) |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | 325 | 6 | 594 | 160 | 1,085 |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 0 | 0 | 248 | 4 | 252 |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 32 | 2 | 199 | 15 | 248 |
| Gwarediadau yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 | (146) | (3) | (149) |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | 32 | 2 | 301 | 16 | 351 |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2022** | 293 | 4 | 293 | 144 | 734 |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2021** | 213 | 15 | 413 | 150 | 791 |
| **Ariannu asedau:** Yn berchen arnynt | 293 | 4 | 293 | 144 | 734 |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | 293 | 4 | 293 | 144 | 734 |

# 6. Asedau anniriaethol

| | Technoleg Gwybodaeth<br>£000 | Trwyddedau Meddalwedd<br>£000 | Gwefannau<br>£000 | Technoleg Gwybodaeth - Asedau sydd wrthi'n cael eu Hadeiladu<br>£000 | Cyfanswm<br>£000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 270 | 67 | 483 | 1,585 | 2,405 |
| Ychwanegiadau | 0 | 1 | 337 | 360 | 698 |
| Amhariadau | 0 | 0 | (52) | (1,727) | (1,779) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | 270 | 68 | 768 | 218 | 1,324 |
| **Amorteiddio** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 162 | 31 | 312 | 0 | 505 |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 71 | 16 | 137 | 0 | 224 |
| Amhariadau | 0 | 0 | (6) | 0 | (6) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | 233 | 47 | 443 | 0 | 723 |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2023** | 37 | 21 | 325 | 218 | 601 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 258 | 31 | 442 | 1,298 | 2,029 |
| Ychwanegiadau | 45 | 48 | 124 | 274 | 491 |
| Gwarediadau | (33) | (12) | (70) | 0 | (115) |
| Ailddosbarthiadau | 0 | 0 | (13) | 13 | 0 |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | 270 | 67 | 483 | 1,585 | 2,405 |
| **Amorteiddio** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 148 | 25 | 238 | 0 | 411 |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 47 | 15 | 144 | 0 | 207 |
| Gwarediadau | (33) | (9) | (70) | 0 | (112) |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | 162 | 31 | 312 | 0 | 505 |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2022** | 108 | 36 | 171 | 1,585 | 1,900 |

Technoleg gwybodaeth – y system Cyllid Gwleidyddol Ar-lein yw'r asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu a thudalennau gwe yn bennaf. Dechreuodd y gwaith datblygu yn 2018/19 ac roedd disgwyl iddo gael ei gwblhau yn 2022/23. Gwnaed penderfyniad ym mis Hydref 2022 gan y Swyddog Cyfrifyddu ar ôl trafodaethau â'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg i amharu’r ased. Oherwydd bod rhagolygon isel o ran cyflawni'r prosiect presennol yn llwyddiannus a chan sicrhau gwerth am arian, yn unol â'r rhwymedigaethau o dan Rheoli Arian Cyhoeddus, yr opsiwn mwyaf dichonadwy sy'n sicrhau'r gwerth gorau am

arian yw rhoi'r gorau i waith ar y prosiect presennol ac ystyried dulliau technolegol a chyflawni gwahanol. Dangosir y penderfyniad i amharu uchod.

# 7. Prydlesau

Mae asedau hawl i ddefnydd yn cynrychioli'r hawl i gyfeirio defnydd ased sylfaenol sy'n codi o ganlyniad i brydles. Nid yw'r Comisiwn Etholiadol yn berchen ar yr ased sylfaenol, ond mae'n cydnabod gwerth yr hawl i ddefnyddio yn unol ag IFRS 16

## 7.1 Datgeliadau meintiol mewn perthynas ag asedau hawl i ddefnyddio

| | Adeiladau | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| **Gwerth asedau hawl i ddefnyddio ar 1 Ebrill 2022** | 4,975 | 0 | 4,975 |
| Dibrisiant a godwyd yn ystod y flwyddyn | (591) | 0 | (591) |
| **Gwerth asedau hawl i ddefnyddio ar 31 Mawrth 2023** | 4,384 | 0 | 4,384 |

Bydd ein prydlesau yng Nghymru a Gogledd Iwerddon yn dod i ben yn ystod 2023/24. Nid yw prydlesau newydd wedi'u caffael eto, felly ni ddangosir unrhyw ased neu atebolrwydd hawl i ddefnyddio yn y tablau ar ôl 2023/24.

## 7.2 Datgeliad meintiol mewn perthynas â rhwymedigaethau prydles

| | Adeiladau | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| **Atebolrwydd Prydles** | | | |
| Ddim yn hwyrach na blwyddyn | 603 | 0 | 603 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ac ddim yn hwyrach na 5 mlynedd | 2,356 | 0 | 2,356 |
| Yn hwyrach na 5 mlynedd | 1,461 | 0 | 1,461 |
| | 4,420 | 4,420 | |
| *Llai* elfen llog | 173 | 0 | 173 |
| **Gwerth Presennol Rhwymedigaethau** | **4,247** | **0** | **4.,247** |
| **Cyfanswm all-lif arian parod ar gyfer prydlesau** | **613** | **0** | **613** |

### 7.3 Cydnabyddiaeth gychwynnol prydlesau ym mis Ebrill 2022

| | Adeiladau | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Ymrwymiadau prydles weithredol IAS17 ar 31 Mawrth 2022** | 5,861 | 35 | 5,896 |
| Addasiad i gael gwared ar TAW | (977) | 0 | (977) |
| Addasiad ar gyfer newidiadau contract | 149 | 0 | 149 |
| Addasiad ar gyfer disgowntio llif arian yn y dyfodol | (219) | 0 | (219) |
| Llai o brydlesau yn cael eu trin fel rhai tymor byr ar fabwysiadu IFRS16 yn gychwynnol | 0 | (35) | (35) |
| **Rhwymedigaethau prydles ar 1 Ebrill 2022** | **4,814** | **0** | **4,814** |
| **Addasiadau ar gyfer rhagdaliadau** | **161** | **0** | **161** |
| **Ased Hawl i'w Ddefnyddio ar 1 Ebrill 2022** | **4,975** | **0** | **4,975** |

Roedd ymrwymiadau prydles weithredol a ddatgelwyd ar 31 Mawrth 2022 yn flaenorol yn cynnwys TAW na ellir ei hadfer. Mae'r TAW wedi'i dileu i ddilyn y driniaeth fesul IFRS 21 wrth gyfrifo atebolrwydd y brydles ar 1 Ebrill 2022. Disgowntio llif arian gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 0.95%, ac adlewyrchu addasiadau o fewn y contractau yw'r addasiadau eraill ar fabwysiadu IFRS16

### 7.4 Datgeliadau meintiol mewn perthynas ag elfennau yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

| | 2022/23 |
|---|---|
| | **£000** |
| Taliadau prydles amrywiol heb eu cynnwys mewn rhwymedigaethau prydles | 0 |
| Disgownt yn y flwyddyn | 46 |

| | | |
|---|---|---|
| Traul yn gysylltiedig â phrydlesau asedau gwerth isel (ac eithrio byrdymor) | 19 | |

# 8. Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill

| | 2022/23<br>£000 | 2021/22<br>£000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Symiau derbyniadwy eraill | 8 | 14 |
| Derbyniadau Ychwanegol y Gronfa Gyfunol oherwydd y Gronfa Gyfunol | 5 | 0 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 790 | 861 |
| | 803 | 875 |

# 9. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

| | 2022/23<br>£000 | 2021/22<br>£000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | 619 | 26 |
| Newid net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | (610) | 593 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | 9 | 619 |
| Roedd y balansau canlynol ar 31 Mawrth 2022 yn cael eu dal yn y mannau canlynol: | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 9 | 619 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | 9 | 619 |

# 10. Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|

| | £000 | £000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Trethiant a nawdd cymdeithasol arall | 599 | 520 |
| Symiau taladwy eraill | 204 | 1 |
| Derbyniadau Ychwanegol y Gronfa Cyfunol sydd i'w talu i'r Gronfa Gyfunol (derbyniadwy) | 5 | 0 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 2,292 | 1,190 |
| Incwm Gohiriedig – Senedd yr Alban | 14 | 26 |
| Incwm Gohiriedig – Senedd Cymru | 28 | 96 |
| Symiau a roddwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer cyflenwi ond nas gwariwyd ar ddiwedd y flwyddyn | 9 | 619 |
| | 2,953 | 2,452 |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:** | | |
| Symiau taladwy eraill, croniadau ac incwm gohiriedig | 1 | 4 |
| | 1 | 4 |

# 11. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Pensiwn £000 | Dadfeiliadau £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2022 | 160 | 757 | 917 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 2 | 34 | 36 |
| Darpariaethau nad ydynt yn ofynnol a adferwyd | 0 | 0 | 0 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (14) | 0 | (14) |
| Effaith disgowntio | 0 | (161) | (161) |
| (Ennill)/Colled Actiwaraidd | (22) | 0 | (22) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **126** | **630** | **756** |

**Dadansoddiad o amseru disgwyliedig llifau wedi'u disgowntio**

| | Pensiwn £000 | Dadfeiliadau £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dim mwy na blwyddyn | 64 | 0 | 64 |
| Mwy na blwyddyn ond dim mwy na phum mlynedd | 62 | 51 | 113 |
| Mwy na phum mlynedd | 0 | 579 | 579 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **126** | **630** | **756** |

### 11.1 Datganiad Rhwymedigaeth Pensiwn

Rydym yn darparu ar gyfer y rhwymedigaeth pensiwn i rai o gyn-Gomisiynwyr Comisiwn Llywodraeth Leol Lloegr, yn dilyn trosglwyddo swyddogaethau ar 1 Ebrill 2002.

Nid yw'r ddarpariaeth pensiwn wedi'i hariannu, gyda buddiannau'n cael eu talu wrth iddynt ddod yn ddyledus ac maent wedi'u gwarantu gan y cyflogwr. Nid oes cronfa, ac felly nid oes gwarged na diffyg. Gofynnwyd am gyngor actiwaraidd er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth wedi'i phennu ar lefel realistig. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth er mwyn rhoi gwerth ar y rhwymedigaeth pensiwn ar 31 Mawrth 2023. Cyfrifir am enillion a cholledion actiwaraidd drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Gan nad yw'r rhwymedigaethau pensiwn yn berthnasol, nid oes angen bodloni gofynion datgelu llawn IAS 19.

Y tybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari oedd:

| | **2022/23** | **2021/22** |
|---|---|---|
| Tybiaethau chwyddiant CPI | 2.40% | 2.90% |
| Cyfradd y cynnydd ar gyfer pensiynau | 2.40% | 2.90% |
| Y gyfradd a ddefnyddir i ddisgowntio rhwymedigaethau cynllun | 4.15% | 1.55% |

Sensitifrwydd y rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio (DBO) i newidiadau yn y rhagdybiaethau actiwaraidd sylweddol:

| **Newid mewn rhagdybiaeth*** | | **Effaith ar DBO** | |
|---|---|---|---|
| | | **%** | **£000oedd** |
| Cyfradd rhwymedigaethau cynllun disgowntio | + 0.5% y flwyddyn | (3) | (4) |
| Cyfradd cynnydd mewn CPI | + 0.5% y flwyddyn | 3 | 4 |
| Disgwyliad oes: cymerodd pob aelod 1 flwyddyn yn iau na'u hoedran | | 4 | 5 |

* Bydd newidiadau gwrthwyneb yn y dybiaeth yn cynhyrchu newidiadau cyfartal a gwrthwyneb yn y DBO. Bydd dyblu'r newidiadau yn y rhagdybiaethau yn cynhyrchu tua dwbl y newid yn y DBO. Mae'r sensitifrwydd yn dangos y newid yn y rhagdybiaeth mewn unigedd. Yn ymarferol, anaml y bydd tybiaethau o'r fath yn newid mewn unigedd ac, o ystyried y cyd-ddibyniaethau rhwng y rhagdybiaethau, gall yr effeithiau wrthbwyso i ryw raddau.

O 2010-11 ymlaen, newidiwyd y sail ar gyfer mynegeio buddiannau ymddeol o'r Mynegai Prisiau Manwerthu i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Paratôdd Adran Actiwari'r Llywodraeth brisiad ar 31 Mawrth 2023.

| | **2022/23** | **2021/22** |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Darpariaeth ar 1 Ebrill | 160 | 161 |
| Cost Llog | 2 | 2 |
| Colled/(Ennill) Actiwaraidd | (22) | 11 |
| Llai buddiannau a dalwyd | (14) | (14) |
| Cost gwasanaeth yn y gorffennol | | |
| Gwerth presennol y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn | 126 | 160 |

| **Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun** | **Gwerth ar 31/03/2023 £'000** | **Gwerth ar 31/03/2022 £'000** | **Gwerth ar 31/03/2021 £'000** | **Gwerth ar 31/03/2020 £'000** | **Gwerth ar 31/03/2019 £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhwymedigaeth mewn perthynas ag Aelodau gweithredol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pensiynwyr Gohiriedig | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pensiynwyr Presennol | 126 | 160 | 161 | 167 | 167 |
| **Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun mewn perthynas â phensiynwyr presennol** | 126 | 160 | 161 | 167 | 167 |

### 11.2 Dadfeiliadau

Rydym yn cydnabod rhwymedigaeth i wneud taliadau dadfeiliadau i berchnogion ein swyddfeydd pan ddaw prydlesau unigol i ben. Mae taliadau o'r fath yn adlewyrchu cost ddisgwyliedig adfer addasiadau ac addurniadau'r tenantiaid yn llawn ar adeg ymadael.

Mesurir dadfeiliadau ar yr amcangyfrif gorau, a gyflenwir gan syrfëwr allanol gan ddefnyddio canllaw prisiau'r diwydiant, o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth bresennol, ac mae'n adlewyrchu gwerth presennol y gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth lle bo gwerth amser arian yn berthnasol. Mae'r Comisiwn yn defnyddio cyfraddau disgowntio Trysorlys EF i gyfrifo'r gwerth presennol.

# 12. Asedau a rhwymedigaethau

## digwyddiadol

Fel ar ddiwedd 2022/23, roedd ymgyfreitha yn yr arfaeth i geisio iawndal o gontract methedig. Nid yw gwybodaeth sy'n ofynnol fel arfer o dan Ddarpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol IAS37 yn cael ei datgelu ar y sail y byddai hyn yn torri'r cyfrinachedd y cytunwyd arno gyda'r parti arall. Datryswyd y mater wedi hynny heb unrhyw gyfaddefiad o atebolrwydd gan y ddau barti, a gwnaed taliad o blaid y Comisiwn Etholiadol o £325,000, ond ni ystyriwyd hyn yn 'bron yn sicr' ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022/23.

Mae rhwymedigaethau digwyddiadol yn cwmpasu pob hawliad hysbys lle mae cyngor cyfreithiol yn nodi nad yw'r meini prawf ar gyfer cydnabod darpariaeth wedi'u bodloni neu lle mae'r posibilrwydd o drosglwyddo economaidd yn fach iawn.

Nid oedd unrhyw achosion cyfreithiol a oedd yn weithredol ar ddiwedd y flwyddyn neu sydd wedi dechrau ers hynny lle y gall fod angen i'r Comisiwn Etholiadol godi darpariaeth neu rwymedigaeth ddigwyddiadol. Mae'r rheolwyr wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw rwymedigaeth gyfredol debygol i drosglwyddo buddiannau economaidd yn bodoli.

# 13. Trafodion plaid gysylltiedig

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gorff sy'n annibynnol ar y Llywodraeth a phleidiau gwleidyddol, sy'n uniongyrchol atebol i Senedd y DU, Senedd Cymru a Senedd yr Alban. Nid oes gan y Comisiwn Etholiadol unrhyw gydberthnasau â phartïon cysylltiedig fel y'u diffinnir gan IAS 24 Datgeliadau partïon cysylltiedig.

Nid oes gan y Comisiwn Etholiadol drafodion ag adrannau'r llywodraeth na chyrff llywodraeth ganolog. Heblaw am gydnabyddiaeth fel y datgelir yn y cyfrifon, nid oes yr un o'r Comisiynwyr, Tîm Gweithredol na phartïon eraill sy'n gysylltiedig â nhw wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol â'r Comisiwn Etholiadol yn ystod y flwyddyn.

# 14. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10, caiff digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd eu hystyried hyd at y dyddiad y caiff y cyfrifon eu hawdurdodi i'w cyhoeddi. Dehonglir hyn fel dyddiad Tystysgrif y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Ym marn y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw ddigwyddiadau ers 31 Mawrth 2023 a fyddai'n effeithio ar y datganiadau ariannol.

# Y COMISIWN ETHOLIADOL

## CYFARWYDDYD CYFRIFON A RODDWYD GAN Y TRYSORLYS YN UNOL Â PHARAGRAFF 17(2) ATODLEN 1 I DDEDDF PLEIDIAU GWLEIDYDDOL, ETHOLIADAU A REFFERENDA 2000.

1. Bydd y Comisiwn Etholiadol yn paratoi cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 a blynyddoedd ariannol dilynol yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu'r argraffiad o Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ('y FReM') a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF sydd mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi.

2. Rhaid paratoi'r cyfrifon fel eu bod:

(a) yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Comisiwn Etholiadol ar 31 Mawrth 2011 ac ar ddiwedd blynyddoedd ariannol dilynol, ac o'i alldro adnoddau net, newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr a llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben bryd hynny;

(b) datgelu unrhyw wariant neu incwm perthnasol nad yw wedi'i gymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd neu drafodion perthnasol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

3. Bydd yn angenrheidiol cydymffurfio â gofynion y FReM, heblaw mewn amgylchiadau eithriadol, er mwyn i'r cyfrifon roi darlun gwir a theg. Mewn amgylchiadau eithriadol, os yw cydymffurfio â gofynion y FReM yn anghyson â'r gofyniad i roi darlun gwir a theg, dim ond i'r graddau sy'n angenrheidiol i roi darlun gwir a theg y dylid gwyro oddi wrth ofynion y FReM. Mewn achosion o'r fath, dylid arfer barn ddeallus a diduedd i lunio dull arall priodol a ddylai fod yn gyson â nodweddion economaidd yr amgylchiadau dan sylw ac ysbryd y FReM. Dylid trafod unrhyw wyriad sylweddol oddi wrth y FReM yn y lle cyntaf â'r Trysorlys.

4. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn disodli'r cyfarwyddyd dyddiedig 27 Chwefror 2006.

**Chris Wobschall**
**Pennaeth, Polisi Sicrwydd ac Adroddiadau Ariannol, Trysorlys EF**
**15 Ebrill 2011**

# Cysylltwch â ni

## Ein swyddfeydd

### Cymru

Y Comisiwn Etholiadol
Tŷ'r Cwmnïau
Ffordd y Goron
Caerdydd CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

### Lloegr

The Electoral Commission
3 Bunhill Row
Llundain EC1Y 8YZ
Ffôn: 020 7271 0500
info@electoralcommission.org.uk

### Yr Alban

The Electoral Commission
City Chambers
High Street
Caeredin EH1 1YJ

Ffôn: 0333 103 1928
infoscotland@electoralcommission.org.uk
.

### Gogledd Iwerddon

The Electoral CommissionGround Floor,
4 Cromac Place
The Gasworks
Belfast BT7 2JB

Ffôn: 0333 103 1928
infonorthernireland@electoralcommission
.org.uk.

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwylio etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb.

Y Comisiwn Etholiadol 2023

E02939468
978-1-5286-4307-8